Chartered Institute of Housing Cymru

GWOBRAU TAI CYMRU 2022

# Compendiwm Arfer Da

## Rhannu'r gwersi a ddysgwyd o Wobrau Tai Cymru 2022

Noddwr pennawd:

aico®

# Croeso

Mae Siarter Frenhinol y Sefydliad Tai Siartredig (CIH) yn dweud mai ein pwrpas yw "hyrwyddo celf a gwyddoniaeth tai." Mae'n rhaid i ni weithredu, nid yn unig er budd ein haelodau, ond er budd y cyhoedd yn ehangach a dyna'r prawf yr ydym yn mesur popeth a wnawn yn ei erbyn.

Mae rhan fawr o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn CIH yn ymwneud â nodi, cydnabod a lledaenu gwybodaeth, sgiliau ac arferion da.

Mae gwobrau yn rhan bwysig o'r broses hon. Mae'r ceisiadau a dderbyniwn yn aml yn tynnu sylw at arfer rhagorol neu arloesol, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y cartrefi a'r gwasanaethau a brofir gan denantiaid, preswylwyr a chymunedau.

Rydym yn rhannu'r arfer da hwnnw mewn nifer o ffyrdd – drwy ein digwyddiadau unigryw am ddim i aelodau, trwy ein sesiynau briffio aelodau, a thrwy ein portffolio blynyddol o weminarau, byrddau crwn a chyfleoedd rhwydweithio. Rydym yn gwneud hyn nid yn unig i rannu dysgu, ond er mwyn amlygu a dathlu unigolion a sefydliadau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Rhan ganolog o'r dull hwn o weithredu yng Nghymru yw Gwobrau Tai Cymru, ac o hynny, y Compendiwm Arfer Da sy'n cyd-fynd â hi, yr wyf yn credu ei fod yn un o'r cyhoeddiadau pwysicaf y mae CIH Cymru yn ei gynhyrchu bob blwyddyn.

Dyma'r cyhoeddiad sy'n tynnu ynghyd enghreifftiau ac astudiaethau achos o sut rydych chi a'ch cymunedau'n gwneud gwahaniaeth yn eich ardal leol, ond mae hefyd yn amlygu amcanion polisi cyhoeddus ehangach sy'n gwneud gwahaniaeth i'n bywydau ni i gyd.

Ac mae pwysigrwydd rhannu'r arfer da hwnnw yn fwy arwyddocaol fyth wrth i ni barhau i lywio ein ffordd drwy'r argyfwng costau byw a'r effaith y mae'n ei chael ar yr amgylchedd gweithredu a wynebwn fel gweithwyr proffesiynol tai.

Os nad ydym yn rhannu arfer da, sut fyddwn ni'n gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i'n tenantiaid? Byddwn yn parhau i rannu'r arfer hwnnw gyda'n haelodau a'r sector ehangach.

Ac os ydyn ni'n falch o fod yn weithwyr tai proffesiynol, ac mae gennym hawl i fod, yna dylen ni hefyd fod yn falch o ddysgu!



**Matt Dicks**
Cyfarwyddwr Cenedlaethol,
CIH Cymru

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Cyfathrebu mewn argyfwng** | | **6** |
| Caerphilly Homes Connects | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 6 |
| **Rhagoriaeth gwasanaeth i gwsmeriaid** | | **8** |
| Come Rent This Way | United Welsh | 8 |
| Ranting or Raving | Cartrefi Cymunedol Tai Calon | 10 |
| What Matters to You & Kindness First | Tai Aelwyd | 11 |
| **Rhagoriaeth iechyd a llesiant** | | **13** |
| Community Together | Cymdeithas Tai Caredig | 13 |
| Vision Friends | RNIB Cymru | 14 |
| Tîm Llesiant | Pobl | 16 |
| **Rhagoriaeth arloesedd tai** | | **18** |
| Building State of The Art Energy Efficient Homes | Creu Menter | 18 |
| Cyflwyno Cartrefi Carbon Isel Cyfforddus gan Ddefnyddio Systemau Ynni Tŷ Cyfan | Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru | 19 |
| Getfit.Wales | Cymdeithas Tai Newydd | 21 |
| Canolfan Ynni Cynaliadwy - Prosiect Cydweithio a Sgiliau | Robert Price Builders Merchants Ltd | 22 |
| **Rhagoriaeth wrth eirioli cydraddoldeb ac amrywiaeth** | | **24** |
| Arwain y Ffordd - Ymateb y Sector i Ymdrin ag Annhegwch Hiliol ar Lefel y Bwrdd a Swyddogion | Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd | 24 |
| Tŷ Pride | Cyngor Sir Ddinbych | 26 |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | | **28** |
| Cosy Place | Cartrefi Cymunedol Tai Calon | 28 |
| Fit and Fed | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 29 |
| Hospital to a Healthier Home | Gofal a Thrwsio Cymru | 30 |
| Canolfan Dysgu Cymdogol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 32 |
| Opening all Avenues | Tai Cymunedol Bron Afon | 33 |
| Safon Abertawe - darparu cartrefi carbon isel fforddiadwy ar gyfer y dyfodol | Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd | 34 |
| Gweithio gyda'n Gilydd i Ddarparu Cartrefi ar gyfer Staff Hanfodol y GIG | Cartrefi Conwy | 36 |


*Er mwyn cadw naws ddiledryw y prosiectau hyn, ac i gyfleu'r angerdd a deimlwyd gan y rhai dan sylw nid ydym wedi newid unrhyw ran o'r testun a gyflwynwyd i ni fel rhan o'r cofnodion hyn.*

| | | |
|---|---|---|
| **Gwobr cefnogi cymunedau** | | **38** |
| Chwyldro Digidol mewn Tai Cymdeithasol | Cymdeithas Tai Newydd | 38 |
| Academi Adra | Adra | 39 |
| Rhaglen Adfywio Cymunedol | The Community Impact Initative CIC | 41 |
| Y Prosiect Pontio | Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot | 42 |
| Tŷ Pantri | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 43 |
| Working Families | United Welsh | 44 |
| Working Wardrobe | Moxie People | 46 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyno cartrefi o safon uchel** | | **48** |
| Cwrt Canna | Cymdeithas Tai Newydd | 48 |
| Awel y Dyffryn | Grŵp Cynefin | 49 |
| Adeiladu Cartrefi Gwell | Cyngor Abertawe | 51 |

| | | |
|---|---|---|
| **Contractwr â ffocws ar y gymuned** | | **53** |
| 50 Diwrnod i Wneud Gwahaniaeth | Lovell | 53 |

| | | |
|---|---|---|
| **Creu lleoedd cadarnhaol** | | **55** |
| Prosiect Tyfu Cymunedol Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | 55 |
| Canolfan Dysgu Cymdogol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 56 |
| Y Felin, Treganna | Lovell | 57 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cefnogi bywydau actif** | | **59** |
| Gweithgareddau Pobl Hŷn | Grŵp Cynefin | 59 |
| Maes Y Môr Extra Care's Happy Health Living Project | Wales & West Housing | 60 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynaladwyedd ym maes tai** | | **62** |
| Ôl-osod ynni Tŷ Cyfan 6 Byngalo Teras yn Abertawe Gan Anelu at Dargedau Carbon Sero | Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru | 62 |
| Canolfan Ynni Cynaliadwy - Prosiect Cydweithio a Sgiliau | Robert Price Builders Merchants Ltd | 64 |
| Prosiect Ôl-osod yng Nglan-nant, Sir Benfro | Wales & West Housing | 65 |


*Er mwyn cadw naws ddiledryw y prosiectau hyn, ac i gyfleu'r angerdd a deimlwyd gan y rhai dan sylw nid ydym wedi newid unrhyw ran o'r testun a gyflwynwyd i ni fel rhan o'r cofnodion hyn.*

| **Tîm tai y flwyddyn** | | **67** |
|---|---|---|
| Living Well team | United Welsh | 67 |
| Tîm Cefnogi Tenantiaethau Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 69 |
| Tîm Rhenti Tai | Cyngor Abertawe | 70 |
| Tîm Tai | Grŵp Cynefin | 71 |
| Afghan Resettlement Support Team | Cymdeithas Tai Taf | 72 |
| Project Impact | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 74 |

| **Stori tai orau** | | **75** |
|---|---|---|
| Tîm More Homes | Cyngor Abertawe | 75 |


*Er mwyn cadw naws ddiledryw y prosiectau hyn, ac i gyfleu'r angerdd a deimlwyd gan y rhai dan sylw nid ydym wedi newid unrhyw ran o'r testun a gyflwynwyd i ni fel rhan o'r cofnodion hyn.*

# CYFATHREBU MEWN ARGYFWNG

Noddir gan: resource Sustainable Creativity

Mewn cyfnod heriol, mae bod yno i'ch cymuned yn eithriadol o bwysig. Mae'r wobr hon yn cydnabod landlordiaid y bu eu cyfathrebiadau â'u tenantiaid a'u trigolion yn rhagorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan roi gwybodaeth iddynt a helpu nhw i gadw mewn cysylltiad.

## Caerphilly Homes Connects

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**



### Datganiad o gefnogaeth

Gyda stoc tai o dros 10,600 o gartrefi, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn un o'r landlordiaid cymdeithasol mwyaf yng Nghymru.  Yn y pandemig Covid-19, roedd y cyngor yn wynebu heriau digynsail, ond bu'n deilwng o'r dasg gan ddod o hyd i amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau ei fod yn parhau i gyfathrebu â'i sylfaen tenantiaid fawr ac amrywiol.

Mae Cyngor Caerffili yn cydnabod 'nad yw un peth yn addas i bawb' a bod angen amrywiaeth eang o ddulliau i sicrhau ei fod yn cyrraedd cynifer o denantiaid â phosib gyda'i gyfathrebiadau.

Ar ddechrau'r pandemig roedd angen i ni gyfathrebu newidiadau yn y gwasanaeth a bod swyddfeydd wedi cau i denantiaid yn gyflym ac yn effeithiol.  Roedd y llwyfan GovDelivery yn ein galluogi i uwchlwytho cyfeiriadau e-bost tenantiaid ac anfon e-fwletinau i ddarparu diweddariadau hanfodol.  Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn i anfon diweddariadau misol i denantiaid, gan ddarparu diweddariadau tai allweddol.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ddull cyflym ac effeithlon o anfon negeseuon allweddol ac rydym yn gwybod o brofiad blaenorol bod yn well gan lawer o denantiaid gyfathrebu â ni drwy'r dull hwn.  Felly rydym yn defnyddio'r ddau gyfrif Cartrefi Caerffili, sydd ar gyfer tai yn benodol, yn rheolaidd, ochr yn ochr â'n prif sianeli cyfryngau cymdeithasol y cyngor, i anfon negeseuon am dai allweddol a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael. Gan fod Uned Gyfathrebu'r cyngor yn rhoi cymorth i dros 600 o wasanaethau mae hashnod yr ymgyrch #EichCartrefiEichDyfodol yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at bostiadau gysylltiedig â thai.

Fel cyngor rydym wedi datblygu cysylltiadau cryfion gyda'r wasg leol a oedd yn hynod o bwysig wrth alluogi ni i rannu straeon newyddion da, ond hefyd er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn cael eu diweddaru ar newidiadau allweddol i wasanaethau.  Rydym hefyd yn anfon datganiadau i'r wasg leol yn rhagweithiol ar unrhyw benderfyniadau tai a wneir ar lefel y Cabinet, gan i ni gredu bod naws agored a thryloywder yn hanfodol wrth feithrin perthynas â'n tenantiaid.  Mae datganiadau i'r wasg hefyd yn cael eu huwchlwytho i wefan erthyglau newyddion y cyngor a'u rhannu drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac e-fwletinau i sicrhau'r sylw mwyaf sy'n bosib.

Rydym yn deall nad oes gan bob tenant fynediad at ddulliau cyfathrebu digidol felly, yn ychwanegol, rydym hefyd yn anfon cylchlythyr blynyddol i holl denantiaid a lesddeiliaid y cyngor gan roi gwybodaeth a chysylltiadau tai allweddol iddynt.  At hynny, mae tenantiaid tai gwarchod yn derbyn eu cylchlythyr penodedig eu hunain bedair gwaith y flwyddyn ac hefyd roedd pob un yn derbyn pecynnau llesiant yn ystod y pandemig.

Mae cael cyswllt un i un yn hynod o bwysig i nifer o'n tenantiaid, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.  Yn ystod y pandemig fe wnaeth staff tai wneud

galwadau sicrwydd i bob tenant, gan gynnwys llety dynodedig pobl hŷn ac anghenion cyffredinol. Roedd y galwadau hyn yn gyfle i nodi unrhyw anghenion cymorth o fewn aelwydydd ond roeddent hefyd yn cynnig clust gyfeillgar i'r rhai oedd yn profi unigedd cymdeithasol.

Mynegodd nifer o'n tenantiaid hefyd yr awydd i gyfarfod â swyddogion wyneb yn wyneb ac, wrth ymateb i hyn, sefydlwyd cyfres o gymorthfeydd tai cymunedol ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig cyfle i denantiaid gwrdd â swyddogion ar garreg eu drws i drafod unrhyw bryderon neu gefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai y mae arnynt eu hangen.

Credwn fod hyn yn dangos ein hymrwymiad i ddefnyddio dulliau ac ymagweddau priodol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein sylfaen eang o denantiaid, yn enwedig yn ystod yr argyfwng digynsail a achoswyd gan y pandemig.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Dangosodd arolwg boddhad cartrefi diweddaraf y cyngor i 89% o drigolion deimlo bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi darparu cyfathrebiadau'n dda neu'n dda iawn yn ystod y pandemig; gan ddangos ein llwyddiant yn y maes hwn.

Mewn arolwg boddhad tenantiaid diweddar dywedodd 86% o'r ymatebwyr fod y galwadau lles a ddarparwyd gan staff tai yn ystod y pandemig wedi gwneud iddynt deimlo fod y cyngor yn gofalu amdanynt.

Dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol (CCBC a Chartrefi Caerffili ar y cyd):

Cyrhaeddiad Facebook: 137,132

Hoffiadau ar Facebook: 31,557

Dilynwyr Twitter: 21,641




# RHAGORIAETH GWASANAETH I GWSMERIAID

Mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, mae'r angen am ddarparu gwasanaeth rhagorol yn bwysicach nag erioed. Mae'r wobr hon yn cydnabod tîm tai sy'n mynd yr ail filltir a'r tu hwnt i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid rhagorol.

## Come Rent This Way

**United Welsh**




**Datganiad o gefnogaeth**

Lansiodd United Welsh brosiect ar draws timau a ystyriodd sut y gallai'r sefydliad fwyafu incwm rhent ar yr un pryd â darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid.

Roeddem o'r farn efallai bod y dulliau talu rhent sydd ar gael i gwsmeriaid yn rhwystr, ac nad oedd rhai dulliau yn darparu gwerth da am arian.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â chwsmeriaid mewn tri fformat (arolwg ar-lein hirach, arolwg ffôn byrrach ac arolygon wyneb yn wyneb) i gywain adborth am:

- ba mor dda roedd cwsmeriaid yn teimlo fod dulliau talu United Welsh yn gweithio
- arferion cwsmeriaid o ran talu biliau eraill (fel amlder a sianel)
- sut roedd ein dulliau talu yn wahanol i'r ffordd yr oedd cwsmeriaid yn talu biliau eraill
- pa ddulliau talu sy'n well gan gwsmeriaid
- pa ddulliau newydd y gellid eu cynnig.

Fe wnaeth dros 220 o gwsmeriaid ymateb. Dyma'r prif ganlyniadau:

- Debyd Uniongyrchol oedd y dewis talu a ffafriwyd y byddai gan denantiaid ddiddordeb mewn trosglwyddo iddo
- Y ddau a ddaeth yn ail oedd PayPal ac 'ar-lein gyda cherdyn'
- Dywedodd 20% y bydden nhw'n hoffi talu eu rhent yn wahanol. Roedd y rhan fwyaf o'r grŵp hwn yn talu dros y ffôn
- Dywedodd 25% nad ydyn nhw'n talu eu rhent yn yr un modd â'u biliau eraill (er mai dim ond un person a dalodd drwy Gredyd Cynhwysol), sy'n awgrymu efallai nad ydyn nhw'n ymwybodol o opsiynau haws.

Helpodd yr adborth hwn, ynghyd â dadansoddiad o gostau, i ni ystyried sut y gallem atgyfnerthu dulliau talu rhent a chefnogi pobl i ddefnyddio sianeli digidol mwy cost-effeithiol.

O ganlyniad, gwnaethom weithredu PayPal a Klickpay, a chyflwyno 'waled dalu' i sianeli ar-lein fel y gall cwsmeriaid storio manylion eu cerdyn yn ddiogel er hwylustod.

Wedyn fe wnaethom lansio ymgyrch gyfathrebu o'r enw 'Come Rent This Way' i ymgysylltu â grŵp cwsmeriaid (449 o bobl) oedd yn talu gyda chardiau rhent a thros y llinell ffôn. Golygai hyn fod adnoddau staff wedi eu neilltuo i gefnogi pobl a allai fod angen mwy o help i ddefnyddio dull digidol (gan nad oedden nhw ar hyn o bryd).

Bwriad yr ymgyrch oedd:

- Codi ymwybyddiaeth o ddulliau talu presennol megis Debyd Uniongyrchol a dulliau newydd megis PayPal a'n ap wedi'i ail-lansio, TED: https://bit.ly/3MlzixL
- Cefnogi cwsmeriaid i drosglwyddo i ddull talu gwahanol os oedden nhw eisiau

Defnyddiodd yr ymgyrch wahanol fformatau cyfathrebu er mwyn darparu ar gyfer gwahanol anghenion:

- Dyluniwyd brandio 'Come Rent This Way' disglair er mwyn i'r ymgyrch ennyn diddordeb yn weledol, ac fe'i defnyddiwyd ar draws yr holl gynnwys ar-lein ac oddi ar-lein cysylltiedig i helpu cwsmeriaid i gofio'r ymgyrch a'r negeseuon
- Anfonwyd llythyrau iaith glir wedi'u personoli at gwsmeriaid mewn print safonol a phrint mawr. Newidiodd y cynnwys gan ddibynnu ar ba ddull talu a ddefnyddiwyd gan y derbynnydd. Roedd y llythyrau yn rhoi amseroedd apwyntiad gyda Swyddogion Rhent, gan gynnig galwadau ffôn a fideo
- Anfonwyd negeseuon testun dilynol at gwsmeriaid nad oeddent yn ymgysylltu â'r apwyntiadau
- Roedd gwefan ac ymgyrch Facebook yn weithredol drwy gydol y cyfnod; gan ddefnyddio adborth cwsmeriaid i gyfeirio'r negeseuon allweddol. Cynhyrchodd postiadau'r ymgyrch Facebook 14,648 o argraffau a 600 o ymgysylltiadau.
- Cafodd deunyddiau printiedig megis llythyrau rhent a'n Canllaw Croesawu cwsmeriaid eu diweddaru gyda'r ymgyrch i hysbysu a chyfeirio pobl.

Cyfathrebwyd yr ymgyrch i staff hefyd drwy gyfarfodydd prosiect, MS Teams a'n cylchlythyr staff, Core Brief.

Canlyniadau'r apwyntiadau oedd:

- ymgymerodd 46% o gwsmeriaid y nodwyd eu bod yn ddefnyddwyr Cerdyn Rhent rheolaidd yn PayPoint a Swyddfa'r Post (207 o 449) ag apwyntiadau
- newidiodd 50 o bobl i Ddebyd Uniongyrchol, newidiodd 55 o bobl i daliadau ar-lein a dywedodd 102 o bobl y byddan nhw'n ystyried newid yn y dyfodol neu fod nhw ddim eisiau newid
- newidiodd 5 person o Archebion Sefydlog i Ddebyd Uniongyrchol

Fe wnaethon ni hefyd gynnal arolwg ffôn sampl gyda bron i 30 o denantiaid i werthuso cyfathrebiadau'r ymgyrch:

- I ba raddau oeddech chi'n hoffi cynnwys ac arddull cyfathrebiadau'r ymgyrch (1 'ddim o gwbl' - 5 'wrth fy modd'). Ymateb ar gyfartaledd: 4
- Pa mor glir a hawdd oedd i ddeall y cyfathrebiadau am ddulliau talu (1 'ddim o gwbl' - 5 'wrth fy modd'). Ymateb ar gyfartaledd: 4
- Faint wnaeth y cyfathrebiadau i chi deimlo eich bod yn cael eich cefnogi i newid eich dull talu (1 'ddim o gwbl' - 5 'wrth fy modd'). Ymateb ar gyfartaledd: 4

Mae United Welsh yn parhau i hyrwyddo dulliau talu rhent yn rhagweithiol ar draws pob sianel, a bydd cam nesaf yr ymgyrch farchnata uniongyrchol yn cael ei gynllunio i gydlynu gyda mudo i Gredyd Cynhwysol.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Roedd y prosiect dulliau talu a lansiwyd gan United Welsh yn ymdrech ar draws timau fu'n cynnwys cydweithwyr ar draws y busnes, o gydweithwyr mewn rolau sy'n wynebu cwsmeriaid fel Swyddogion Rhent a Chydlynwyr Ymgysylltu â Chwsmeriaid, hyd at dimau adnoddau fel Cyfathrebu a TG.

Ffurfiwyd y grŵp prosiect i ystyried sut y gellid manteisio i'r eithaf ar incwm rhent ac ar yr un pryd darparu gwasanaeth cwsmeriaid gwych, a llywiwyd cyfeiriad y prosiect drwy ymgynghori â chwsmeriaid am ddulliau ac arferion talu.

Gan weithredu ar adborth gan gwsmeriaid, atgyfnerthodd United Welsh eu dulliau talu rhent; gan lansio sianeli newydd ac ymgyrch newydd i gefnogi pobl i drosglwyddo i ddull talu gwahanol os oedden nhw eisiau.

Defnyddiodd ymgyrch United Welsh amrywiaeth o ddulliau i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ag anghenion amrywiol. Darparwyd cefnogaeth bersonol i grŵp cwsmeriaid wedi'i dargedu i'w helpu i drosglwyddo i ddull talu rhent digidol, a bu i dactegau'r ymgyrch wneud y mwyaf o gyfleoedd i gwsmeriaid eraill ddysgu am ddulliau talu a dewis sianel sy'n addas ar eu cyfer.

Fe wnaeth cwsmeriaid ymateb yn dda i'r ymgyrch ac mae'r prosiect wedi creu arbedion i'r busnes, gyda phrosesau talu rhent mwy cost-effeithiol yn cael eu mabwysiadu.

Er enghraifft, cynyddodd gwerth taliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol £2.3m yn 2021/22 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a gostyngodd gwerth taliadau drwy Gardiau Rhent £427K dros yr un cyfnod. Hefyd, gostyngodd ôl-ddyledion rhent gros United Welsh o 3.76% i 3.23% yn 2021/22 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

# Ranting or Raving

**Cartrefi Cymunedol Tai Calon**



**Datganiad o gefnogaeth**

Pan ddatblygodd Tai Calon ei gynllun corfforaethol 2020-2025 newydd, fe wnaethom nodi amcan clir o gyflawni boddhad cwsmeriaid 90% erbyn 2025. Cyn gynted ag y gwnaed hyn, daeth yn amlwg nad oedd ein dull presennol o gywain adborth gan gwsmeriaid yn mynd i fod yn ddigon i'n helpu i gyflawni ein hamcan dyheadol allweddol.

Ein ffordd draddodiadol o gywain adborth ar ddarpariaeth gwasanaethau bob dydd oedd ffôn a phapur yn bennaf. Roedd hyn yn faich o ran amser, yn ddrud ac yn golygu nad oedd adborth yn cael ei gywain am rai wythnosau ar ôl i'r gwasanaeth gael ei dderbyn. Ni allem hefyd gywain digon o adborth yn hawdd i gynhyrchu mewnwelediad manwl, gan gywain dim ond 100-200 o eitemau bob mis yn gyffredinol.

Gyda hyn fel ein man cychwyn, roeddem yn gwybod bod angen i ni ddod o hyd i ateb a fu'n galluogi i ni gywain a dadansoddi meintiau uwch o adborth, mewn ffordd syml, hyblyg, a greddfol a dyna pryd y gwnaethon ni'r penderfyniad i weithio gyda Rant and Rave.

Ar ôl i ni ddatblygu ein gofynion, gwnaethom gytuno ar yr hyn yr oeddem am ei ofyn i'n cwsmeriaid, a oedd yn golygu cwtogi ein cwestiynau ein harolwg i ddau yn unig. Roedd cyflymder yn bwysig ac roedden ni'n weithredol mewn mater o wythnosau. Er mwyn ei gwneud hi'n hawdd, yn gyflym ac am ddim i'n cwsmeriaid fe ddechreuon ni gywain adborth cwsmeriaid drwy arolygon dros SMS, e-bost a'r we. Yn allweddol, roedd y rhain i gyd yn sianeli yr oedd ein cwsmeriaid yn dweud eu bod yn eu hoffi ac yn eu defnyddio'n weithredol i ymgysylltu â ni.

Yn gyflym iawn roedden ni'n gwybod bod ein buddsoddiad yn werth chweil, gan i ni dderbyn tua 300 o eitemau o adborth y mis, gyda chyfradd ymateb o dros 20%. Rydym bellach yn cywain mewnwelediad yn uniongyrchol gan gwsmeriaid y diwrnod ar ôl iddynt dderbyn gwasanaeth gennym ni. Ynghyd â chwestiwn boddhad cwsmeriaid wedi'i sgorio (gydag ystod sgoriau rhwng 1 a 5) rydym bellach yn defnyddio cwestiwn agored yn gofyn pam, cynhyrchodd y cwestiwn penodol hwn fewnwelediad newydd am yr hyn a wnaeth brofiad gwasanaeth gwych.

Mae'r cam cychwynnol o drosglwyddo i weithio gyda Rant a Rave wedi gweld dau fudd sylweddol. Yn gyntaf, roedden ni'n gwybod bron yn syth os nad oedd cwsmeriaid yn hapus, gan golygu y gallem ffonio nhw i ddatrys pethau ar yr un diwrnod. Yr ail oedd y gallu i rannu adborth gwych gan gwsmeriaid am ein staff yn uniongyrchol gyda nhw mewn amser real. Nid oedd y ddau beth hyn yn bosib gyda'n hen ddull.

Helpodd hyn ni i adeiladu momentwm sylweddol yn ein hamcan i gyrraedd boddhad cwsmeriaid o 90%. O ganlyniad i gael mewnwelediad cwsmeriaid amser real bob dydd i'w rannu ac i ddysgu ohono, symudwyd y sgyrsiau mewn gwaith bob dydd i rai sy'n canolbwyntio ar wella'r profiad i gwsmeriaid a chynyddu lefelau boddhad cwsmeriaid.

O fewn ychydig fisoedd cynyddodd ein cyfraddau ymateb i dros 25%, gan golygu i ni gywain tua 600-750 o eitemau o adborth bob mis. Wrth i'r mewnwelediad hwn gronni a thrwy ddefnyddio'r dangosfyrddau a ddarperir gan Rant a Rave, gallwn hefyd weld yn hawdd bod patrymau'n dod i'r amlwg ynghylch y prif yrwyr boddhad ac o ganlyniad lle roedd angen i ni dalu sylw er mwyn gwneud gwelliannau.

Bu i ni ddysgu'n gyflym bod ein cwsmeriaid yn hynod gadarnhaol am ein staff, ar ôl derbyn dros 4,500 o eitemau o adborth yn cyfeirio'n benodol at lefelau uchel o broffesiynoldeb, cwrteisi, a pharodrwydd staff i helpu, roedd y sylwadau'n cynnwys

"Staff da a chwrtais a'r gwasanaeth wedi'i wneud yn broffesiynol"

"Dymunol a chwrtais a chyfathrebu'n wych"

"Roeddwn i'n poeni'n fawr am fy sefyllfa, ac roedd hi mor barod i helpu ac felly wedi rhoi tawelwch meddwl i mi"

Dysgom fwy hefyd am yr hyn oedd yn achosi lefelau uwch o anfoddhad, gan gynnwys ein capasiti i ddarparu gwasanaethau yn iawn y tro cyntaf, yr amser a gymerodd i gwblhau gwaith atgyweirio yn llawn a pha mor gyflym yr oeddem yn gallu ymdrin â cheisiadau ac ymholiadau gan gwsmeriaid. O'r mewnwelediad hwn aethom ati i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ble y gallem wneud gwelliannau.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Fe wnaethom ddadansoddi dros 8500 o eitemau o adborth ar draws gwasanaethau rheng flaen gan greu dros 10,000 darn o ddata a sylwadau y gallem weithredu arnynt. Mae'r data hwn wedi arwain at wneud sawl gwelliant i brofiadau cwsmeriaid ar draws y busnes, gyda'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn ein gwasanaethau atgyweirio a chynnal ymatebol. Yn seiliedig ar y mewnwelediadau a gasglwyd gennym rydym eisoes wedi:

- Newid y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn blaenoriaethu gwaith, gan greu apwyntiad mwy hyblyg i gwsmeriaid
- Comisiynu gwasanaethau newydd lle'r oeddem yn gwybod bod ein gallu yn methu â darparu'r gwasanaeth yr oedd ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.
- Gwella ein prosesau o ran sut rydym yn ymdrin â swyddi sy'n gofyn naill ai am fwy o amser i'w cwblhau neu fwy nag un ymweliad i'w trwsio. Arweiniodd hyn at wneud gwaith yn gyflymach a gwella cyfathrebiadau â chwsmeriaid.

Mae ein gwaith gwella wedi gweld sgorau boddhad cwsmeriaid ar draws ein gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw yn codi o 86% ym mis Mai 21 i 94% ym mis Awst 2022.

Mae sylw gwych gan gwsmer yn crynhoi lle rydyn ni am gyrraedd.. "Roedd y gwasanaeth yn gyflymach nag oeddwn i'n meddwl y byddai'n cymryd ac roedd y trydanwr yn gyfeillgar, yn agored, â'i draed ar y ddaear, fe wnaeth i mi deimlo nad oedd dieithryn yn fy nhŷ! A bod yn onest, gwasanaeth perffaith!

# What Matters to You & Kindness First

**Tai Aelwyd**



### Datganiad o gefnogaeth

Mae Tai Aelwyd yn gweithredu ar draws De Cymru ac yn darparu cartrefi yn bennaf i bobl dros 55 oed. Yn 2020 aeth y sefydliad drwy gyfnod o drawsnewidiad enfawr gyda Thîm Arweinyddiaeth newydd, ac effaith y pandemig ar ddarparu gwasanaethau. Roedd y cyfnod clo yn wers ddiwylliannol arwyddocaol i'r sefydliad ym mhwysigrwydd cyswllt personol a charedigrwydd i drigolion ar adeg pan oedd cynifer ohonynt yn profi unigrwydd ac unigedd. O ganlyniad i'r profiad, adolygodd y Bwrdd Werthoedd y sefydliad. Gan ddilyn hynny, gwerthoedd newydd Tai Aelwyd oedd Trugaredd, Perthynas, Cofleidio, Rhagoriaeth, a Chyfiawnder.

Ers hynny mae'r sefydliad wedi trawsnewid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau gyda dwy ymagwedd allweddol; 'Beth sy'n Bwysig i Chi?' a 'Caredigrwydd yn Gyntaf'.

Mae'r ymagwedd 'Beth sy'n Bwysig i Chi?' yn golygu bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd bersonol ac wedi'i theilwra gymaint â phosib. Gofynnir i drigolion siarad am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw fel unigolion ac mae gwasanaethau'n cael eu haddasu yn unol â hynny. Mae holl staff Tai Aelwyd, gan gynnwys y Tîm Arweinyddiaeth, yn ateb galwadau gan drigolion a chymerir amser i wybod enw ac amgylchiadau pob preswylydd. Nid oes unrhyw aelod o staff wedi'i ddatgysylltu o gyswllt â thrigolion, ac mae hyn wedi helpu i ddatblygu diwylliant sefydliad cyfan empathig sy'n cyfathrebu'n well o lawer.

Awgrymodd adborth gan drigolion bod yn well ganddynt gyswllt wyneb yn wyneb a thros y ffôn i lythyrau, felly yn ychwanegol at y gwasanaethau presennol, cyflwynwyd rhaglen i ymweld â'r holl drigolion gartref o leiaf unwaith y flwyddyn i'w holi am berfformiad y sefydliad ac a ellir gwneud unrhyw beth yn well. Mae hefyd yn gyfle i wirio lles trigolion a nodi materion o ran cymorth a'r eiddo. Mae staff ar bob lefel gan gynnwys y Prif Weithredwr yn rhan o'r rhaglen hon.

Astudiaeth Achos: Bu preswylydd gyda Dementia yn aml yn diffodd ei rewgell gan arwain at wastraff bwyd sylweddol a chost ariannol. Cafodd y Gymdeithas wybod am y mater. Cafodd y soced ei symud a'i osod gyda blwch cloi i atal hyn rhag digwydd eto.

Mae'r ymagwedd 'Caredigrwydd yn Gyntaf' yn cael ei chymhwyso i'r holl ryngweithio â thrigolion beth bynnag yw'r mater. Yn syml, mae'n golygu bod yn garedig a dangos trugaredd. O ganlyniad i hyn, symudwyd i ffwrdd o lythyrau safonol, targedau, a chamau gorfodi cosbol, tuag at ymagwedd unigol at wasanaethu cwsmeriaid. Mae'r dull 'Caredigrwydd yn Gyntaf' yn golygu bod staff yn mynd yr ail filltir i gefnogi ac eirioli dros drigolion. Mae'r sefydliad hefyd wedi cyflawni achrediad Ystyriol o Dementia, ac mae hyn wedi cyfeirio sut y caiff gwasanaethau eu darparu i sicrhau cynaladwyedd tenantiaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gymdeithas hefyd wedi dod â'r holl Denantiaethau Fyrddaliad Sicr i ben er mwyn rhoi cydraddoldeb i drigolion o ran sicrwydd daliadaeth.

Astudiaeth achos: Cynhaliwyd ymarfer cnocio drysau fel rhan o'r rhaglen i ymweld â phob trigolyn gartref. Nododd trigolyn fod angen atgyweiriad, ac roedd yr aelod o staff yn gallu cael mynediad i'r cartref. Gwelwyd bod angen cefnogaeth ar y trigolyn oherwydd hunan-esgeulustod a diffyg eiddo sylfaenol. Roedd y sefydliad yn gallu rhoi cymorth drwy ei Gronfa Lles Preswylwyr a gweithio gyda'r trigolyn i sicrhau cymorth priodol gan asiantaethau iechyd.

Mae'r dull 'Caredigrwydd yn Gyntaf' hefyd yn berthnasol i neilltuadau. Gofynnir i ymgeiswyr am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw ac mae hyn yn cyfeorop'r gwaith a wneir ar yr eiddo segur a'r dewis a roddir cyn symud i mewn.  Gan fod rhagoriaeth hefyd yn un o Werthoedd y Gymdeithas, cymhwysir sylw i fanylder yn y cam neilltuo, gyda safon gosod uchel, a'r dyhead y dylai trigolion newydd fod wrth eu bodd gyda'u cartref. Mae pob un o'r trigolion newydd yn cael Pecyn Croeso gyda cherdyn cyfarch gan y sefydliad ac arolwg yn fuan ar ôl symud i mewn.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r ymagwedd at wasanaeth i gwsmeriaid wedi cyflwyno canlyniadau pendant. Trefnir gwaith atgyweirio drwy gyswllt ffôn, nid llythyrau, gyda'r holl ryngweithio'n cael ei gofnodi ar gronfa ddata y gall ei chyrchu. Mae hyn wedi lleihau nifer yr apwyntiadau a gollir, gyda 98% o apwyntiadau'n cael eu cadw. Mae rheoli incwm wedi gwella, gan ddisodli llythyrau safonol gydag ymagwedd bersonol garedig. Nid oes unrhyw dargedau rheoli incwm i yrru ymddygiad staff. Y canlyniad yw dyled eithriadol o isel i'r Gymdeithas (Ôl-ddyledion net 0.5%).

Mae'r ymagwedd 'Beth sy'n bwysig i chi?' yn golygu bod y Gymdeithas yn cydymffurfio 100% ar brofion nwy a diogelwch trydanol. Mae lefelau boddhad trigolion newydd yn 100%.

Dangosodd Boddhad Tenantiaid Llywodraeth Cymru (Mai 2022) fod gan Tai Aelwyd y lefelau boddhad uchaf o'r holl gymdeithasai tai traddodiadol ym mron pob categori, gyda 98% o drigolion yn hapus gydag ansawdd eu cartref, a 97% yn teimlo bod eu rhent yn cynnig gwerth am arian.

Diolch am yr agwedd garedig tuag at Mam y bore 'ma. Roeddech chi mor garedig ac empathig, ac roedden ni wir yn gwerthfawrogi hynny. Bu i Mam eich canmol i'r nefoedd yr holl ffordd adref (Mrs S)

Gwasanaeth ardderchog. Marciau uchaf gen i (Mr T)

Mae'r gweithwyr hefyd yn garedig ac yn gwrtais, ac ni allant gwneud digon i'ch helpu chi pan fyddan nhw'n dod (Mrs M)



# RHAGORIAETH IECHYD A LLESIANT

Noddir gan: Tai Wales & West Housing

Mae'r wobr hon ar gyfer sefydliadau sydd wedi dangos rhagoriaeth yn eu hymagwedd at iechyd a llesiant staff a / neu drigolion dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n dathlu prosiectau neu fentrau newydd sydd wedi gwella iechyd a llesiant.

## Community Together

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Caredig**

**Sefydliad partner: Cyngor Dinas Abertawe**



**Datganiad o gefnogaeth**

Dechreuodd Community Together, sy'n wasanaeth newydd â'r nod o ailddychmygu integreiddio cymunedol ar gyfer pobl sydd â heriau iechyd meddwl yn byw ar draws Abertawe, ym mis Hydref 2021. Mae'r gwasanaethau yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth OASIS (Opportunities for Accommodation and Support Information Service) yn Abertawe.

Prosiect peilot ydyw sy'n ymchwilio i ymagwedd newydd at ymdrin â sut mae pobl yn integreiddio â'u cymuned yn seiliedig ar yr 'Effaith Trampolîn'. Y nod yw pontio pobl i mewn i'w cymuned (eu trampolinio), yn hytrach na dibynnu ar rwydi diogelwch cymdeithasol ac ymagweddau seiliedig ar risg a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd Caredig eisiau ymchwilio i sut y gall y sector symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel, fel arfer wedi'u hamgylchynu gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill a gweithwyr proffesiynol, i alluogi pobl i fyw bywydau cyffrous - y bywyd y byddem ei eisiau i ni ein hunain.

Dechreuodd y prosiect ar gyfnod allweddol i gymunedau gan iddo ddilyn y cyfnodau clo covid 19. Ers covid, mae Community Together wedi bod wrth wraidd y gymuned OASIS, gan gefnogi twf a datblygiad y gymuned gyfan yn gyffredinol ac wedi creu buddion mawr ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r prosiect yn mynd i wasanaethau OASIS ac yn cael sgyrsiau gyda defnyddwyr y gwasanaeth, i gael gwybod beth maent eisiau ei wneud o fewn eu cymuned. Yna mae'n asesu'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn eu cysylltu â'r gwasanaethau hyn. Os na fydd unrhyw beth ar gael, bydd yn cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i sefydlu grŵp. Gwneir hyn drwy logi gweithiwr llawrydd, ee artist i gynnal clwb celf, a threfnu lleoliad, amser a diwrnod mewn cydweithrediad â'r defnyddiwr gwasanaeth. Yna caiff y grŵp ei hysbysebu i ddefnyddwyr gwasanaeth OASIS, ac wedyn y gymuned ehangach.

Trwy ddeall y rhwystrau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu hwynebu, mae'r prosiect yn gweithio i'w goresgyn ee ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth niwroamrywiol sy'n cael ysgogiadau synhwyraidd yn gynhyrfus, sefydlwyd grŵp lle gellid troi'r goleuadau a'r gerddoriaeth i lawr pan yr oedd ymlaen.

Mae wedi bod yn hynod o wobrwyol i weld yr effaith y mae'r prosiect wedi'i chael ar ddefnyddwyr gwasanaeth, sydd yn hanesyddol wedi ei chael hi'n anodd integreiddio â'u cymunedau.

Sefydlwyd 24 grŵp cymunedol newydd ledled Abertawe, ee Celf Ewinedd, Sgiliau DJ, mewn

partneriaeth ag 16 o sefydliadau gwahanol gan gynnwys y trydydd sector, ymarferwyr statudol a llawrydd. Gall defnyddwyr y gwasanaeth wirfoddoli ac ennill Credydau Amser, sy'n cael eu defnyddio tuag at brydau bwyd am ddim, tocynnau sinema etc.

Yn ystod 10 mis cyntaf Community Together, mae 205 o Ddefnyddwyr Gwasanaeth wedi ymgysylltu ac mae gan y Grŵp Facebook 2200 o aelodau.

Mae Community Together yn cyd-gynhyrchu ac mae'r gweithgareddau a'r cyfleoedd yn datblygu o hoffterau, diddordebau, ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae defnyddwyr gwasanaethau sydd 'wrth y llyw' gyda'u gweithgareddau yn cael mwy o fwynhad ac yn parhau i gymryd rhan.

Clywch gan ddefnyddwyr Community Together:

"Dwi'n teimlo bod fy syniadau'n cael eu clywed - dywedais fy mod i wastad eisiau gweithio mewn caffi felly daeth Nic i siarad â fi am grŵp newydd roedd hi'n ei wneud yn Nhreforys a gofyn a hoffwn wirfoddoli drwy weini'r te a choffi".

Jyst eisiau dweud diolch yn fawr iawn am ganiatáu i ni ymuno â'r cwrs coginio Tsieineaidd. Ymunais â'r grŵp hwn i ddechrau fel rhyw fath o therapi i fy mab sydd wedi cael diagnosis o seicosis ac rydym wedi darganfod bod coginio yn ei helpu. Er yr oedd y wers goginio yn anhygoel, eistedd wrth fwrdd yn bwyta a sgwrsio gyda grŵp o bobl, i gyd yn chwerthin a rhoi'r byd yn ei le (neb yn nabod ei gilydd) oedd y therapi gorau oll!"

"Dydw i ddim yn hoffi torfeydd mawr ac mae Nicola wedi gwrando ar hynny. Fel dydyn ni ddim yn mynd i bysgota ar ddydd Sadwrn gan fod hwnnw'n ddiwrnod prysur".

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mewn 10 mis mae 205 o Ddefnyddwyr Gwasanaeth wedi ymgysylltu â Community Together ac mae 24 grŵp cymunedol newydd wedi'u sefydlu. Mae gan y Grŵp Facebook 2200 o aelodau. Mae wedi cael effaith sylweddol ar gymuned OASIS yn ei chyfanrwydd ac ar unigolion. Gan fod y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar y person mae gan bawb ei ddeilliannau iechyd a lles eu hunain:

'Rwy'n mynychu sawl grŵp sydd wedi fy helpu'n aruthrol. Awgrymodd fy Ngweithiwr Cymdeithasol y grŵp i mi ac mae wedi bod yn fendith i fy mywyd. Ar ddiwrnodau pan nad oes gen i unrhyw bwrpas, mae'n rhoi rheswm dros wenu i mi. ."

"Rwyf wedi ymuno â dau grŵp Community Together: Coginio ac Ysgrifennu Creadigol. Mae'n hygyrch i unrhyw un. Mae'r grwpiau'n gyfeillgar, ac yn anfeirniadol, rwyf wedi cwrdd â phobl o wahanol grwpiau ethnig. Mae'r gweithgareddau wedi fy helpu i gwrdd â phobl newydd, i fynd allan o'r tŷ, mae wedi fy helpu i gymdeithasu, ac mae wedi fy helpu gyda fy iselder a gorbryder cymdeithasol.

Gwych! Rwy'n dwlu arno! Mynychais y Grŵp Cynhyrchu Cerddoriaeth gyda Rewise. Dwi ddim yn wych gydag ysgrifennu na sillafu ac roedden nhw'n help mawr i mi a doeddwn i ddim yn teimlo'n dwp. Roedden nhw hyd yn oed yn enwi'r gân ar fy ôl i. Roedd yn gwneud i mi deimlo'n arbennig.

# Vision Friends

**RNIB Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Dechreuodd y prosiect Vision Friends yn 2020 ac mae eisoes wedi hyfforddi 150 o staff tai ar sut i ddeall cyflyrau'r llygaid, nodi arwyddion o golli golwg, cael mynediad at wasanaethau gofal llygaid a gwella'r amgylchedd adeiledig i gynyddu annibyniaeth.

Mae'r ddau fodiwl ar yr amgylchedd adeiledig yn sôn am nodweddion megis cyferbyniad lliw a goleuadau sy'n galluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar y golwg sydd ganddyn nhw. Mae'r prosiect Vision Friends wedi gweithio mewn partneriaeth ag 11 o gymdeithasau tai.

Meddai Christopher Thomas, Cydlynydd Diogelu a Safonau Gwasanaeth Trivallis: "Mae ein gwaith gyda'r prosiect Vision Friends wedi helpu i atgyfnerthu ac adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud gyda Safonau Visibly Better RNIB dros y blynyddoedd. Roedd yr hyfforddiant yn gynhwysfawr ac yn oleuedig ac mae wedi rhoi'r sgiliau a'r mewnwelediad hanfodol sydd eu hangen ar ein tîm i gefnogi ein tenantiaid gyda cholled golwg orau."

O ganlyniad i'n hyfforddiant Vision Friends, mae gan staff ddealltwriaeth well o effaith colli golwg ar les pobl, eu gweithgareddau bob dydd, a sut y gall gyfrannu at gwympo. Maen nhw'n dweud nid yn unig eu bod yn deall colli golwg a gwahanol gyflyrau llygaid yn well, ond hefyd wedi cael mewnwelediad i sut y maent yn effeithio ar fywydau pobl. Mae'r

gwerthusiad o'n prosiect yn dangos gwelliannau arwyddocaol mewn hyder staff wrth roi cymorth i bobl sydd â cholled golwg; yn enwedig wrth awgrymu cymhorthion ac addasiadau defnyddiol a all gefnogi pobl â cholled golwg i gwblhau gweithgareddau bob dydd, a gwelliannau ac addasiadau i amgylcheddau byw. Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am sut roedd yr hyfforddiant wedi eu helpu i ddeall pa newidiadau ffisegol y gellid eu gwneud i ardaloedd byw er mwyn helpu pobl â cholled golwg neu golled golwg posib, yn ogystal â gwerth dyfeisiau ac offer a ddylunnir yn arbennig sy'n gwneud bywyd bob dydd yn haws i bobl sydd â cholled golwg.

Mae Vision Friends yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau bob dydd pobl hŷn â cholled golwg yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd.

Mae rhai enghreifftiau o'r newidiadau sydd wedi creu buddion a gwella lles cyffredinol pobl sydd wedi colli eu golwg yn cynnwys:

Mwy o atgyfeiriadau at brofion llygaid a ddaeth yn sgil gwybodaeth newydd.

Cyflwyno a defnyddio cymhorthion cartref i gefnogi gweithgareddau bob dydd, gan gynnwys sticeri taro ar offer a chwyddwydrau i barhau â gweithgareddau fel darllen a gwau. Mae hyn hefyd wedi cysylltu tenantiaid â Gwasanaeth Golwg Isel Cymru ar gyfer cefnogaeth wedi'i theilwra lle bo angen.

Newidiadau i'r amgylchedd byw gan gynnwys gwella goleuadau a dodrefn fwy addas)

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar sut i ddefnyddio nodweddion hygyrchedd ar lechi, fel iPads. Cyn hynny roedd tenantiaid yn dweud nad oedden nhw eisiau llechen gan nad oedden nhw'n siŵr sut i'w defnyddio oherwydd eu nam ar y golwg. Mae hyn yn cefnogi annibyniaeth a chysylltedd ar gyfer tenantiaid.

Fe wnaeth staff tai fwydo'n ôl bod ganddyn nhw well ymwybyddiaeth o gyflyrau llygaid fel Syndrom Charles Bonnet erbyn hyn. Cyflwr sy'n achosi i'r ymennydd greu rhithwelediadau pan nad yw'n derbyn negeseuon gan y llygad bellach. Weithiau mae tenantiaid yn ofni siarad am y rhithwelediadau sydd ganddynt oherwydd colli golwg ac yn mynd yn ynysig ac yn unig. Gall arfogi pobl yn well gyda gwybodaeth am y cyflwr annog y rhai sydd wedi eu heffeithio i siarad allan a gofyn am gymorth.

'Yr hyn a fu'n dda oedd clywed am y gwahanol gyflyrau llygaid a chlywed e gan y bobl sydd â'r cyflyrau llygaid hynny. Mae hynny wedi bod yn bwerus iawn.' (cyfranogwr)

'Dwi'n meddwl, ar gyfer y bobl sydd wedi gwneud yr hyfforddiant, mae wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth i ni o sut mae pobl yn brwydro i gael mynediad at wasanaethau hefyd. Rydym am allu atgyfeirio pobl i gael cymorth.' (cyfranogwr/rheolwr)


### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r prosiect Vision Friends wedi hyfforddi 150 o staff tai mewn 11 o gymdeithasau tai ar sut i ddeall cyflyrau'r llygaid, nodi arwyddion o golli golwg, cael mynediad at wasanaethau gofal llygaid a gwella'r amgylchedd adeiledig i gynyddu annibyniaeth. Mae rhai enghreifftiau o'r newidiadau sydd wedi creu buddion a gwella lles cyffredinol pobl sydd wedi colli eu golwg yn cynnwys:

- Mwy o atgyfeiriadau at brofion llygaid a ddaeth yn sgil gwybodaeth newydd.
- Cyflwyno a defnyddio cymhorthion cartref i gefnogi gweithgareddau bob dydd, gan gynnwys sticeri taro ar offer a chwyddwydrau i barhau â gweithgareddau fel darllen a gwau. Mae hyn hefyd wedi cysylltu tenantiaid â Gwasanaeth Golwg Isel Cymru ar gyfer cefnogaeth wedi'i theilwra lle bo angen.
- Newidiadau i'r amgylchedd byw gan gynnwys gwella goleuadau a dodrefn fwy addas)
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar sut i ddefnyddio nodweddion hygyrchedd ar lechi, fel iPads. Cyn hynny roedd tenantiaid yn dweud nad oedden nhw eisiau llechen gan nad oedden nhw'n siŵr sut i'w defnyddio oherwydd eu nam ar y golwg. Mae hyn yn cefnogi annibyniaeth a chysylltedd ar gyfer tenantiaid.

# Tîm Llesiant

## Pobl




### Datganiad o gefnogaeth

Pobl yw'r gair Cymraeg am 'people' ac maen nhw wirioneddol wrth wraidd ein penderfyniadau. Mae gennym ymagwedd ragweithiol at lesiant drwy ymgysylltu'n barhaus â'n 2500 o gydweithwyr. Rydym wedi creu tîm llesiant cydweithwyr mewnol sy'n ychwanegu at y cynnig presennol o raglen cymorth i weithwyr a'n contract cwnsela allanol. Mae'r tîm mewnol yn cynnwys tri arbenigwr â chymwysterau lefel uchel sy'n cyflwyno gwasanaethau anogaeth lles, anogaeth trawsbersonol, cwnsela CBT a gwasanaethau ymyrraeth trawma. Mae atgyfeiriadau yn gyfrinachol ac yn cael ymateb o fewn 24 awr. Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, cysylltodd 864 o gydweithwyr â'r tîm am gymorth gyda'u llesiant. Oherwydd her y blynyddoedd diwethaf, mae ein ffocws wedi bod ar lesiant seicolegol ac emosiynol.

Rydym yn cefnogi hyn drwy:

- Ddarparu cymorth lles cyfrinachol sy'n hygyrch i bawb
- Cael tudalen iechyd a llesiant ar ein mewnrwyd gydag adnoddau, dolenni i wefannau, podlediadau, a chyfeirlyfr llesiant.
- Cyflwyno sesiynau hyfforddi unigol i gydweithwyr a thimau
- Cyflwyno sesiynau ymarfer myfyriol i unigolion a thimau i ddatblygu gwydnwch
- Darparu cymorth trawma ar ôl digwyddiadau mewn gwasanaethau fel marwolaeth a thrais corfforol.
- Cyflwyno cwnsela mewnol am ddim o fewn pythefnos o'r cyswllt cychwynnol
- Darparu cymorth cyntaf Iechyd Meddwl a hyfforddiant connect 5 mewnol
- Cynnal digwyddiadau llesiant cymdeithasol ochr yn ochr ag anrhegion bach a gweithredoedd o garedigrwydd drwy gydol y flwyddyn.
- Rhoi cefnogaeth i bobl sy'n gadael Pobl gyda hyfforddiant cyfweliadau i bontio'n dda i rôl arall

Adborth o sesiynau:

"Fe wnaeth cyrchu'r hyfforddwr mewnol fy helpu i wneud synnwyr o fy nheimladau a rhoi amrywiaeth o offer i mi fy helpu i ymdopi a bod yn arweinydd da i'r rhai rwy'n rheolwr llinell iddynt. Rwy'n ddiolchgar am byth."

"Dwi wir ddim yn gwybod lle fyddwn i heb y gefnogaeth. Ro'n i mewn lle drwg iawn a wir ddim yn teimlo y gallwn i ddod allan ohono, ond roedd y cwnsler yn anhygoel ac â chymaint o amser i wrando arna i a helpu fi i ddod drwyddo. Diolch yn fawr iawn."

Rydym yn hyrwyddo llesiant corfforol drwy:

- Redeg hyfforddiant cyfwng dwysedd uchel ac ioga ar-lein am ddim
- Cynnal tair sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar rithwir bob wythnos
- Darparu gweminarau a blogiau yn rheolaidd ar faeth ac iechyd corfforol
- Hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol gyda chystadlaethau a heriau
- Cael polisi gweithio hyblyg i ddarparu hyblygrwydd yn y gweithle i gydweithwyr ddylunio eu diwrnod.
- Gweithredu cyfnod dim cyfarfodydd rhwng 12.30 a 1.30 pob dydd.

Yn ariannol mae gennym gynllun disgownt dewisiadau Pobl ac mae ein cynllun benthyciadau Pobl yn cynnig benthyciadau bach ar log isel. Rydym yn parhau i gefnogi lles ariannol drwy:

- Ddarparu cyngor ariannol am ddim i gydweithwyr
- Darparu gweminarau a sesiwn holi ac ateb byw gydag arbenigwyr ar bynciau fel tlodi tanwydd
- Darparu'r adnoddau a'r sefydliadau diweddaraf yn y cyfeiriadur llesiant
- Hyrwyddo'r cynllun cerdyn Golau Glas.
- Cynnig £250 i bawb sy'n gweithio gartref i brynu offer swyddfa

Mae'r tîm lles yn parhau i gyfarfod bob mis gyda phobl allweddol ar draws y busnes, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i sicrhau bod yr anghenion llesiant yn cael eu diwallu gan y cydweithwyr hynny sy'n destun proses Adnoddau Dynol. Yn ogystal â hyn, cedwir y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau cyfredol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys siarad â'ch plant am COVID; y rhyfel yn Wcráin ac effaith y newyddion ar eich iechyd meddwl.

Bu sawl ymgyrch i ffocysu'r diwylliant cadarnhaol gan gynnwys cystadleuaeth ffotograffiaeth natur yn ogystal â gweminarau agored a sesiynau holi ac ateb gydag arbenigwyr. Mae'r tîm lles hefyd wedi cydgrynhoi gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r argyfwng costau byw presennol drwy ddarparu awgrymiadau a chynghorion ymarferol i arbed arian neu chwilio am adnoddau sydd ar gael i'r rhai mewn angen.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r Tîm Llesiant wedi darparu gwasanaeth modern i'r holl gydweithwyr fel adnodd i'r busnes ehangach. Mae rheolwyr tîm a thimau Adnoddau Dynol wedi ymgorffori arferion lles yn eu prosesau, sydd wedi gweld salwch gysylltiedig ag iechyd meddwl yn parhau'n isel.

Nid yn unig mae'r gwasanaethau yn cael eu croesawu, ond mae'r tîm hefyd wedi parhau i fod mor rhagweithiol â phosib fel gydag effaith y cynnydd mewn costau byw ac ynni. Rydym wedi creu cyfres o weminarau gydag arbenigwyr llesiant ariannol mewn fideos byr y gall pob cydweithiwr gael mynediad iddynt. Mae'r Tîm Llesiant yn cyflwyno i'r grŵp ehangach gan ddefnyddio gweminarau, blogiau ac ymgyrchoedd. Yn yr un diweddaraf, gwelwyd cydweithwyr yn rhannu eu profiadau o'u teithiau Iechyd Meddwl eu hunain, a fu'n annog amgylchedd agored a gonest i gydweithwyr eraill efallai yr oeddent yn amharod i drafod materion sy'n effeithio arnyn nhw.

Nod y tîm yw diwallu anghenion unigol pobl a'u cefnogi gydag unrhyw beth allai fod yn effeithio ar eu llesiant. Yn y pen draw, byddwn yn parhau i wrando ar ein cydweithwyr gan ddefnyddio arolygon pwls Llais Cydweithiwr sydd eisoes wedi cael effaith sylweddol ar ein hymgysylltiad â chydweithwyr a'n lles.



# RHAGORIAETH ARLOESEDD TAI

Mae'r wobr hon wedi'i anelu at raglenni neu brosiectau a all ddangos sut maent wedi datblygu dull arloesol gan wneud gwir wahaniaeth ym mywydau tenantiaid a chwsmeriaid. Gallai hyn fod yn unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu dechnoleg newydd; mewn unrhyw faes, e.e. datgarboneiddio, dangos bod arloesedd yn allweddol.

## Building state of the art energy efficient homes

**Creu Menter**



**Datganiad o gefnogaeth**

Dechreuodd Creu Menter, is-gwmni Cartrefi Conwy, fasnachu yn 2015 ac mae wedi tyfu'n gyflym i fod y Contractwr Cymdeithasol o Ddewis ar gyfer Gogledd Cymru. Mae Creu Menter, a anwyd o'r angen i Gartrefi Conwy greu ffrydiau incwm masnachol newydd i gefnogi ei raglen ddatblygu, ac ar yr un pryd cynnig cyfleoedd cyflogaeth i denantiaid di-waith, wedi tyfu'n gyflym a mynd yn Fenter Gymdeithasol â throsiant gwerth £11.8 miliwn y llynedd yn unig a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Wrth ymateb i'r galw cynyddol am adeiladu cartrefi ynni effeithlon o ansawdd da ar garlam, rydym bellach wedi sefydlu ein safle gweithgynhyrchu cartrefi pren oddi ar y safle ein hunain yn Y Rhyl, Gogledd Cymru. Mae ein ffatri, Creating Enterprise Modular Solutions (CEMS), yn cynhyrchu cartrefi ynni effeithlon o'r radd flaenaf o safon 'passivhaus' ar gyfer amrywiaeth o gleientiaid ar draws Gogledd Cymru. Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Harddwch dulliau adeiladu modern oddi ar y safle yw bod y gwaith yn dibynnu ar gymhwyso sgiliau isel yn fanwl, ac felly mae'r rhwystrau i fynediad yn is nag ar gyfer gwaith adeiladu traddodiadol. Mae gweithgynhyrchu oddi ar y safle felly'n cyflwyno mwy o gyfleoedd gwaith i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi. Mae symlrwydd y system yn caniatáu cynhyrchu a chodi'n gyflym a di-risg sydd:

- Wedi'i gweithgynhyrchu'n lleol mewn unrhyw leoliad gan ddefnyddio deunyddiau sydd ar gael yn rhwydd, gan leihau ein hôl troed carbon ymhellach
- Yn isafu gwastraffu deunyddiau ar y safle gan fod y dyluniadau'n caniatáu i bob deunydd gael ei fesur o fewn 1mm

Ac mae'r gair yn mynd ar led bod hyn yn ateb gwych i'r argyfwng tai. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cynhyrchu cartrefi ar gyfer amrywiaeth o ddarparwyr tai cymdeithasol gan gynnwys Cyngor Ynys Môn, Cyngor Sir Ddinbych a Chlwyd Alyn, yn ogystal ag adeiladu amrywiaeth o gartrefi ar gyfer ein rhiant-sefydliad, Cartrefi Conwy.

Ar anterth y pandemig Covid-19 gwelsom gynnydd mawr yn nifer y bobl fu'n wynebu digartrefedd, yn enwedig pobl sengl. Wrth ymateb i hyn fe wnaethom adeiladu wyth uned fodwlar daliadaeth sengl ar safle hen garej segur ym Mae Colwyn. Mae'r unedau 'haus for one' tra chyfoes hyn yn darparu cartref cyfforddus, hunangynhwysol ac ynni effeithlon i denantiaid sy'n opsiwn llety dros dro llawer mwy cynaliadwy. Gallwch weld taith o amgylch y cartrefi hyn yma: https://vimeo.com/455722900

Yn fwy diweddar rydym wedi cwblhau pedwar byngalo un ystafell wely ar ran cyngor Ynys Môn. Mae pedwar tenant hŷn bellach yn mwynhau manteision hyd at 80% o arbedion ar eu biliau ynni ac ystod o fuddion iechyd a lles eraill.

Mae'r system Awyru Mecanyddol ac Adfer Gwres (MVHR) yn creu llif aer parhaus, cyson ar dymheredd

ystafell, gan sicrhau ansawdd aer uchel dan do. Mae'r hidlyddion yn dileu llygryddion yn yr awyr, gan isafu alergeddau trigolion. Crynhodd un o'r trigolion sut brofiad yw byw mewn un o'n cartrefi "yn fy hen fflat byddwn i'n gorfod gwisgo llawer o haenau ar ôl 4pm, hyd yn oed ym misoedd yr haf, ond rwyf wrth fy modd â'r tymheredd cyson yn fy nghartref newydd".

Rydym hefyd bron wedi cwblhau 19 o gartrefi teuluol modwlar yng nghefn gwlad Conwy. Yn anffodus, roedd ystâd Glanrafon yn Llanrwst wedi datblygu enw gwael ac nid oedd llawer o'r cartrefi (a adeiladwyd yn y 1960au) yn addas i'r diben mwyach. Yn 2020 penderfynwyd cychwyn ar raglen adfywio ar raddfa fawr a oedd yn cynnwys adnewyddu rhai adeiladau yn llwyr a dymchwel bloc mawr o maisonettes. Mae'r rhain bellach wedi cael eu disodli gan gartrefi teuluol tra chyfoes a adeiladwyd at y safon passivhaus. Rydym hefyd yn creu amrywiaeth o fannau awyr agored newydd i deuluoedd eu mwynhau am flynyddoedd lawer.

Edrychwn ymlaen at groesawu ein tenantiaid newydd i'r cartrefi newydd o'r enw Rhodfa Phil Evans (er cof am ein gofalwr poblogaidd a fu'n gofalu am yr ystâd am flynyddoedd lawer) yn nes ymlaen yn 2022.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Ers i ni ddechrau masnachu yn 2019 rydym wedi adeiladu 49 o gartrefi ynni effeithlon, y mae 30 ohonynt wedi'u hadeiladu ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys wyth uned hunangynhwysol 'haus for one' i bobl sy'n wynebu digartrefedd, 4 byngalo wedi'u haddasu ac amrywiaeth o gartrefi teuluol.

Mae ffatri CEMS hefyd wedi arallgyfeirio ei phortffolio i gynnwys gweithgynhyrchu 'posi-joists' pren a ffensys ar gyfer amrywiaeth o gleientiaid ar draws ardal gogledd Cymru.

Mae darparu sgiliau a chyfleoedd hyfforddiant i'n tenantiaid a'r gymuned ehangach wrth wraidd popeth a wnawn yn Creu Menter. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r ffatri wedi cyflogi chwech o denantiaid Cartrefi Conwy trwy ein Hacademi Gyflogaeth, gan roi iddynt brofiad 'ar y swydd', cymwysterau a chymorth un i un.

Wrth i ni adeiladu mwy o gartrefi, ein bwriad yw creu llawer mwy o gyfleoedd gwaith dros y blynyddoedd i ddod.

Dyma oedd gan un ddynes i'w ddweud ar ôl symud i'w byngalo passivhaus newydd ym Môn:

Dwi ar ben fy nigon gyda fy nghartref newydd! Mae'r gwaith adeiladu a gorffen yn wych. Pan gaeais fy nrws ffrynt dwi'n teimlo mor ddiogel - mae mor dawel! Mae'r tŷ wastad ar dymheredd delfrydol i mi, hyd yn oed ar y dyddiau poeth iawn y cawson ni wythnos ddiwethaf ac yn y tywydd oerach. Mae'r dechnoleg yn y cartref hwn yn anhygoel - alla i ddim dod dros ba mor glyfar yw'r system awyr iach a niwlio. Mae'r cyfan yn anhygoel ac rwyf am ganu ei glodydd o'r toeon.

# Cyflwyno cartrefi carbon isel cyfforddus gan ddefnyddio systemau ynni tŷ cyfan

**Sefydliad arweiniol: Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru**

**Sefydliad partner: Tai Wales and West**



### Datganiad o gefnogaeth

Mae 10 o gartrefi ar draws De Cymru wedi cael eu hôl-osod â systemau ynni tŷ cyfan arloesol fel rhan o gydweithrediad rhwng tîm yr Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE) yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd a Thai Wales and West, gyda chefnogaeth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Mae gan y cartrefi arwynebeddau llawr rhwng 67 m2 a 100 m2 ac amrywiaeth o systemau gwresogi.

Mabwysiadwyd ymagwedd seiliedig ar system tŷ cyfan sy'n cyfuno galw gostyngol am ynni, cyflenwi a storio ynni adnewyddadwy. Mae mesurau gostwng y galw am ynni'n cynnwys insiwleiddio ffabrig yr adeilad, goleuadau ynni isel ac Awyru Mecanyddol gydag Adfer Gwres (MVHR) neu awyru mewnlif positif (PIV). Mae paneli solar ffotofoltäig (PV) wedi'u gosod ym mhob cartref i gyflenwi ynni adnewyddadwy ac mae casglwr solar trosglwyddo gwres wedi'i osod mewn un cartref i gwrdd â rhan o'r galw am wresogi gofod. Mae batri lithiwm-ïon wedi'i osod ym mhob cartref i storio ynni, gan alluogi i drydan dros ben o'r paneli solar PV gael ei ddefnyddio pan fydd y galw am ynni'n cyrraedd ei frig ac nad yw ynni'r haul ar gael gyda'r nos. Gwnaed gwaith uwchraddio systemau trydanol er mwyn integreiddio'r technolegau fel system ynni tŷ cyfan.

Gwnaed modelu thermol ac ynni (HTB2) ar gyfer pob cartref, a galluogodd y canlyniadau i randdeiliaid wneud penderfyniadau a rennir am y technolegau mwyaf priodol ar gyfer pob cartref. Defnyddiwyd yr

ategyn VirVil ar gyfer SketchUp i fodelu pelydriad solar a phennu maint y paneli solar ar gyfer yr arwynebeddau to sydd ar gael.

Chwaraeodd monitro rôl allweddol hefyd wrth wneud penderfyniadau, gydag ymgyrch fonitro gynhwysfawr yn digwydd cyn ac ar ôl y gwaith ôl-osod. Gwnaeth monitro cyn ôl-osod helpu tîm y prosiect i ddeall sut y defnyddiwyd y cartrefi, diagnosio materion perfformiad presennol a graddnodi modelu. Gan ganolbwyntio ar ffabrig, mesurodd tîm LCBE aerglosrwydd gan ddefnyddio profion chwythu ar ddrysau, gwerthoedd U waliau a defnyddio camera thermol i nodi ardaloedd colli gwres lle y gallai fod angen triniaeth. Yn dilyn y gwaith ôl-osod, mae data monitro'n darparu tystiolaeth ar arbedion ynni gwirioneddol, perfformiad y mesurau unigol ynghyd â'r system yn ei chyfanrwydd. Gellir ei ddefnyddio hefyd i asesu ansawdd y comisiynu.

Yr hyn sy'n drawiadol am y cydweithio yw bod y tîm wedi dangos yn llwyddiannus y gellir cymhwyso'r ymagwedd system ynni gyfan at ystod amrywiol o gartrefi nodweddiadol yng Nghymru, gan gynnwys adeiladu waliau solet sy'n anodd eu trin a chartrefi waliau ceudod modern sydd ag ystod eang o ran nifer ac ymddygiad y deiliaid. Mewn sawl ffordd mae'r system ynni tŷ gyfan yn hyblyg iawn, gan ganiatáu defnyddio atebion gwahanol yn ôl y cyd-destun. Er enghraifft, mae gan brosiectau systemau gwresogi gwahanol, gan osod casglwyr solar trosglwyddo gwres a phympiau gwres ffynhonnell aer neu weithio gyda systemau gwresogi tanwydd ffosil traddodiadol presennol – gan ddarparu arbedion ar filiau ynni ac arbedion carbon i drigolion ym mhob achos.

Yr her oedd nid yn unig dewis y technolegau unigol mwyaf priodol ond hefyd cynnwys yr holl randdeiliaid angenrheidiol ym mhob cam gwahanol i sicrhau bod y technolegau'n gweithio fel system. Mae cyflwyno'r systemau hyn yn effeithiol yn dibynnu ar wneud penderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda chyfathrebu a chydweithio rheolaidd a chlir ar draws tîm y prosiect, wedi'u cefnogi gan fodelu a monitro. Roedd ymgysylltu â'r tîm ehangach (o'r prif gontractwr i'r gadwyn gyflenwi i drigolion unigol) o gynllunio trwodd at ddylunio, gosod a gweithredu yn galluogi i lai o wallau ddigwydd, gan leihau costau a chynyddu effeithlonrwydd felly.

Gyda 29 miliwn o gartrefi sydd angen cael eu hôl-osod yn y DU, mae datblygu timau prosiect cryfion a all ddelio â graddfa a chwmpas ôl-osod yn hanfodol. Am y rheswm hwn, mae tîm LCBE yn parhau i weithio gyda Tai Wales & West, i hyrwyddo a gweithredu systemau ynni tŷ cyfan.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae ymgyrch fonitro gynhwysfawr yn darparu tystiolaeth o berfformiad pob system ynni tŷ cyfan. Amlygodd Kate Solomon, Rheolwr Contractau Technegol Tai Wales and West, fod "monitro cyn ac ar ôl ôl-osod wedi helpu i gyfeirio ein strategaethau buddsoddi hirdymor."

O'i gymharu â chartref nodweddiadol yng Nghymru (fframwaith data Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol), mae'r ôl-osod yn mewngludo hyd at 55% yn llai o ynni o'r Grid Cenedlaethol ac yn cyflawni sgorau SAP mor uchel â 93 (A). Arbedodd trigolion hyd at 65% ar eu biliau ynni gan osgoi bron i 1.6 tunnell fetrig o allyriadau carbon. Gall trigolion wrthbwyso eu biliau ynni trwy werthu trydan yn ôl i'r grid.

Nid yw'n ddigon i sicrhau effeithlonrwydd ynni fodd bynnag: llwyddodd y fenter ar y cyd i ddarparu cartrefi cyfforddus o safon uchel i drigolion. Mae monitro tymheredd aer dan do yn profi bod y cartrefi'n cyflawni eu setbwyntiau gwresogi dymunol yn gyson a dengys adborth mewn arolygon ôl-osod fod trigolion yn fodlon iawn ar eu hamodau tai gwell.

Mae cadwyni cyflenwi lleol wedi bod yn rhan o'r holl brosiectau ac mae arferion ôl-osod wedi datblygu'n sylweddol o fewn Tai Wales and West. Mae'r fenter ar y cyd yn parhau i rannu gwybodaeth â'r sector ehangach drwy Arddangosiad cydweithredol o dŷ wedi'i ôl-osod â systemau ynni cyfan sy'n cael ei lansio ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn Hydref 2022.

# Getfit.Wales

**Cymdeithas Tai Newydd**




**Datganiad o gefnogaeth**

Gall diffyg gweithgarwch corfforol arwain at glefyd y galon, gordewdra, pwysedd gwaed uchel, colesterol gwaed uchel, a diabetes math 2. Er hynny, mae lefelau gweithgarwch corfforol ar draws y byd yn wael ac wedi bod yn gostwng dros y degawdau. Yn ôl adroddiad gan Dr Tedros, Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd a ryddhawyd i nodi Diwrnod Gordewdra'r Byd 2022, mae tua 1 biliwn o bobl yn ordew ar draws y byd, ac amcangyfrifir y bydd tua 167 miliwn o bobl eraill yn mynd yn llai iach erbyn 2025.

Yn anffodus, nid yw hyn yn wahanol yng Nghymru. Mae gan Gymru boblogaeth o tua 3 miliwn o bobl, y mae 664,000 ohonynt yn blant a phobl ifanc dan 18 oed. Cyflawnodd Prifysgol Abertawe waith ymchwil fu'n edrych ar ddata gweithgarwch corfforol o 60 o wledydd a welodd fod plant yng Nghymru ymhlith y rhai lleiaf ffit yn y byd, gan nodi mai dim ond 13-17% o blant rhwng 11 a 16 oed sy'n bodloni'r canllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgarwch corfforol, sef o leiaf 60 munud o weithgarwch corfforol bob dydd.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r ystadegau pryderus hyn, sefydlodd staff Newydd gynllun peilot arloesol Getfit.Wales i brofi a fyddai defnyddio tracwyr camau i ddarparu tystiolaeth o allbwn corfforol ymhlith pobl ifanc 13-16 oed sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, yn cynyddu gweithgarwch corfforol pe bai'n cael ei gyflwyno gyda chymhellion i werthwyr iach lleol, canolfannau hamdden, campfeydd lleol, opsiynau bwyd iach am ddim yn ffreutur yr ysgol, a thalebau siopau iechyd fel gwobrau am gyrraedd eu targedau personol.

Mae darparu mynediad at werthwyr iach lleol drwy ein cynllun gwobrwyo wedi codi proffil sefydliadau lleol, helpu i ysgogi'r economi ranbarthol a chreu a chadw swyddi gwerthfawr, cefnogi teuluoedd a chryfhau cymunedau lleol.

Yn dilyn canlyniadau cadarnhaol gyda'r cyfranogwyr ar y peilot, dros y cyfnod clo, enillodd y prosiect gefnogaeth gan Fyrddau Iechyd Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro; Hyb Ymchwil, Arloesi a Gwella Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; a Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru i helpu i adeiladu ar y llwyddiant hwn ac ehangu ystod oedran y cyfranogwyr a gyfeirir at y rhaglen.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-2020 yn amlygu'r angen am ymyriadau gweithgarwch corfforol, megis Getfit.Wales i gefnogi'r boblogaeth ehangach i helpu taclo iechyd y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol. Yn ôl canlyniadau'r arolwg dim ond 53% o oedolion oedd wedi bod yn weithgar am o leiaf 150 munud yn yr wythnos flaenorol. Roedd cyfraddau gweithgarwch corfforol yn is ymhlith menywod, oedolion hŷn, ac mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Roedd 33% o oedolion yn anactif (yn weithgar am lai na 30 munud yn yr wythnos flaenorol).

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi bod yn symbylydd allweddol wrth nodi a chyfeirio cyfranogwyr â lefelau gweithgarwch corfforol isel o bob rhan o Gwm Taf Morgannwg drwy eu rhaglen Gwasanaeth Gwella Lles (WISE).

Daeth cymorth a chyfeiriadau pellach gan Gymdeithas Tai Newydd drwy eu perthynas gref a'u cysylltiad uniongyrchol â thenantiaid sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog ac/neu sydd â chyflyrau iechyd hirdymor. Dywed Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 fod 42% o bobl yn Rhondda Cynon Taf, lle mae Newydd yn ddarparwr tai allweddol, yn byw o fewn 'poethfannau' amddifadedd iechyd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 19.3%. Ar ben hynny, mae cofnodion cydraddoldeb ac amrywiaeth Newydd yn dangos bod o leiaf 16% o'n tenantiaid wedi dweud eu bod yn byw gyda chyflwr iechyd hirdymor.

Gyda'n gilydd, drwy Getfit.Wales a gyda chefnogaeth gan y bartneriaeth, rydym wedi rhoi mynediad rhad ac am ddim ar gyfer cyfranogwyr i gyfleoedd i wella'u hiechyd corfforol a meddyliol; hybu lles yn gyffredinol; a chefnogi lleihad mewn clefydau gysylltiedig â ffordd o fyw sy'n cael eu gwaethygu gan amddifadedd, anghydraddoldeb iechyd, ac unigedd cymdeithasol.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflawnodd Getfit. Wales y canlyniadau isod:

- Mae dros 100 o gyfranogwyr wedi cofrestru a chymryd rhan yn Getfit.Wales
- Cyrchwyd dros 50 o dalebau gwobr iach lleol
- Dywedodd 100% o'r cyfranogwyr fod y prosiect wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o ddarpariaeth iechyd yn lleol

Tystebau cyfranogwyr:

Ers i mi ddechrau'r prosiect yma, doeddwn i'n bersonol ddim yn meddwl y byddwn i'n gwneud mor dda, ond erbyn hyn cwpl o fisoedd wedyn, dwi'n cyrraedd fy holl dargedau ac yn 2 stôn yn ysgafnach…

…Rydw i wedi defnyddio'r gwobrau yn y cigydd lleol sydd wedi bod yn wych gyda mi.

Cyn ymuno ro'n i'n arfer treulio fy holl amser ar y soffa. Mae'r prosiect wedi fy helpu i fynd allan, mae fy ngŵr a fy mab hefyd yn dod gyda fi nawr, sydd wedi bod yn wych i ni i gyd.

Tystebau partneriaid:

Mae Getfit.Wales wedi annog ein hatgyfeiriadau i fynd allan, bod yn egnïol a datblygu arferion cadarnhaol am oes. Christie Williams (Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid, RhCT)

Mae Getfit.Wales wedi parhau i fod yn gymorth wych wrth ein helpu i ysgogi disgyblion i gynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol a chael mynediad i wobrau lleol, maent yn bartner gwych ar ein cenhadaeth gweithgarwch corfforol! Sarah Evans (Athrawes Addysg Gorfforol, Ysgol Uwchradd St Johns yr Eglwys yng Nghymru).

# Canolfan Ynni Cynaliadwy - Prosiect Cydweithio a Sgiliau

**Robert Price Builders Merchants Ltd**



**Datganiad o gefnogaeth**

Robert Price – Canolfan Ynni Cynaliadwy - Prosiect Cydweithio a Sgiliau

Cyflwyniad am y wobr "Rhagoriaeth arloesedd tai" gan dîm Ynni Canolfan Ynni Cynaliadwy Robert Price.

Beth yw arloesedd?

Gellir diffinio arloesedd fel datblygu syniadau arloesol sy'n arwain at greu proses neu wasanaeth newydd. Nid dyfeisio syniad newydd yn unig sy'n bwysig; mewn gwirionedd mae'n ymwneud â chreu ymwybyddiaeth, ei rhoi ar waith, a'i defnyddio mewn ffordd sy'n arwain at wasanaethau neu systemau newydd sy'n ychwanegu gwerth neu'n gwella ansawdd. Mae arloesedd hefyd yn golygu ehangu technoleg fodern a meddwl yn flaengar er mwyn cynhyrchu gwerth newydd a chreu newidiadau arwyddocaol mewn cymdeithas.

Pam cafodd y Ganolfan Ynni Cynaliadwy ei chreu?

Mae newidiadau deddfwriaethol a'r angen cynyddol am newidiadau amgylcheddol wedi rhoi cynnyrch cynaladwyedd yn gadarn ar flaen agenda tai Cymru. Gyda thargedau yn eu lle i sector cyhoeddus Cymru gyrraedd carbon sero-net erbyn 2030, crëwyd y Ganolfan er mwyn helpu darparwyr tai i oresgyn y problemau a'r rhwystrau a oedd yn llesteirio cynnydd.

Cynhaliodd tîm Ynni'r Ganolfan Ddiwrnod Agored ar yr 8fed o Fehefin. Roedd cant a hanner o bobl yn bresennol gan gynnwys gweithwyr Tai proffesiynol, cyflenwyr technolegau arloesol, Llywodraeth Cymru, gydag wyth cyflwyniad technoleg arloesol trwy gydol y dydd.

Er bod technolegau ac atebion arloesol ar gael, roedd y farchnad yn dangos diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y gallent eu defnyddio a mynd ar y daith i sero-net erbyn 2030. Dyluniwyd y Ganolfan i wneud yr atebion arloesol hyn yn hygyrch i'r farchnad tai o adnewyddiadau ôl-osod i brosiectau adeiladu newydd.

Roedd y diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn amlygu ail rwystr: y prinder sgiliau carbon sero-net. Bydd angen hyfforddi neu ailhyfforddi hanner y gweithlu adeiladu presennol ar ryw ffurf neu'i gilydd, yn ôl Adroddiad Sgiliau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladwaith ar gyfer Sero Net a gyda'r ymdrech i gael sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030, mae hyn wedi mynd yn fater cynyddol bwysig. Crëwyd y Ganolfan i gynnig atebion a hyfforddiant, gan fynd i'r afael â'r materion hyn trwy gynnig hyfforddiant gosod achrededig mewnol ar gyfer y cynhyrchion a gyflenwir.

Beth mae'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy yn ei wneud?

Mae'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy yn ymagwedd arloesol ac unigryw at roi hwrdd i adeiladu cynaliadwy. Mae'r Ganolfan wedi gwneud gwir wahaniaeth ym

mywydau tenantiaid a chwsmeriaid, gan helpu'r diwydiant tai ar ei daith i sero-net drwy ei addysgu ar atebion datgarboneiddio.

Mae'r Ganolfan yn cynnwys ystafell arddangos benodedig ac academi hyfforddi achrededig, a grëwyd i hysbysu cwsmeriaid ar ystod eang o gynhyrchion cynaladwyedd a thechnolegau adnewyddadwy yn y sector adeiladu. Fe'i dyluniwyd ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, contractwyr, a thenantiaid fel ei gilydd wrth i'r tîm ddeall sut mae addysg trwy gydol y gadwyn gyflenwi yn bwysig i gyrraedd sero-net. Mae'r tîm Ynni wedi meithrin amgylchedd lle gall cleientiaid weithio ar y cyd a rhannu llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd, gan alluogi'r diwydiant i gamu ymlaen yn hyderus tuag at adeiladu dyfodol carbon niwtral.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Cyflawniadau'r SEC

- Ymgysylltu â darparwr hyfforddiant trydydd parti, gan ddarparu dros 6000 awr o hyfforddiant sgiliau gwyrdd yn yr academi hyfforddi bwrpasol hyd yma.
- Cydweithio â TPAS Cymru i gynnal Clwb Ymgysylltu Sero Net, a fydd yn cynnwys "taith o amgylch canolfan dechnoleg Sero Net, ac yna trafodaeth bord gron gyda staff tai cymdeithasol o'r un feddylfryd sydd â diddordeb mewn sero-net. Mae hyn yn berffaith ar gyfer y rhai sydd am weld a dysgu mwy am dechnoleg sero-net a'i rôl yn amcanion newydd WHQS2."
- Ymgysylltu ag ysgolion lleol a chynnal diwrnodau ymwybyddiaeth sero-net. Cyflwynodd y tîm Ynni hefyd i Wythnos Gyrfaoedd y Sector Gwyrdd.
- Mae'r Ganolfan wedi denu ymweliadau gan bobl fel y Ganolfan Adeiladu Gweithredol, Trustmark, a rhaglen sgiliau Ôl-osod wedi'i Optimeiddio, gyda'r nod o gydweithio i helpu'r diwydiant i gyflawni sero-net ym maes tai erbyn 2030.
- Mae'r tîm Ynni'n estyn allan yn weithredol i dai cymdeithasol, gan gynnig popeth o sioeau teithiol i 'wythnosau arloesi' mewnol.
- Mae'r Ganolfan yn rhedeg 'boreau arloesi' wedi'u teilwra, sydd wedi'u dylunio i addysgu'r rhai sy'n eu mynychu ar dechnolegau gwyrdd newydd a sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd. Mae'r tîm Ynni wedi estyn allan ac ymgysylltu â thros 30 o landlordiaid cymdeithasol a, hyd yma, darparu dros 1500 awr o hyfforddiant ymwybyddiaeth addysg am gynhyrchion.



# RHAGORIAETH WRTH EIRIOLI CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae'r wobr hon yn cydnabod sefydliadau sy'n arwain wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu busnes. Mae'n dathlu sefydliadau sy'n gyrru newid cadarnhaol a phwrpasol a chyfrannu at adeiladu cymuned wirioneddol gynhwysol.

## Arwain y Ffordd - Ymateb y Sector i Ymdrin ag Annhegwch Hiliol ar Lefel y Bwrdd a Swyddogion

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd**

**Sefydliadau partner: Tai Taf, Cadwyn, United Welsh, Linc Cymru, Hafod, Wales and West**

**Datganiad o gefnogaeth**



Mae partneriaeth o 7 Cymdeithas Tai yn gweithio mewn cydweithrediad ymroddedig i oresgyn rhwystrau i degwch hiliol drwy adeiladu diwylliannau gwaith cryfion, amrywiol a chynhwysol, gan sicrhau bod gweithluoedd yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yn 2021/22 lansiwyd dau brosiect, Get into Housing and Pathway to Board, gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth ethnig ar lefel y bwrdd a swyddogion lefel 'mynediad'. Mae'r prosiectau hyn wrth wraidd y camau rydym yn eu cymryd i ddarparu newid pwrpasol a chadarnhaol ar gyfer cynwysoldeb gwirioneddol ac wedi paratoi'r ffordd ar gyfer ymrwymiad strategol hirdymor yn y maes hwn.

Mae Get in to Housing wedi darparu 40 o leoliadau lefel mynediad â thâl ar draws y 7 cymdeithas tai ar gyfer aelodau cymunedol o gefndir ethnig amrywiol dros 25 oed sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Roedd amrywiaeth o rolau ar gael i sicrhau y darparwyd ar gyfer amrywiaeth o sgiliau, profiad a dyheadau yn y dyfodol. Mae'r lleoliadau yn 21 awr yr wythnos am 16 wythnos. Er mwyn paru'r rolau'n effeithiol â gweithwyr, cafodd y broses recriwtio ei herio a'i haddasu er mwyn lleihau'r rhwystrau lluosog y mae pobl yn eu hwynebu wrth sicrhau cyflogaeth. Cyflwynodd Met Caerdydd gymhwyster tai lefel 2 NVQ fel rhan o'r rhaglen.

Darparodd swyddogion gefnogaeth bwrpasol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy fentora. Roedd cronfa rwystrau'n cynorthwyo llwyddiant unigol ym mhob cam o gyflogaeth gan gynnwys cyn-gyflogaeth. Ni chyfyngwyd y gefnogaeth i ddeilliannau cyflogadwyedd, mae llawer o gyfranogwyr yn wynebu rhwystrau o ganlyniad i dlodi.

“Dwi'n hynod o ddiolchgar am y prosiect get into housing heb y prosiect get into housing fyddwn i byth wedi cael swydd dwi'n mwynhau ei gwneud a'r cyfleoedd a ddaeth fel rhan ohoni. Dwi wedi dysgu sgiliau gwerthfawr newydd am oes”

Anwar, Get into Housing

Crëwyd Pathway to Board i ymdrin â diffyg

amrywiaeth ethnig gwahanol ar Fyrddau ar draws Cymru. Fe ddeilliodd o nifer o ymarferion recriwtio yr ymgymerwyd â nhw gan Gymdeithasau Tai yng Nghymru lle cymerwyd camau cadarnhaol i ddenu ymgeiswyr ethnig amrywiol. Amlygodd hyn fod yna lu o bobl anhygoel sydd eisiau bod yn Aelodau Bwrdd ond, roedd prosesau recriwtio yn cyflwyno rhwystrau ac, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn aneglur beth yw rôl a chyfrifoldebau Aelod o Fwrdd. Sefydlwyd Pathway to Board i daclo'r ddau fater hyn.

Nid newid proffil Byrddau cymdeithasau tai mo nod y rhaglen, ond newid tirwedd arweinyddiaeth o ran amrywiaeth ethnig mewn Byrddau sectorau statudol, trydydd sector a sector preifat ar draws Cymru.

Bu llwyddiant y rhaglen o ganlyniad i raglen hyfforddiant gadarn ac amrywiol a gyflwynwyd gan sefydliadau sy'n cefnogi'r sector cymdeithasau tai e.e Centrus, Mazars, Blake Morgan, Hugh James, Acorn Executive, Academi Cymru. Mae'r rhaglen wedi denu llu o unigolion dawnus sydd wedi cyflawni rhaglen astudio amrywiol â ffocws ar rôl Aelod Bwrdd; archwilio allanol a mewnol; tystebau aelodau Bwrdd a Phrif Weithredwyr presennol o lygad y ffynnon; rheoli trysorlys, adeiladu timau a magu hyder, sgiliau llywodraethu a chyfweld da. Trwy gydol y rhaglen mae cyfranogwyr wedi cael mentor, unigolyn sydd ar hyn o bryd yn eistedd ar Fwrdd, i'w cefnogi ac i roi cyngor iddynt

Mae 15 o gyfranogwyr wedi cwblhau'r rhaglen fel rhan o'i charfan gyntaf un.

Mae'r rhaglen bellach mewn cyfnod o 'baru â Bwrdd' h.y. paru cyfranogwyr â Byrddau. Dywedodd Anuja a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar gyda Chymdeithas Tai Cynon Taf: 'Rwyf wedi cael y cyfle anhygoel yma i ymuno â bwrdd. Dyma garreg filltir yn fy ngyrfa, ac rwy'n bwriadu ateb yr her trwy wasanaethu'r gymuned tai. O ystyried y cymorth gan Pathway to Board a'r croeso cynnes gan Cynon Taf, rwy'n gyffrous iawn i fod yn llais sy'n cynrychioli lles ein tenantiaid."

## Canlyniadau a chyflawniadau

Gwir ganlyniad y prosiectau yw'r ailgyfluniad sefydliadol cyfan sy'n digwydd ar draws y saith cymdeithas tai. Mae'r prosiectau wedi bod yn gatalydd ar gyfer adolygu ein hymagweddau traws-sefydliadol at recriwtio a chadw, y ffordd yr ydym yn recriwtio aelodau Bwrdd a beth arall y mae angen i ni feddwl amdano os ydym o ddifri am wneud y sector yn lle y mae pawb yn teimlo y gallant ddod â'u hunain cyfan i'r gwaith neu i Fwrdd ynddo!!

6 mis yn unig i mewn i'r prosiect, mae Get in to housing wedi cyflawni llawer o ganlyniadau, gan gael effaith wirioneddol ar fywydau pobl a chymunedau sydd fwyaf angen llwybr i gyflogaeth. Mae 40 aelod o'r gymuned wedi'u cyflogi ar leoliadau gwaith gydag 11 eisoes wedi symud ymlaen i gyflogaeth, y mwyafrif ohonynt yn parhau yn y sector tai. Bydd y prosiect yn para tan fis Rhagfyr 2022 a gwneir ceisiadau am fuddsoddiad er mwyn parhau i fireinio, tyfu a gwella'r gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni.

Mae Pathway to Board wedi paratoi pymtheg o unigolion ar gyfer bod ar Fwrdd. Ar hyn o bryd rydym mewn cyfnod o 'baru â Bwrdd' lle mae un cyfranogwr eisoes wedi'i recriwtio i Fwrdd, mae dau gyfranogwyr pellach yn cael eu cyfethol i Fwrdd ar hyn o bryd ac mae rhai eraill yn mynd trwy brosesau recriwtio ar hyn o bryd.

# Tŷ Pride

**Sefydliad arweiniol: Cyngor Sir Ddinbych**

**Sefydliadau partner: Viva LGBTQ+, Llamau**



### Datganiad o gefnogaeth

Ar hyn o bryd mae Tŷ Pride yn cyflyno ei drydedd flwyddyn fel prosiect tai â chymorth LHDTC+ aml-asiantaeth cydweithredol arbenigol y mai ei nod yw mynd i'r afael â chynrychiolaeth anghymesur o bobl ifanc LHDTC+ ym mhoblogaeth ddigartref Cymru. Nodwyd yr anghydraddoldeb hwn yn adroddiad 'Out on the Streets 2019' End Youth Homelessness, a fu'n dangos bod 24% o bobl ifanc 16-24 oed sy'n profi digartrefedd yn y DU yn LHDTC+. Hyd yn oed gyda'r orgynrychiolaeth hon yn y boblogaeth, Tŷ Pride yw'r unig lety LHDTC+ â chymorth penodedig yng Nghymru o hyd, ar ôl derbyn 65 o atgyfeiriadau ac ymholiadau ers ei sefydlu. Mae'r prosiect wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Llamau, a Viva LGBTQ+ fel prosiect graddfa fach sy'n gydnaws ag arfer gorau.

Dangosodd yr adroddiad 'Out on the Streets' fod gan wasanaethau ddiffyg dealltwriaeth yn aml o sut mae hunaniaeth LHDTC+ yn ffactor canolog pam bod rhywun yn profi digartrefedd, sydd yn aml yn golygu iddynt deimlo eu bod yn cael eu wrthod neu eu diystyru'n fwy byth. Mae risg uwch o niwed o hyd hefyd os cânt eu rhoi mewn gwasanaethau tai generig gyda defnyddwyr gwasanaeth eraill nad ydynt efallai'n deall y profiadau hynny neu'n fwriadol elyniaethus. Mae gwasanaeth LHDTC+ penodedig yn cydnabod y gall cefnogaeth gan gymheiriaid fod yn ffordd hanfodol o greu teimladau o ddiogelwch, derbyn a gobaith, yn ogystal ag isafu'r tebygolrwydd o wahaniaethu. Bu cynnwys grŵp LHDTC+ lleol yn y bartneriaeth yn ogystal â cheisio mynd ati i recriwtio staff sy'n LHDTC+ eu hunain wedi bod yn allweddol wrth alluogi Tŷ Pride i ddatblygu gweithlu gwybodus ac empathig sydd hefyd yn darparu modelau posibilrwydd i'r bobl ifanc. Gan ei fod o'r gymuned a thros y gymuned, bu'n bosib i Dŷ Pride dargedu rhai o'r anghydraddoldebau sy'n wynebu'r rheini y mae'n eu cefnogi yn benodol, er enghraifft drwy argaeledd seicotherapi gan gwnsler LHDTC+, a darparu cyllidebau personol sy'n caniatáu i bobl ifanc gael mynediad at wasanaethau pontio. Mae cynnig cefnogaeth i ymgysylltu â'u cymuned drwy ymuno â digwyddiadau Balchder yn golygu bod y bobl ifanc wedi cael profiad o ddathlu hunaniaeth a oedd wedi'u hynysu cyn hynny.

Mae'r bartneriaeth hefyd wedi bod yn awyddus i sicrhau bod y prosiect yn fwy na llety unigol. I'r perwyl hwn, agwedd bwysig ar y prosiect yw'r gwaith ataliol yr ymgymerir ag ef gan y bartneriaeth i ostwng y risg y bydd pobl ifanc angen llety â chymorth yn y lle cyntaf drwy ymgysylltu'n gynnar â theuluoedd a phobl ifanc sydd mewn cartrefi bregus. Un ymdrech fawr ar gyfer Tŷ Pride fu ceisio newid y profiadau a'r rhagolygon i bobl ifanc LHDTC+ ar y pwynt y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau. Er enghraifft, cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant fawr ar gyfer darparwyr tai ar draws 6 sir gogledd Cymru er mwyn i weithwyr deimlo'n hyderus ac yn gymwysedig yn eu gwaith o gefnogi ac ymgysylltu â phobl LHDTC+, ond hefyd i annog newidiadau yn fewnol ac i'r system gyda gwell dealltwriaeth o'u hanghenion; e.e cywain demograffeg, neu effaith cael eu gwrthod gan eu teuluoedd oherwydd eu hunaniaeth.

Mae Tŷ Pride hefyd wedi datblygu pecyn symud ymlaen i ddileu rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc wrth chwilio am eu tenantiaeth eu hunain, megis eu cefnogi gyda rhent o flaen llaw ac ychwanegiad rhent. Mae Tŷ Pride hefyd yn parhau i gefnogi pob person ifanc ar ôl symud ymlaen i sicrhau bod eu tenantiaeth yn gynaliadwy yn yr hir dymor trwy, er enghraifft, mwyafu incwm, ymchwilio i waith cyflogedig, a sicrhau bod ganddynt gymorth yn y gymuned. Mae adeiladu ymdeimlad o gymuned a pherthyn yn caniatáu sylfaen sefydlog mewn cartref na fyddent erioed wedi'i gael fel arall. Mae Tŷ Pride yn gwneud ymdrech fawr i greu'r ymdeimlad hwn o gysylltiad o'r cychwyn cyntaf drwy sicrhau eu bod yn rhoi marc nodedig ar y prosiect.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Tŷ Pride wedi cefnogi deg o bobl ifanc yn y llety. Mae pedwar ohonynt yn y llety ar hyn o bryd, symudodd pedwar ymlaen i gynnal eu llety eu hunain, a dychwelodd dau i'w teuluoedd yn dilyn cefnogaeth gyda pherthnasoedd. Derbyniodd pob person ifanc y seicotherapi arbenigol, a hwythau wedi mynychu hyd at tua 70 sesiwn.

Mae Tŷ Pride wedi cefnogi pedwar person ifanc i gyrchu'r Clinigau Hunaniaeth Rhywedd drwy eiriolaeth, darparu gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio, a mynd ar drywydd atgyfeiriadau a gollwyd. Mae cyllidebau personol wedi caniatáu i bobl ifanc ariannu agweddau o bontio megis: tynnu gwallt â laser, wigiau, dillad, a cholur tra mewn amgylchedd sefydlog a chefnogol. Mae pum person ifanc wedi medru newid eu henwau'n gyfreithiol o ganlyniad i wybodaeth a chefnogaeth gan y prosiect.

Dros gyfnod ei ddaliadaeth, mae Tŷ Pride wedi ennill cydnabyddiaeth ac mae sefydliadau wedi cysylltu â nhw am eu harbenigedd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys: cyflwyno ar dai cynhwysol LHDTC+ yng nghynhadledd 2021 FEANSTA, gan gyflwyno yn nigwyddiad Arfer Gorau 2021 Dod â Digartrefedd Ieuenctid i Ben Cymru, siarad ar banel Balchder Oslo 2021, cyfrannu at ymchwil gan End Youth Homelessnes England, a chyfeirio gwaith Tonic o agor tai cymunedol LHDTC+ cyntaf Lloegr i bob oedran o dan arweiniad y gymuned. Nododd Mark Drakeford waith Tŷ Pride yn y Senedd ym mis Mawrth 2022 (https://bit.ly/TP_Senedd).



# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Noddir gan: LOVELL PARTNERSHIPS

Mae'r wobr hon yn dathlu partneriaeth a chydweithio ar draws y sbectrwm tai.

## Cosy Place

**Sefydliad arweiniol: Cartrefi Cymunedol Tai Calon**

**Sefydliad partner: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**



**Datganiad o gefnogaeth**

Roedd Cosy Place yn floc annymunol o fflatiau yng nghanol Tref Brynmawr. Roedd yn 3 bloc o fflatiau ag 1 a 2 ystafell wely a adeiladwyd at y diben ym 1964 ar safle'r 'Cosy Cinema' cynt.

Arweiniodd lefelau trosiant tenantiaid uchel parhaus, tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol at y penderfyniad i gau Cosy Place yn 2017 ac fe syrthiodd i gyflwr ffisegol a gweledol gwael. Fe'i clustnodwyd i gael ei ddymchwel wedyn.

Trwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (BGCBC), sicrhaodd Tai Cymunedol Tai Calon (TCCH) gyllid gan Lywodraeth Cymru i adnewyddu Cosy Place at ddiben creu Cynllun Tai yn Gyntaf. Gyda TCTC yn gweithredu fel landlord a CBSBG yn darparu cymorth wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn.

Dyluniwyd a datblygwyd Cosy Place i ddarparu llety ar gyfer 8 o bobl oedd yn profi digartrefedd, lle y gallent ei alw'n gartref a'r cyfle i ailadeiladu eu bywydau.

Gweithiodd athrawon o 'Pathways' yng Nghaliffornia, o ble y tarddodd y cysyniad Tai yn Gyntaf, gyda ni ar y prosiect.

Gan weithio gydag R&M Williams fel contractwr dylunio ac adeiladu, ailfodelwyd yr adeiladau i weddu i anghenion y prosiect, gan gynnwys tair fflat gwbl hygyrch. Gosodwyd ffynonellau ynni adnewyddadwy micro i helpu i leihau biliau tanwydd ac ôl troed carbon yr adeiladau. Fe wnaethom ddatblygu llawlyfrau defnyddwyr ar gyfer y ffynonellau ynni adnewyddadwy micro a briffio gweithwyr cymorth, er mwyn iddynt helpu cleientiaid i ddefnyddio'r dechnoleg newydd yn effeithiol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phartneriaid fel y gymuned leol, CBSBG a'r Heddlu lleol. Roedd gan y gymuned leol bryderon penodol o ystyried enw gwael blaenorol y fflatiau. Bu i ni weithio gyda thrigolion y gymuned leol, siopau a Chynghorwyr i integreiddio'r prosiect yn gadarnhaol i'r gymuned. Bu i ni weithio gyda Crisis i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwyd i gyfathrebu'r cynllun yn effeithiol ac wedi'i thargedu'n briodol.

Daw'r tenantiaid yn Cosy Place o lawer o gefndiroedd gwahanol. Prif nod y prosiect oedd darparu amgylchedd diogel a chefnogol a fyddai'n annog unigolion digartref i reoli cartref yn effeithiol a chynnal tenantiaeth. Ac ar yr un pryd, ymdrin â'r rhesymau posib pam yr oeddent wedi mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf a thorri'r cylch digartrefedd. Gwneir hyn trwy gynnig cefnogaeth gyson wedi'i theilwra, gan amrywio o gymorth i wneud ceisiadau am fudd-daliadau a swyddi, i gynorthwyo'r unigolion i ddysgu sgiliau byw sylfaenol, i helpu gyda chaethineb.

Mae cyfranogiad y gymuned hefyd yn allweddol i'r cynllun gyda Gweithwyr Cymorth a staff Tai Calon yn cynorthwyo wrth ailgyflwyno unigolion i weithgareddau yr oeddent efallai wedi'u cael yn heriol yn flaenorol. Mae'r gweithwyr cymorth yn

cynnal sesiynau rheolaidd mewn sgiliau byw sylfaenol fel coginio a chymdeithasu mewn amgylchedd cyfforddus. Ynghyd â chyfeirio at asiantaethau eraill i roi cymorth gyda materion fel cam-drin sylweddau neu faterion iechyd meddwl.

Ar hyn o bryd mae pob un o'n tenantiaid gwreiddiol yn byw yn y cynllun, sy'n llwyddiant ysgubol.

Dywedodd Rachel Rees, Pennaeth Tai Tai Calon "Yn syml, mae'r cynllun wedi newid bywydau! Mae wedi rhoi gobaith, dechrau newydd i bobl fod y fersiwn orau ohonyn nhw eu hunain y gallant fod. Yn y pen draw, mae'r dull sy'n canolbwyntio ar ymadfer yn helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd ac yn darparu sefydlogrwydd a chysondeb, rhywbeth nad yw'r bobl hyn erioed wedi'u cael".

Dywedodd Mark Congreave Rheolwr Tîm yn CBSBG "Er mwyn lleddfu digartrefedd, mae'n bwysig ein bod yn datblygu ac yn cynhyrchu modelau llety gwahanol. Mae'r Cynllun Tai yn Gyntaf yn un sy'n ein cynorthwyo i symud yn gynyddol tuag at Ddull Ailgartrefu Cyflym, sy'n rhoi'r cymorth i gleientiaid y mae arnynt ei angen i bontio i ffwrdd o ddigartrefedd. Mae hyn bob amser yn gweithio'n well, wrth weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sydd â'r un nod a rennir".

### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r cynllun wedi rhoi sgiliau bywyd allweddol i gleientiaid fel eu bod yn dysgu sut i gyllidebu, rheoli cartref, coginio ac mae'n ymdrin â pherthnasoedd iach, ymddygiadau a ffordd o fyw. Mae ymdeimlad o gymuned yn Cosy Place fel y mae'r lluniau'n dangos. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ein gwasanaethau statudol, derbyniadau i'r ysbyty a gofal iechyd yn gyffredinol. Mae pob tenantiaeth wedi'i chynnal, sy'n ganlyniad hynod gadarnhaol pan fyddwch yn archwilio'r hyn y mae'r unigolion hyn wedi'i brofi, sut mae amgylchiadau wedi ailadrodd eu hunain a sut y gallant yn awr weld dyfodol cadarnhaol.

Mae gennym un o'r tenantiaid sy'n dechrau swydd newydd ar 27 Medi o ganlyniad i'r gefnogaeth gyson a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys llenwi ffurflenni cais am swyddi a gwneud cais am drwydded yrru dros dro. Rhan o'r broses hefyd fu cefnogi'r unigolion hyn i feithrin perthynas well gyda'r teulu a'r gymuned.

Dywed Robert:

"Rwy'n teimlo'n sefydlog ac yn falch i mi gael fy lle fy hun o'r diwedd, dyma'r lle gorau erioed. Mae'n wych ac rwy'n mwynhau bod gyda'r staff a'r hyn maen nhw'n ei wneud i ni."

Dywed Lewis:

"Dwi'n iawn, mae'n deimlad da i gael fy lle fy hun ond mae help gan staff yn fy helpu i ddelio â bywyd bob dydd."

# Fit and Fed

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Merthyr Tudful**

**Sefydliadau partner: Gemau Stryd Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Clwb Rygbi Cefn Coed, Clwb Rygbi Bedlinog, Treharris BGC, H Factor, ynghyd â 13 arall.**



### Datganiad o gefnogaeth

Mae Fit and Fed Merthyr Tudful yn rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol sy'n gweithio gydag 18 o bartneriaid i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc y fwrdeistref yn mynd heb brydau maethlon yn ystod cyfnodau gwyliau, neu weithgareddau cyfoethogi. Trwy weithio ar y cyd â phartneriaid dibynadwy, mae Fit and Fed wedi llwyddo i ehangu i bymtheg safle ar draws y fwrdeistref, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc y fwrdeistref o fewn pellter cerdded i ddarpariaeth. Golygodd dull cydgysylltiedig hwn y bu modd i ni ymdrin ar y cyd â'r mater o want bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ogystal â'r unigrwydd a'r unigedd y mae llawer o blant a phobl ifanc yn eu hwynebu yn ystod y cyfnodau hyn. Mae effaith y dull cydweithredol hwn wedi bod yn gwella lles y rhai yr ymgysylltwyd â nhw, drwy olrhain eu sgorau lles gan ddefnyddio pecyn cymorth Lles Warwick/Caeredin. Mae'r bobl ifanc hynny sy'n cymryd rhan wedi cymryd rhan yn fwy yn eu cymunedau, datblygu eu hyder a'u hunan-barch, a gwella'u dysgu ar hyd y ffordd.

Mae'r tystebau isod gan ddau o'n partneriaid yn helpu i ddangos y cyfranogiad ehangach a gyflawnir drwy'r dull hwn. Nid yn unig hynny, mae hefyd yn helpu i ddangos sut mae'r arddull hon wedi mynd yn fodel arfer gorau yng Nghymru, ac ar draws Prydain, drwy Gemau Stryd, a'n parodrwydd a'n hymrwymiad i rannu ein gwybodaeth a'n profiadau.

"Mae Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn gweithio gydag ystod enfawr o bartneriaid i sicrhau llwyddiant y prosiect Fit and Fed. Mae'r ymagwedd partneriaeth yn sicrhau bod Teuluoedd a Phobl Ifanc yn cael mynediad at y cyfleoedd a chefnogaeth y mae arnynt eu hangen, ar yr un pryd â sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu ar draws y sefydliadau amrywiol dan sylw.

Mae Gemau Stryd yn arddangos gwaith CTMT yn rheolaidd fel arfer gorau ar draws Cymru a gweddill y DU o ran ymagwedd partneriaeth gydweithredol, gan ddiwallu anghenion penodol cymunedau, Teuluoedd a Phobl Ifanc. Mae gwaith Bethan a'r tîm yn anhygoel ac mae'n wir bleser i'w galw nhw'n sefydliad partner o fewn Rhwydwaith Cenedlaethol Gemau Stryd. Mae CTMT hefyd yn mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau rhwydwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol Gemau Stryd yn rheolaidd i rannu eu dysgu, ond hefyd i greu cysylltiadau â sefydliadau eraill a all gefnogi pobl ar draws yr Awdurdod Lleol." Claire Lane, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru

"Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ystyried bod y fenter hon yn ganolbwynt i'n rhaglen gyflwyno ar gyfer y gwyliau ac mae pob lleoliad wrthi'n cynllunio ac yn gweithredu'r rhaglen sy'n cael ei chyrchu ar hyn o bryd gan bobl ifanc o 15 o sefydliadau ieuenctid a chymunedol lleol. Mae pob lleoliad yn ymgynghori â phobl ifanc o ran datblygu'r rhaglen ac yn cytuno â chyfranogwyr ar y gweithgareddau sy'n briodol i'w diddordebau a'u hanghenion. Gall sefydliadau ddod at ei gilydd i gyflwyno'r rhaglen ac enghraifft o hyn yw'r cydweithio rhwng Sefydliad Gelli-deg, Clwb Bechgyn a Merched Georgetown a Barnardo's wrth gyfuno eu rhaglenni er mwyn cyflawni cyfranogiad ehangach. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gemau maes mewn parc lleol, gwersi gitâr, dosbarthiadau drama, a gweithgareddau awyr agored megis syrffio a chanŵio." Uwch Weithiwr Ieuenctid a Chymunedol CBS Merthyr Tudful.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Dros 2000 o blant a phobl ifanc gwahanol yn cyrchu'r prosiect dros y pedair blynedd diwethaf.
- Dros 400 o sesiynau wedi'u cynnal dros y pedair blynedd diwethaf.
- Mae gwerth cymdeithasol y prosiect wedi rhagori ar £2miliwn y flwyddyn yn gyson.
- 49 o ganlyniadau Achredu wedi'u cyflawni hyd yma.
- Llwyddwyd i gael £299,281 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol er mwyn parhau â'r prosiect am dair blynedd (2022-2025)
- Yn ehangu o 8 safle ar draws Merthyr Tudful i 15 safle o fewn y CBS.
- Lles pob safle yn gwella drwy ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Lles.
- Datblygu rhaglen ddysgu er mwyn i bobl ifanc ennill sgiliau a gwella eu haddysg ar hyd eu taith.
- Darparu parseli bwyd ar y penwythnos i'r teuluoedd mwyaf anghenus (dros 400 hyd yma).
- Nid yw ffigyrau Haf 2022 wedi ymddangos yn y ffigyrau hyn.

# Hospital to a Healthier Home

**Sefydliad arweiniol: Gofal a Thrwsio Cymru**

**Sefydliad partner: GIG**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Gofal a Thrwsio yn dod â thai i iechyd. Mae ein gwasanaeth Hospital to a Healthier Home (H2HH) yn cyflogi 17 o weithwyr achos arbenigol mewn 17 o ysbytai ar draws pum bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae ein gweithwyr achos yn gweithio mewn partneriaeth â staff ysbyty, cleifion, a'u teuluoedd i wella darpariaeth gwasanaethau a lles cleifion drwy nodi a datrys materion tai ac amgylcheddol yn rhagweithiol y byddent fel arall yn atal cleifion rhag cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth wedi'i dargedu at gleifion hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain y byddent fel arall yn mynd adref i dai anniogel neu'n cael eu rhoi ar restr aros mân dasgau hir yr awdurdod lleol.

Mae H2HH yn gwella'r llif cleifion trwy ysbytai drwy leihau arhosiad cleifion chwe diwrnod ar gyfartaledd; ac mae wedi'i brofi i ostwng dychwelyd i'r ysbyty o gyfartaledd y bwrdd iechyd o tua 14 y cant i 6 y cant. Mae 88 y cant o gleifion yn cael eu rhyddhau yn ôl i'w cartrefi. Mae ein gwaith yn cynnwys mân addasiadau i atal baglu a chwympo (megis canllawiau a rampiau), atal tamprwydd a drafftiau, gwella diogelwch, symud dodrefn, glanhau dwfn a gwaredu annibendod i ddarparu ar gyfer pecynnau gofal. Mae gweithwyr achos yn cwblhau 'Gwiriad Cartrefi Iach' i sicrhau diogelwch, cynhesrwydd, a lles, gan gynnwys gwiriad budd-daliadau lles llawn, darparu cefnogaeth tymor hwy gartref a phontio'n ôl i fyw'n annibynnol.

Mae H2HH yn deillio o gydweithrediad arloesol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws partneriaid a sectorau i ddatrys problemau rhyddhau o'r ysbyty,

yn hytrach na gweithio mewn seilos. Mae gweithwyr achos yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaeth, rowndiau ward, ac mae ganddynt bresenoldeb corfforol mewn hybiau rhyddhau o'r ysbyty. Mae ein holl weithwyr achos yn derbyn atgyfeiriadau'n uniongyrchol, ar ôl adeiladu ymdeimlad cryf o bartneriaeth, gwaith tîm ac, yn hollbwysig, ymddiriedaeth gyda'n partneriaid yn y GIG. Roedd hyn yn gofyn am newid diwylliant trawsnewidiol i ni a'n partneriaid. Ar gyfer achosion brys, ein targed yw dau ddiwrnod gwaith ar gyfer gwaith, ond rydym yn aml yn cwblhau'r gwaith ar yr un diwrnod. Heb y gwaith hanfodol hwn byddai cleifion naill ai'n cael eu dal yn yr ysbyty, neu'n cael eu rhyddhau adref i amgylchedd anniogel. Mae H2HH wedi cael llwyddiant ysgubol wrth droi ymagwedd arloesol i fusnes fel arfer.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfweliadau â staff y GIG ar draws Cymru, er mwyn deall sut a pham y maent yn defnyddio'r gwasanaeth. Dro ar ôl tro, gwnaeth staff ganmol cyflymder y gwasanaeth, ei ddibynadwyedd, a'r rhyddhad o gael ail bâr o lygaid ac ail farn ar gyfer cynllunio addasiadau ac ymadfer gartref.

[Mae'r gwasanaeth yn] cael ei ymgorffori i'n hasesiad cychwynnol fel llwybr ymlaen, dyna faint rydyn ni'n ei ddefnyddio. Mae'n rhan o'n tîm ni. Wrth i mi ddechrau'r rôl, fe'i cyflwynwyd i mi fel gwasanaeth yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cleifion i gefnogi rhyddhau –Olivia Newton-Hale, Therapydd Galwedigaethol, Tîm Llawfeddygol Meddygol, Ysbyty Gwynedd

Petaech yn dod draw ac yn cwrdd â'r tîm fyddech chi ddim wir yn gwybod ei bod hi'n drydydd parti, sy'n fuddiol i [y gweithiwr achos H2HH] a ni. I gael y mynediad hwnnw oherwydd bod ganddi gymaint mwy o wybodaeth, ond mae hi hefyd yn annibynnol o'r agwedd iechyd a gofal cymdeithasol –Bethan Williams, Gweithiwr Cymdeithasol yn y Tîm Rhyddhau ar y Cyd, Ysbyty Llwynhelyg

"Mae ansawdd [rhyddhau o'r ysbyty] yn well o lawer ers i ni gael Gofal a Thrwsio oherwydd bod llawer mwy o wiriadau yn digwydd nag y bydden ni wedi'u gwneud ac wedi gallu eu gweithredu o'r blaen. Os oes gennych chi bobl sydd â, er enghraifft, problemau'r ysgyfaint gyda thamprwydd a phethau tebyg yn eu heiddo, gan fod yr eiddo hynny wedi'i newid nawr, mae'n eu hatal rhag dychwelyd i'r ysbyty eto yn y dyfodol oherwydd cyflwr y tai. Felly, mae'n sgil-effaith ataliol" – Tracy Daniel, Arweinydd Tîm Orthopaedeg, Ysbyty Tywysoges Cymru

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau y gall rhyddhau cleifion sy'n ffit yn feddygol o'r ysbyty fynd yn ei flaen, ei fod o ansawdd gwell, a bod gan gleifion gefnogaeth tymor hwy.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mae'r gwasanaeth, sydd wedi gweithredu ers 2019, wedi ehangu i fwy o ysbytai, staff ysbyty a chleifion o flwyddyn i flwyddyn. Y llynedd atgyfeiriwyd dros 5,000 o gleifion ar draws Cymru at y gwasanaeth, a bu i ni hwyluso rhyddhau 4,000 ohonynt yn uniongyrchol. Fe wnaethom gwblhau 2,600 o Wiriadau Cartrefi Iach a chwblhau 6,800 o welliannau i gartrefi, gan gyrchu gwaith cyfalaf gwerth dros £1.5m i gwblhau'r gwaith hwn. Cwblhaodd y gwasanaeth dros 400 o hawliadau budd-dal llwyddiannus, gan gyrchu £4,000 y flwyddyn o incwm ychwanegol i bob claf ar gyfartaledd. Fe wnaeth y gwasanaeth arbed dros 25,000 o ddiwrnodau gwely i GIG Cymru y llynedd yn unig, ac felly mae'n hanfodol o ran sicrhau'r llif cleifion, lleihau amserau aros a rhyddhau gwelyau er mwyn i ofal wedi'i drefnu fynd yn ei flaen. Dywedodd 100 y cant o gleifion a gwblhaodd ein ffurflen adborth fod y gwasanaeth wedi eu helpu i ddychwelyd adref ac i fyw yn annibynnol.

Y tu hwnt i ddeilliannau o ran cleifion a llwyddiannau gweithredol, mae'r gwasanaeth yn gwella morâl staff y GIG gan iddynt wybod bod yna ateb dibynadwy i broblem a ffynhonnell wybodaeth ar gyfer materion tai. Mae'r gwasanaeth yn gwella cyflymder, ansawdd a chyfradd llwyddiant y cleifion sy'n cael eu rhyddhau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn arbed amser staff y GIG, gan gael gwared ar y rheidrwydd am waith gweinyddol a mynd ati i drefnu gwaith, sy'n golygu bod gan staff fwy o amser clinigol ac ailsefydlu gyda chleifion ar wardiau.

# Canolfan Dysgu Cymdogol

**Sefydliad arweiniol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

**Sefydliad partner: Cartrefi Cymoedd Merthyr**



**Datganiad o gefnogaeth**

Datblygwyd y prosiect mewn partneriaeth â Thimau Tai Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Plant, Cyflogadwyedd, a phartner RSL - Merthyr Valleys Homes i ddatblygu llety â chymorth poblogaidd ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal neu sy'n gadael gofal a / neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Rydym wedi sicrhau cyllid gan yr Awdurdod a chronfa Gyfalaf Cronfa Gofal Integredig (ICF) Llywodraeth Cymru i ddatblygu adeilad a danddefnyddir ar hyn o bryd i ddarparu 5 uned o lety un a dwy ystafell wely hunangynhaliol. Bydd y llety hwn ar gyfer y cyfnodau ar ôl gadael gofal maeth neu lety gofal preswyl rhianta corfforaethol.

Bydd y Ganolfan Dysgu Cymdogol (NLC) yn cael ei brandio mewn cydweithrediad â'r holl bartneriaid sydd wedi gweithio ar y cyd i wneud y prosiect yn bosibilrwydd, o Merthyr Valleys Homes a'u profiad o brydlesu a rheoli, cydweithwyr cyflogadwyedd, gan sicrhau cynnig ar gyfer y bobl ifanc sy'n byw yno, a bod y gymuned ehangach yn elwa o'r cyfle cyffrous hwn ar yr un pryd â chwarae rôl allweddol wrth gefnogi hyfforddiant pobl ifanc ac oedolion di-waith gyda'r nod o gynyddu eu mynediad at gyfleoedd gwaith. Hefyd mae Gwasanaethau Plant wedi helpu yn y gwaith dylunio a datblygu gyda'r bobl ifanc mewn golwg, gan gynnwys wrth ymgynghori â phobl ifanc ar yr ail-frandio, a'r hyn maen nhw ei eisiau o'r cynllun i'w helpu i lwyddo a chan gydweithwyr tai ehangach i wneud y cynllun yn hyfyw a helpu tuag at lety cynaliadwy hirdymor a dyfodol mwy disglair.

Trwy'r bartneriaeth eang ei chwmpas, rydym wedi gallu cynnal rhai o'r cyfleusterau presennol, megis gweithdai gwaith saer, plymio /metel ac ardaloedd gweithdai adeiladu eraill; uned trin gwallt gydag offer salon gwallt proffesiynol, odyn crochenydd a gweithdy cerameg i enwi ond rhai, ynghyd â swyddfeydd i staff a fflatiau sy'n wag ar hyn o bryd.

Mae disgwyl i'r datblygiad gael ei gwblhau erbyn y 9fed o Ragfyr 2022 a fydd, yn ogystal â'r cyfleuster hyfforddi, yn trosi un adeilad (Bloc 2) yn 5 fflat hunangynhwysol a fydd yn cael eu staffio 24/7 gan ddarparwr cymorth, ac yn adleoli gweithdai presennol i'r adeiladau sy'n weddill lle bydd y ganolfan ddysgu'n parhau ar agor i'r bobl ifanc.

Y bwriad yw creu canolfan llety unigryw lle mae gan bobl ifanc fynediad uniongyrchol i lety addas sy'n fodern ac yn ddiogel, a hefyd rhoi mynediad iddynt at hyfforddiant ar y safle, a allai arwain at addysg uwch drwy fynychu eu coleg lleol a/neu gyflogaeth yn y dyfodol.

Mae hyn yn galluogi i berson ifanc deimlo ei fod yn cael ei gefnogi i fyw yn annibynnol, cael cymorth gysylltiedig â thai wrth reoli aelwyd, rheoli ei gyllid, bwyd/maeth/coginio, hunan-ofal, a hylendid ei gartref ei hun ar yr un pryd â chael ei gefnogi gan staff ar y safle. Bydd hyn yn cael ei weld fel dull camu i fyny i'r drefn o fyw'n fwy annibynnol yn ei lety ei hun, gan gyfyngu ar yr angen am gymorth pellach ac atal unrhyw anghenion rhag dwysáu. Gyda'r cymorth a'r hyfforddiant i staff yma ar y safle, y gobaith yw y bydd llawer o bobl ifanc yn mynd ymlaen i fynychu'r coleg lleol, a/neu gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth, fel y bo angen.

Bydd y cyfleuster cyfan yn cael ei ailwampio i ddenu'r bobl ifanc nid yn unig i'r llety o ansawdd gwych ond i'r cynnig hyfforddiant a sgiliau gwych sy'n helpu nhw i dyfu a chreu dyfodol mwy disglair.

Nod cyffredinol y prosiect arfaethedig yw atal digartrefedd i bobl ifanc ag anghenion cymhleth mewn amgylchedd a gyfeirir gan drawma, gan gael eu cefnogi a'u trochi mewn Llwybr i Waith. Mae eu hanghenion yn rhy fawr i'w cefnogi yn ein darpariaeth llety â chymorth presennol ac mae angen prosiect penodedig arnynt sydd nid yn unig yn darparu tai iddynt ond yn eu cefnogi wrth bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolyn. Bydd y gefnogaeth a ddarperir wedi'i theilwra i anghenion y person ifanc ac yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Iechyd gan gynnwys iechyd meddwl
- Lles
- Sgiliau Bywyd
- Ymgysylltu mewn addysg
- Cyflogaeth
- Cynhwysiad Cymdeithasol

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mae'r prosiect hwn yn gweithio ar atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer pobl ifanc (16 – 24 oed) sydd wedi bod yn y system gofal ac yn cael eu hystyried yn Blant sy'n Derbyn Gofal (CLA), plant sy'n gadael gofal maeth.

Bydd darparu llety i bobl ifanc, ochr yn ochr â chymorth a hyfforddiant mynediad yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn y canlynol:

- Gweithredu'n gynnar i atal dwysâd anghenion rhag parhau i mewni oedolaeth, ar yr adeg pan fydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gadael eu lleoliadau maeth/gofal ac ar ôl hynny, a chyn iddynt fyw'n annibynnol yn eu llety eu hunain.
- Gwella pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion
- Ymyrraeth a fydd yn gwella annibyniaeth, dewis, a llais - bydd pobl ifanc yn rhan o agweddau perthnasol ar y dyluniad
- Bydd yr ymyrraeth yn gwella iechyd a lles pobl ifanc sydd ag anghenion gofal a chymorth
- Dyma arloesiad a gaiff ei werthuso, a defnyddir nodweddion llwyddiannus ohono i gyfeirio datblygiadau'r dyfodol.
- Partneriaeth gryfach barhaus yn gweithio gydag asiantaethau lluosog i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol mwyaf posib i bobl ifanc gan gynnwys sgiliau cyflogadwyedd a llety parhaus a mwy hirdymor ar gyfer dyfodol diogel, cadarn a mwy disglair.

Mae'r darparwr Cymorth newydd, Adferiad ar hyn o bryd yn cefnogi recriwtio darparwyr, gan greu swyddi lleol. Wedyn, bydd ymgysylltu'n dechrau'n fuan gyda phobl ifanc yn barod i symud i mewn neu'n symud i mewn ym mis Rhagfyr.

# Opening all Avenues

**Sefydliad arweiniol: Tai Cymunedol Bron Afon**

**Sefydliadau partner: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Yr Heddlu, Partneriaeth Garnsychan, Aelodau Ward**



**Datganiad o gefnogaeth**

Yng ngwanwyn 2021 sylwodd Joanne Blosse, un o Swyddogion Tai Cymunedol Bron Afon ei bod hi'n treulio llawer o amser yn delio â materion amrywiol ar stryd benodol o fewn y gymuned y mae'n ei rheoli, The Avenue. Roedd hyn yn cynnwys ASB, ôl-ddyledion a gerddi anniben, roedd Joanne wedi cymryd drosodd y lleoliad yn ddiweddar ac roedd y gwasanaeth tai wedi symud o dimau arbenigol i ffordd gyfannol o weithio.

Penderfynodd Joanne fod angen gwneud rhywbeth a gyda Sarah Clayton, y swyddog Datblygu Cymunedol, sefydlodd grŵp prosiect gyda'r nod o gael yr holl wasanaethau i weithio ar y cyd i geisio gwella'r ardal i'n cwsmeriaid a'n trigolion, yn ei dro y gobaith oedd y byddai'r ymagwedd gydweithredol hon yn lleihau galw ar yr holl wasanaethau a hefyd cwynion yn y tymor hir. Gwnaethant gynnwys partneriaid fu'n cynnwys cynghorwyr lleol, Diogelwch Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, yr Heddlu a phartneriaeth Garnsychan.

Ymwelodd Joanne, Sarah a chydweithwyr o'r Tîm Datblygu Cymunedol â phob eiddo yn y lle cyntaf, gan ofyn cyfres o gwestiynau gyda'r amcan o ddeall achos sylfaenol unrhyw fater penodol ac i gytuno ar atebolrwydd a nodau ar y cyd. Cafodd hyn ei groesawu. Nid oedd yn achos o gwsmeriaid yn dweud wrthym y problemau a ninnau'n eu datrys ar wahân iddynt, defnyddiwyd dulliau adferol i drafod a deall y mater a'r effaith ar y cwsmer a'u teulu, gan ddod o hyd i unrhyw broblemau sylfaenol a chytuno ar gynllun ar gyfer sut y byddem yn gweithio gyda'n gilydd tuag at ddatrysiad a chanlyniad cadarnhaol. Roedd y tîm ehangach o bartneriaid yno'n barod i gynorthwyo fel y gallai tenantiaid weld gweithredu'n digwydd yn amserol ar draws yr holl wasanaethau ac asiantaethau.

Roedd targedu'r ardal yn helpu swyddogion i gael perthynas waith ardderchog gydag asiantaethau eraill a'n cwsmeriaid a'n cymuned ehangach, gwnaethant ennyn ymddiriedaeth pobl a gweithio gyda'i gilydd ar ystod eang o bethau. Er enghraifft, mae'r Swyddog Tai Cymunedol a chynghorwyr lleol yn cynnal teithiau cerdded rheolaidd o gwmpas yr ardal i fonitro unrhyw broblemau'n agos cyn iddynt waethygu.

Mae'r tîm yn cadw'r momentwm i fynd wrth weithio gydag asiantaethau eraill ar faterion lefel is erbyn hyn fel bod trigolion yn gwybod eu bod yno i weithio gyda nhw ac fel eu bod yn parhau i feithrin perthynas. Er enghraifft, mae'r Swyddog Tai Cymunedol, y swyddog

datblygu a 2 gynghorydd lleol sydd i gyd yn ymwneud yn fawr â'r prosiect wedi mynd o ddrws i ddrws yn ddiweddar i siarad â thenantiaid am ailgylchu a dod â'u biniau yn ôl i mewn ar ôl iddynt gael eu gwagio, sef mater arall a nodwyd.

Dangosodd Joanne a Sarah ymroddiad eithriadol i'w rolau ac i wella lles a chyfleoedd eu cymuned. Aethant ati'n rhagweithiol gyda phartneriaid o fewn Bron Afon ac yn allanol i greu ymdeimlad go iawn o bawb yn dod ynghyd gydag amcanion a rennir er mwyn cyflwyno dros y gymuned. Mae'r canlyniadau'n siarad drostynt eu hunain ac yn dystiolaeth o waith caled a phenderfyniad yr holl dîm dan sylw.

Meddai Giles Davies, aelod o'r ward-

Mae'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Jo yn bersonol a chan Bronafon wedi gwneud argraff fawr arnaf. Rwy'n teimlo bod y dull o fynd ati i siarad â thrigolion a gwrando ar yr hyn y maent yn ei deimlo yn lle siarad atynt wedi gweithio.

Dwi wedi sylwi ar y parch mae Jo wedi'i ennyn gan drigolion wrth i ni gerdded o gwmpas a'r ffaith eu bod yn ei gweld hi fel rhyw fath o ffrind sy'n cymryd dim nonsens, ac mae hynny'n chwa o awyr iach.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

16 mis ers i'r prosiect ddechrau, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y galw mewn sawl maes, gan gynnwys-

- 0 o gwynion am ASB dros haf 2022
- Mae gerddi wedi gwella
- Mae 63% o gwsmeriaid wedi lleihau eu hôl-ddyledion yn sylweddol.

Dywedodd Joanne Blosse, Swyddog Tai Cymunedol -

Dwi'n delio gyda phopeth o osod eiddo, ASB, Rhentu a rhoi cyngor a chefnogaeth. Mae hyn wedi fy helpu i ddod i nabod preswylwyr fel y gallaf ddelio â phethau'n rhagweithiol. Trwy weithio'n agos gydag asiantaethau eraill, dwi'n gwybod pwy i gysylltu â nhw ac maent wedi gweld manteision gweithio gyda'n gilydd.

Fyddwn i ddim yn nabod hanner y tenantiaid dwi'n eu nabod nawr os nad oedden ni'n gyfrifol am amrywiaeth mor eang o bethau. Croesawyd eistedd gyda phobl, siarad am faterion sy'n bersonol iddyn nhw yn wresog. Dywedodd ambell i denantiaid eu bod yn mwynhau'r sgyrsiau ac yn teimlo eu bod yn cael eu clywed.

Dywedodd cydlynydd lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol CBS Torfaen

'Mae'r gwaith aml-asiantaeth hwn gyda Bron Afon wedi bod yn fwy effeithiol gydag achosion cymhleth. Mae'n galluogi'r ddwy ochr i rannu gwybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a sicrhau bod trigolion yn teimlo'n ddiogel wrth fyw yn Nhorfaen.

# Safon Abertawe - darparu cartrefi carbon isel fforddiadwy ar gyfer y dyfodol

**Sefydliad arweiniol: Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd**

**Sefydliad partner: Cyngor Abertawe**



**Datganiad o gefnogaeth**

Gweithiodd Cyngor Abertawe ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru (WSA) ym Mhrifysgol Caerdydd mewn partneriaeth fel rhan o brosiect Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE) Specific 2 i ddatblygu Safon Abertawe wrth symud tuag at ddatgarboneiddio tai'n fforddiadwy.

Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i leihau tlodi tanwydd i'w drigolion ar yr un pryd â cyflwyno adeiladau newydd ac wedi'u hôl-osod carbon isel. Yn 2017, comisiynodd y Cyngor 18 o dai safon Passivhaus newydd, a gwahoddodd dîm LCBE Prifysgol Caerdydd i'w cefnogi i ddeall defnydd ynni a chysur thermol y cartrefi. Gofynnwyd i'r tîm LCBE asesu manteision posib ymgorffori technolegau carbon isel pellach mewn dyluniad tebyg gan fod y cynllun Passivhaus wedi defnyddio ymagwedd ffabrig yn gyntaf yn unig. Gweithiodd y bartneriaeth i ddeall a fyddai'n ymarferol i efelychu'r datblygiad Passivhaus ac i ddeall a fyddai gwelliannau carbon isel pellach yn lleihau eu hôl troed carbon ymhellach. Mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd wedi arwain at greu Safon Abertawe sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn dros 65 o dai adeiledig hyd yma (erbyn 2022).

Roedd tîm LCBE yn rhan o gam comisiynu'r Passivhaus, gan gynghori tîm a chontractwyr Abertawe i ddehongli a chyfathrebu'r canlyniadau. Bu i dîm LCBE gymhwyso profion a chynnal diagnosteg adeiladau i nodi heriau

posib a sicrhau perfformiad da. Gosodwyd offer monitro hirdymor a fu'n caniatáu asesu'r defnydd o ynni a pherfformiad cysur ôl-feddiannaeth y 18 o dai.

Yn y cyfamser, dechreuodd tîm modelu LCBE, ynghyd â Chyngor Abertawe, drafodaethau ar newid yr ymagwedd ddylunio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Cyfeiriwyd modelu LCBE gan fonitro data a phrosiectau LCBE blaenorol er mwyn cynhyrchu atebion carbon isel wedi'u teilwra gan ddefnyddio ymagwedd seiliedig ar system ynni tŷ cyfan LCBE. Fe rannodd Cyngor Abertawe ystyriaethau tai cymdeithasol a rhannodd LCBE atebion meintiol gan gynnwys modelu lleihau'r ynni gweithredol, lleihau carbon ac arbedion cost ac amseroedd talu'n ôl. Bu'r ddau dîm yn gweithio gyda'i gilydd yn esblygu ateb a oedd ar yr un pryd yn bodloni meini prawf tai'r Cyngor a thargedau LCBE a yrrir gan garbon.

Cadarnhaodd y canlyniadau y gallai'r dull ffabrig yn unig a ddefnyddir yn Passivhaus gael ei gyfoethogi gan ymagwedd seiliedig ar systemau ynni cyfan a fyddai'n lleihau'r ynni gweithredol, carbon a chost heb gynyddu'r gost gyfalaf gan arwain at gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel i drigolion.

Profwyd gwahanol gyfuniadau o atebion seiliedig ar system gan ddefnyddio modelu a yrrir gan ddata o amgylch achos sylfaenol. Er nad oedd perfformiad thermol ac aerglosrwydd yn cyrraedd safonau Passivhaus yn union, gwelwyd y gellid defnyddio arbedion cost cyfalaf ar gyfer systemau carbon isel a fyddai'n sicrhau ynni gweithredol, $CO_2$ a chostau rhedeg is. Roedd y Safon Abertawe olaf yn cynnwys Pwmp Gwres o'r Ddaear, paneli solar ffotofoltäig (PV) a batris trydan. Cynhwysir strategaethau dylunio goddefol gyda'r ffocws ar aerglosrwydd, cyfeiriadedd effeithiol a lleihau pontydd thermol. Fel rhan o'r pecyn mae Awyru Mecanyddol gydag Adfer Gwres yn darparu gwres ychwanegol ac aer dan do o ansawdd uchel. Cadarnhawyd pwysigrwydd ymgysylltiad a dealltwriaeth deiliaid tai, a datblygwyd dulliau cyfathrebu i hysbysu deiliaid am y gwasanaethau a sut y dylid eu gweithredu'n effeithiol.

Mae Abertawe wedi cymhwyso'r Safon newydd ar draws pedwar safle ac mae tîm LCBE yn monitro'r 65 o gartrefi i ddarparu sicrwydd bod perfformiad a chysur yn ymarferol yn unol â'r dyluniad. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu yn erbyn canlyniadau Passivhaus. Cadarnhaodd canlyniadau'r flwyddyn gyntaf y rhagamcaniadau modelu ac o'i gymharu â datblygiad Passivhaus Abertawe, mae'r Safon Abertawe newydd, a ddatblygwyd ar y cyd â thîm LCBE Prifysgol Caerdydd, yn rhagori ar arbedion ynni gweithredol ac yn darparu lefelau cysur sefydlog gyda chost cyfalaf tebyg.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Y defnydd ynni dyddiol cymedrig ar gyfer y Passivhaus oedd 19.0kWh, ond ar gyfer cartrefi tebyg yn natblygiadau Safon Abertawe roedd yn 18.1kWh. Mewngludwyd 10.6kWh o'r 18.1kWh o'r grid a thelir amdano gan y deiliaid. Darperir yr ynni sy'n weddill naill ai o'r paneli PV yn uniongyrchol ac/neu o'r batri; Mae 2.7kWh yn cael ei allgludo'n ôl i'r grid, gan ddarparu'r potensial am incwm. Mae ynni gweithredol a fewngludir gan gartrefi Safon Abertawe 44% yn is na'r Passivhaus, sy'n hanfodol o ran tlodi tanwydd a fforddadwyedd. Mae'r ynni a ddefnyddir gan y cartrefi Safon Abertawe 62% yn is ac mae ynni (y telir amdano) a fewngludir 78% yn is o'i gymharu â thŷ cyfartalog y DU o faint tebyg. Felly, byddai aelwyd cyfartalog yn nhai Safon Abertawe yn talu am oddeutu 1/5 o'r ynni y byddai deiliad mewn tŷ cyfartalog yng Nghymru'n talu amdano.

Yn ogystal â'r perfformiad ynni, mae gan gartrefi Safon Abertawe berfformiad cysur uwch. Mae monitro gan dîm Abertawe a LCBE ynghyd â data ansoddol o arolygon wedi galluogi i ddosbarthiad gwres gael ei optimeiddio gan ddarparu tymheredd sefydlog trwy gydol y cartrefi ac ynghyd â ffigurau lleithder maent i gyd yn dod o fewn ystod y canllaw CIBSE A.

# Working Together to Provide Homes for Essential NHS Staff

**Sefydliad arweiniol: Cartrefi Conwy**

**Sefydliad partner: Adra**



**Datganiad o gefnogaeth**

Daeth Adra, Cartrefi Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ynghyd yn 2021 i ymchwilio i ddulliau arloesol i'r sector tai cymdeithasol gefnogi darpariaeth llety o ansawdd da i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn yr ardal leol, gan gynnwys meddygon a nyrsys.

Cefndir:

Ym mis Tachwedd 2021 roedd tua 1719 o swyddi nyrsio gwag yn y GIG yng Nghymru ac fe wariodd y GIG £69.04 miliwn ar nyrsys asiantaeth yn 2019 yn unig. At hynny, bob wythnos mae nyrsys yn rhoi 34,284 awr ychwanegol i'r GIG mewn goramser. Mae hyn yn cyfateb i 914 o nyrsys amser llawn.

Er mwyn cwrdd â'r diffyg mewn nyrsys medrus mae BIPBC yn mynd ati i recriwtio o'r tu allan i Gymru a thramor. Ni allant ond wneud hyn os oes ganddynt lety o ansawdd da er mwyn galluogi'r gweithwyr allweddol hanfodol hyn i ymgartrefu. Mae darparu ymdeimlad o 'gartref' wedi bod yn heriol, yn enwedig pan fydd angen i'r llety fod yn agos i safleoedd ysbytai ym Modelwyddan, Bangor a Wrecsam.

Er bod gan BIPBC ei eiddo preswyl ei hun ar gael, mae'r adnodd hwn yn gyfyngedig ac yn annigonol o ran bodloni gofynion recriwtio gweithlu'r sefydliad. Nid yw'r model presennol yn bodloni'r galw ac mae BIPBC ar hyn o bryd yn gweithio trwy opsiynau i wella'r ddarpariaeth hon yn y dyfodol. Bydd hyn yn cymryd amser ac mae'r pandemig nid yn unig wedi cyflymu'r angen am barhau i recriwtio, ond hefyd yr angen am lety lleol ychwanegol.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud ar y cyd

Mae Adra a Chartrefi Conwy wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â BIPBC i sicrhau llety addas i'r gweithwyr allweddol hyn sydd nid yn unig yn sicrhau agosrwydd at eu lle gwaith, ond hefyd yn cefnogi ac yn galluogi integreiddio i'r gymuned leol.

Crëwyd Bwrdd Partneriaeth Strategol yn 2020 a sefydlwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) cychwynnol yn 2021 i edrych ar sut gallai Adra a Chartrefi Conwy helpu BIPBC i ddarparu llety addas i weithwyr gofal iechyd o'r tu allan i Ogledd Cymru.

Mae'r MoU yn amlinellu ymrwymiad i ddarparu llety sydd wedi'i ddodrefnu'n llawn ac o fewn taith gymudo 30 munud i'w man gwaith. Gellir darparu'r llety hwn naill ai trwy stoc dai RSL neu drwy weithio gyda landlordiaid preifat.

Ein nod yw dod o hyd i lety wedi'u dodrefnu a'u sicrhau ar gyfer tua 200 o weithwyr gofal iechyd dros y 12 mis nesaf. Hyd yma rydym wedi darparu cartrefi ar gyfer 93 o weithwyr allweddol.

Bu i ni lansio'r bartneriaeth ar anterth y pandemig a brofodd yn heriol gan i ni orfod paratoi'r cartrefi a setlo'r gweithwyr allweddol ar yr un pryd â dilyn rheolau Covid llym. Mae llawer o'r gweithwyr wedi dod o mor bell i ffwrdd ag Affrica felly roedd yn rhaid i ni hefyd gydbwyso rheoliadau a bennwyd yn eu gwledydd eu hunain.

Mae galw sylweddol am dai cymdeithasol yng Ngogledd Cymru felly roedd y ddau RSL am edrych ar opsiynau amgen er mwyn cynyddu'r cyflenwad. Mae Cartrefi Conwy wedi defnyddio eu tîm HAWS i ddod o hyd i eiddo yn y sector rhentu preifat gan gynnig pecyn cymorth cofleidiol a rheoli tai i landlordiaid.

Mae Cartrefi Conwy ac Adra wedi darparu llety newydd sbon wedi'i ddodrefnu gan ddefnyddio cartrefi yn ein rhaglenni datblygu. Ar ôl y cyfnod clo Covid cychwynnol ym mis Mawrth 2020, aeth Adra a Chartrefi Conwy ati'n rhagweithiol i weithio gydag adeiladwr tai lleol. Roedd hwn yn gyfnod o ansicrwydd o fewn y farchnad a ddarparodd gyfle i drafod caffaeliadau ar raddfa fawr, gan roi sicrwydd mawr ei angen i'r adeiladwr tai a'r ddau RSL. Roedd y caffaeliadau hyn yn galluogi'r ddau RSL i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol yn ogystal â chartrefi a oedd ar gael i'w rhentu ar y farchnad yn y lle cyntaf. Yna, manteisiodd y ddau RSL ar y cyfle i ddefnyddio nifer o'r eiddo hyn i ddarparu llety a rennir o ansawdd uchel i nyrsys mewn datblygiad cymunedol cymysg dymunol gyda mynediad hawdd i fwynderau a'u gweithle.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Ers sefydlu'r bartneriaeth yn 2021 rydym wedi darparu cartrefi i 93 o weithwyr allweddol ar draws gogledd Cymru.

Dywedodd April Bureros, aelod o staff nyrsio tramor Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a thenant Adra: "Pan gyrhaeddon ni, roedd y tŷ yn groesawgar ac roedd popeth oedd ei angen arnom yma pan gyrhaeddon ni.

"Mae gennym amgylchedd cyfforddus a thawel i ddod adref iddo ar ôl shifft brysur yn yr ysbyty."

Mae'r trefniadau gwaith partneriaeth arloesol hyn wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i gapasiti o fewn yr amgylchedd gofal iechyd lleol ar adeg o bwysau digynsail ar ddarpariaeth gwasanaethau. Rydym yn falch iawn o ba mor gyflym y gweithiodd ein timau'n greadigol i ddarparu unedau ar garlam i gefnogi'r GIG o dan amodau Covid cyfyngedig pan oedd ei angen fwyaf.

Dywedodd Mark Wilkinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Dyma hwb mawr i ni i gael Adra a Chartrefi Conwy gyda'u harbenigedd mewn gwasanaethau landlordiaid.

"Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau wrth recriwtio staff, yn enwedig staff o dramor.

"Mae medru darparu'r llety modern hwn o safon uchel ar gyfer y staff mewn partneriaeth â'n darparwyr tai cymdeithasol yn ddatblygiad sydd i'w groesawu'n fawr."



# GWOBR CEFNOGI CYMUNEDAU

Noddir gan: newport city homes

Mae'r wobr hon yn dathlu prosiectau, mentrau a sefydliadau sydd wedi mynd yr ail filltir a'r tu hwnt, gan weithio i gefnogi eu cymunedau yn ystod y cyfnod anodd sydd ohoni.

## Chwyldro Digidol mewn Tai Cymdeithasol

**Cymdeithas Tai Newydd**



**Datganiad o gefnogaeth**

Dengys Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019/20) fod 17% o drigolion tai cymdeithasol wedi'u hallgau'n ddigidol: sef tua 60,000 o drigolion.

Mae hyn wedi'i waethygu gan y ffaith nad oes gan 37% arall o drigolion a all ddefnyddio'r rhyngrwyd y sgiliau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn hanfodol er mwyn cael mynediad iddo'n hyderus ac yn ddiogel - tua 105,000 o drigolion.

Beth ydyn ni'n ei wneud i fynd i'r afael ag allgau digidol?

- Cymorth 1-2-1 – gall tenantiaid drefnu ymweliadau cartref i gefnogi unrhyw anghenion sydd ganddynt. Anelwn at gyflawni'r rhain yn yr un wythnos y cânt eu cyfeirio.
- Benthyciad T.G. – Mae gennym nifer o lechi a gliniaduron sydd ar gael i denantiaid eu benthyg.
- Cyfrifiaduron pen desg a roddwyd – rydym wedi dod ynghyd â nifer o gwmnïau i ailgylchu cyfrifiaduron segur o labordai TG ac ystafelloedd hyfforddi, y gallwn wedyn eu hailbwrpasu a'u rhoi i denantiaid.
- Cardiau SIM y Banc Data Genedlaethol – Rydym wedi cofrestru fel aelod o'r Banc Data Cenedlaethol, sy'n golygu y gallwn gaffael cardiau SIM am ddim i ddarparu cysylltiad Wi-Fi sefydlog i denantiaid sydd heb fynediad i'r we.
- MyNewydd – MyNewydd yw ein llwyfan ar-lein y gall tenantiaid ei defnyddio i dalu rhent a rhoi gwybod am atgyweiriadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chwynion. Gallwn ddarparu cefnogaeth i denantiaid sydd am gael eu cyflwyno i'r llwyfan, yn cael problemau gyda'u cyfrif neu a hoffai gael cymorth i lenwi ffurflen neu gais penodol.
- Dydd Gwener Digidol – gan ddarparu cefnogaeth nid yn unig i denantiaid Newydd ond i'r gymuned ehangach, rydym yn gweithio gyda rhaglenni'r cyngor sy'n cynnal sesiynau digidol mewn llyfrgelloedd lleol. Rydym wedi gweithredu'r rhain ym Mhontypridd ac yn Y Barri.
- eCymru – Gweithio mewn partneriaeth ag 14 o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill i greu llwyfan ar-lein sy'n cysylltu'r sector tai yng Nghymru, gan ddarparu mynediad hwylus i gyrsiau a chefnogaeth ar gyfer tenantiaid.
- Prosiect Ailsefydlu Affganistan – gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Rhondda Cynon Taf i ddarparu pecyn cymorth digidol llawn wrth ailsefydlu teulu o ffoaduriaid o Affganistan. O ganlyniad i hyn fe'i mabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol fel arfer gorau ac mae bellach yn cael ei efelychu wrth ailsefydlu pob ffoadur.
- Cynllun Byw'n Annibynnol – Sesiynau galw heibio wythnosol i denantiaid 55 oed a hŷn.
- Pyrth Meta – dyfeisiau camera clyfar wedi'u sefydlu yn lolfa gymunedol y Cynllun Byw Annibynnol. Bu'n bosib i ni ddarparu ystod o weithgareddau gyda Phrosiect HAPI, galwadau grŵp a sesiynau cymorth trwy'r dyfeisiau hyn.
- Prosiect Seinydd Clyfar – gweithio mewn

partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd i ddarparu seinyddion clyfar i denantiaid yn y Cynlluniau Byw'n Annibynnol, mewn ymdrech i leihau unigedd a phennu lefel y gefnogaeth gymdeithasol y gellir ei darparu.

Tystebau

"Bu gweithio gyda Newydd yn fuddiol iawn i deuluoedd sy'n chwilio am loches a noddfa yn RhCT. Gyda mynediad at y pecyn Cymorth Digidol a gwaith tîm gwych gan yr holl asiantaethau partner, gall teuluoedd sy'n ymgartrefu yn RhCT gysylltu'n gyflymach ac yn fwy effeithlon o lawer na phe baem ni yn CBSRhCT yn gorfod sefydlu hyn ar ein pennau ein hunain. Mae'r cynllun yn caniatáu i ffoaduriaid gyfathrebu ag aelodau teulu ymhell i ffwrdd, cael mynediad at wasanaethau ac addysg i hyrwyddo annibyniaeth, sydd i gyd o werth mawr i unigolion sy'n symud i wlad newydd."

Janine Thomas, Cyngor Rhondda Cynon Taf

"Mae'r Prosiect Ailsefydlu yn hanfodol i deuluoedd sy'n symud o fewn RhCT i sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth gywir o'r cychwyn cyntaf ac y gallant gynnal eu tenantiaethau. Roedd Conor, Scott, a Janine yn barod iawn i helpu nid yn unig tuag at y teulu ond gyda fi fy hun wrth drefnu danfon y ddyfais, er mwyn gosod Wi-Fi symudol. Heb y cyfathrebu gwych drwy gydol y broses a gweithio mewn partneriaeth, byddai gan y teulu ddyfais ond ni fyddai modd iddynt ei chysylltu."

Emily Johnson, Tai Cynon Taf

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Treuliwyd cyfanswm o 65 munud ar draws nifer o apwyntiadau'n cefnogi tenantiaid gyda naill ai Chredyd Cynhwysol neu hawliadau Costau Byw ar-lein wedi arbed £1720.64, sef cyfartaledd o £26.47 ar gyfer tenantiaid a Newydd bob munud.
- Cyfanswm o 179 o achosion o gefnogaeth unigol o 01.07.21 i 01.07.22, sef cyfartaledd o 3.5 yr wythnos.
- Rhoddwyd 28 cyfrifiadur a gliniadur i denantiaid ers mis Ebrill 2021.
- Cofrestrodd cyfanswm o 1753 o denantiaid ar gyfer MyNewydd.

Tystebau

"Roeddwn i'n nerfus iawn ar y dechrau, i bobl hŷn mae cyfrifiaduron yn heriol, nid oes gennyf feddwl technolegol iawn ond fe wnes i wir fwynhau gweithio gyda chi. Dwi'n siopa ar-lein nawr, allwn i ddim wneud hynny o'r blaen."

Linda, Tenant

"Does gan bob un ohonom ni [aelodau] teulu a all helpu gyda hyn, felly dwi'n ddiolchgar iawn o wybod nad oes angen i mi fod yn bryderus."

Anne, Tenant

"Dwi'n gwybod sut i anfon e-byst nawr, doeddwn i ddim o'r blaen. Rwy'n defnyddio MyNewydd drwy'r amser i wirio balans fy rhent."

Laraine, Tenant

"Wedi cael cymorth i ddefnyddio ein llechen a'n ffôn, yr ydym bellach yn eu defnyddio ar gyfer cymdeithasu ac adloniant, a gwylio'r newyddion - mae Robert yn mynd i'r gwely'n gynnar oherwydd problemau iechyd, felly mae'n defnyddio'r llechen i ddal i fyny."

Jayne a Robert, Tenantiaid

# Academi Adra

**Sefydliad arweiniol: Adra**

**Sefydliadau partner: Grŵp Llandrillo Menai, Gisda, Procure Plus, Williams Homes (Y Bala)**




**Datganiad o gefnogaeth**

Mae'r Academi Adra arloesol yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ac ehangu opsiynau cyflogadwyedd drwy leoliadau gwaith, prentisiaethau, lleoliadau i raddedigion a chynlluniau hyfforddi ar gyfer trigolion ar draws gogledd Cymru.

Wedi'i lansio ym mis Chwefror 2021, er mwyn mynd i'r afael ag effaith y pandemig, datblygwyd y fenter hon gan dîm Partneriaethau Cymunedol Adra i roi hwb cychwynnol i fynediad at gyfleoedd gwaith a hyfforddiant gyda tharged o gefnogi mwy na 60 o bobl.

Dros y flwyddyn gyntaf, rhagorwyd ar y targed hwn gyda mwy na 70 o bobl yn cael eu cefnogi, gan gynnwys creu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc 16 i 24 oed ar Gredyd Cynhwysol yr oeddent mewn perygl o ddiweithdra hirdymor.

Mae tîm Partneriaethau Cymunedol Adra yn paru cwsmeriaid â chyfleoedd drwy ei wasanaethau a'i

raglen datblygu buddsoddiad uchelgeisiol, gan wella sgiliau trosglwyddadwy. Datblygodd dau leoliad cyntaf yr Academi sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid gyda Chanolfan Alwadau Adra.

Datblygwyd lleoliadau gwaith chwe mis ar gyfer pobl leol hefyd, gan wella eu cyflogadwyedd a darparu profiad gwerthfawr yn y gweithle, gyda'r nod o helpu cyfranogwyr i symud i gyflogaeth hirdymor gydag Adra a phartneriaid eraill yn yr ardal.

Fel rhan o'i ymrwymiad i greu cyfleoedd i'w gwsmeriaid, cyflogodd y landlord cymdeithasol hefyd bedwar prentis newydd, un trydanwr, un plymiwr a dau beintiwr ac addurnwr o fewn ei dîm Atgyweirio a Chynnal a Chadw, gan ychwanegu at y prentisiaid eraill sy'n gweithio ar ei raglen rheoli asedau a safleoedd codi adeiladu newydd ar hyn o bryd.

Mae Adra hefyd wedi datblygu ei rhaglen hyfforddeion tai, yn ogystal â chynnig pedwar cyfle lleoliad gwaith i raddedigion a recriwtio dau hyfforddai tai sy'n denantiaid Adra, fel rhan o raglen dwy flynedd i ddysgu am reoli tai, gofal cwsmeriaid a chefnogi tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau.

- Mae Academi Adra wedi cydweithio â phartneriaid ar draws y rhanbarth, gan gynnwys dod ynghyd â Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Addysg Bellach fwyaf Cymru, yn ogystal â chwmnïau bach a chanolig lleol fel Williams Homes Y Bala, gan weithio ar raglen Buddsoddiadau Adra.

Meddai Iwan Trefor Jones, Dirprwy Brif Weithredwr - Adra: “Mae Academi Adra wedi cael blwyddyn gyntaf hynod o lwyddiannus; mae darparu cyfleoedd i bobl ifanc o'n cymunedau i ddatblygu gyrfa yn arbennig o bwysig i ni. Rydym mor falch o allu cynnig cyfleoedd unigryw i gwsmeriaid o bob oedran. Mae cymaint o ddawn yn yr ardal leol, mae'n bwysig i ni fanteisio i'r eithaf arni.”

Ychwanegodd Elin Williams, Rheolwr Cymuned a Phartneriaethau - Adra: “Mae'n bleser mawr i'n tîm ni weld pobl o'n cymunedau a'n cwsmeriaid yn llwyddo drwy gyfleoedd a gefnogir gan Academi Adra. Rydym mor falch o allu cyflogi ein cwsmeriaid a datblygu eu sgiliau.

“Gyda'r cyfyngiadau COVID bu'n rhaid i ni arloesi i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu cyfleoedd, gan weithio gyda'n partneriaid a thargedu ein cwsmeriaid ar draws gogledd Cymru sy'n wynebu cynifer o heriau i gyrchu'r farchnad swyddi.”

Meddai Owain Williams, Cyd-Reolwr Gyfarwyddwr Williams Homes Y Bala:

“Rydyn ni'n falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth ag Adra i roi mwy o gyfleoedd i bobl leol.”

Dechreuodd Kimberly Hughes leoliad gwaith yng Nghanolfan Gyswllt Adra ym mis Ionawr 2022 drwy Academi Adra, mewn partneriaeth gyda Gisda, gan roi cefnogaeth cyflogadwyedd arbenigol i Kimberley.

Dywedodd Kimberley: “Gwnes i ddim adael yr ysgol gyda llawer o gymwysterau a heb y cyfle y ces i efo Academi Adra dwi'n gwybod na faswn i byth wedi cael yr hyder i ymgeisio am swydd ac yn bendant byddwn i byth wedi troi i fyny am gyfweliad. Ro'n i'n ddi-waith a doeddwn i erioed wedi cael swydd o'r blaen.

“Yn ystod y chwe mis dwi wedi bod yn Adra, dwi wedi bod yn fwy hyderus yn delio efo ymholiadau a dwi wedi medru derbyn hyfforddiant i wella fy sgiliau a fy CV. Mae gen i newyddion da fy mod i wedi cael cynnig contract gan Adra i barhau yn y rôl.”

### Canlyniadau a chyflawniadau

- Mae cynllun Academi Adra, sy'n cefnogi cwsmeriaid i mewn i waith a hyfforddiant, yn dathlu ei flwyddyn gyntaf o lwyddiant ar ôl helpu mwy na 70 o bobl i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith ar draws gogledd Cymru. Hyd yma, mae 29 wedi cael eu cefnogi gyda phrentisiaethau, mae 31 wedi cael mynediad at hyfforddiant ac mae gan wyth brofiad gwaith â thâl. Mae 12 hefyd wedi cael cymorth i weithio gydag Adra neu ei gontractwyr.
- Gan ddilyn llwyddiant blwyddyn gyntaf Academi Adra, mae'r Academi wedi hysbysebu am 24 o swyddi Wardeiniaid Ynni mewn gwahanol leoliadau ar draws Gwynedd, gan gefnogi ymrwymiad Adra i ddatgarboneiddio ac anelu at sero-net. Bydd nifer o swyddi newydd pellach yn cael eu creu dros y misoedd nesaf gyda chontractwyr ar raglenni buddsoddi ac adeiladu newydd.
- Mae rhagor o gyfleoedd yn y flwyddyn nesaf yn cynnwys cwrs Cyflwyniad i Adeiladwaith a Chynnal a Chadw ar gyfer pobl dros 16 oed, cyrsiau dysgu o bell ar-lein, cwrs Menywod mewn Adeiladwaith a Chynnal a Chadw, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid ar gyfleoedd gwirfoddoli.
- Meddai Caleb Khan, o Gaernarfon: “Mae Adra wedi rhoi cyfle gwych i mi ddatblygu fy sgiliau fel prentis, gan weithio gyda pheintiwr ac addurnwr profiadol yng nghartrefi Adra. Dwi'n hynod ddiolchgar am y cyfle yma a hoffwn ddiolch i Adra am eu cefnogaeth.”

# Rhaglen Adfywio Cymunedol

**The Community Impact Initative CIC**



### Datganiad o gefnogaeth

Tra bod rhai'n gweld eu bywydau'n dychwelyd i'r drefn arferol ar ôl y pandemig, mae cymunedau difreintiedig yn Ne Cymru'n parhau i ddioddef effeithiau cymdeithasol ac ariannol parhaus Covid-19. Mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn gyffredinol wedi gwella, sef 3% ar hyn o bryd ond mewn sawl ardal yn ne Cymru, er enghraifft yn Abertawe (10.3%) a Bro Morgannwg (5.1%) mae'n stori wahanol iawn. Yn union fel y gwnaeth y pandemig ei hun daro cymunedau difreintiedig waethaf, felly hefyd y canlyniadau economaidd, sydd wedi eu rhagweld i bara am flynyddoedd lawer. Yn Ne Cymru does gan tua 9.5% o bobl ddim cymwysterau, sy'n gwneud dod o hyd i waith yn anoddach.

Gwyddys yn iawn bod y materion ariannol a chysylltiedig â swyddi hyn yn effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl, gan achosi straen ac ansicrwydd difrifol. Ym mis Ionawr 2021, roedd gan 43% o bobl ddi-waith iechyd meddwl gwael. Roedd hyn yn fwy nag ar gyfer pobl mewn cyflogaeth (27%) a phobl oedd ar ffyrlo (34%). Gall hyn arwain at faterion cysylltiedig fel unigedd cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Mae Community Impact Initiative CIC (Cii) wedi profi o lygad y ffynnon sut mae'r diffyg cyfleoedd wedi effeithio ar gymunedau difreintiedig ar draws de Cymru ac wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r mater yma.

Amcan craidd Cii yw cefnogi pobl ddifreintiedig ar draws de Cymru i ennill sgiliau, cymwysterau a gwella eu lles mewn amgylchedd diogel. Mae rhaglen o brosiectau adfywio cymunedol craidd wrth wraidd gwaith Cii. Bob chwe mis, mae Cii yn nodi cymuned yn Ne Cymru sydd angen cymorth ac yn prynu eiddo segur lleol. Yna maent yn defnyddio'r broses adnewyddu i gefnogi aelodau difreintiedig o'r gymuned i ddysgu sgiliau ymarferol gan ein tiwtoriaid arbenigol, gan ennill tri chymhwyster sylfaen (sef Cymorth 1af Brys yn y Gweithle, hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch CITB, a'r cerdyn CSCS) ac yn adeiladu ar eu hyder, eu hunan-barch a'u perthnasoedd cymunedol. Yna mae'r eiddo'n cael ei werthu fel tai ynni-effeithlon, fforddiadwy ac mae'r elw i gyd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y tŷ nesaf, gan barhau â'r cylch o dwf cymunedol.

Mae Cii yn gweithio gyda sawl sefydliad partner sy'n darparu cymorth yn ystod pob cam o brosiect chwe mis. Yn gyntaf oll, mae'r sefydliad yn cydweithio â nifer o sefydliadau cyfeirio er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth fwyaf yn cael eu cyrraedd. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys CRC Probation, Canolfan Byd Gwaith a Chymunedau am Waith Castell-nedd, ymhlith eraill. Mae Cii hefyd yn gweithio gyda sefydliadau sy'n gallu cefnogi lles cyfranogwyr a chysylltu â'r sefydliadau hyn er mwyn helpu'r cyfranogwyr i gael mynediad at gymorth arbenigol. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys Shelter Cymru, The Care Collective, NPT Mind a The Wallich. Yn olaf, mae Cii yn gweithio gyda sefydliadau lleol sy'n darparu llwybrau dilyniant i gyfranogwyr. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys Cyfle Cymru, FP Hurley, Travis Perkins a Hale Construction.

Un o'r ffyrdd allweddol y mae Cii yn mesur effaith yw drwy adborth gan gyfranogwyr a rhanddeiliaid. Dyma rywfaint o'r adborth a gafwyd yn ddiweddar:

“Mae Cii o fudd i gymunedau lleol trwy droi eiddo gwag, adfeiliedig yn gartrefi a rhoi sgiliau newydd i unigolion, y gallant eu defnyddio drwy gydol oes.” - Julie James MS Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

"Oni bai amdanoch chi'n helpu fi allan, fyddwn i byth wedi medru gwneud y prawf CSCS. Diolch am bopeth rydych chi wedi ei wneud drosta i. Dwi'n gyffro i gyd - nawr galla i gael swydd" – Cyfranogwr

“Yn ystod yr amser a dreuliwyd gyda'ch hunain, mae hyder a chymhelliant Chris wedi cynyddu'n ddramatig, fel ei fod bellach wedi symud ymlaen oddi wrthym i fod yn fflat Gorwellian gydag ychydig iawn o anghenion cymorth. Roedd yn brofiad cadarnhaol iawn iddo fe a'i les.” – Swyddog Cefnogi Tai, The Wallich

**Canlyniadau a chyflawniadau**


Hyd yma, mae'r rhaglen adfywio cymunedol wedi cyflawni'r canlyniadau a ganlyn:

- Adnoddau wedi'u Hailneilltuo: Er i deuluoedd mewn llety dros dro gynyddu 60% yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf, saif tua 30,000 o dai Cymru'n wag. Mae llawer o'r cartrefi hyn yn adfeiliedig oherwydd cost uchel y gwaith adnewyddu, gyda'r mwyafrif o ddatblygwyr yn dewis codi cartrefi newydd yn hytrach na defnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael iddyn nhw. Hyd yma, mae Cii wedi llwyddo i adnewyddu a gwerthu chwe eiddo fel tai ynni-effeithlon a fforddiadwy.
- Gwella Iechyd a Lles: Mae Cii yn cefnogi aelodau o'r gymuned i wella eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol, gan arwain at gymuned hapusach a mwy gweithgar. Mae 91% o'r cyfranogwyr (18/20 ym mhob prosiect) yn adrodd am welliannau, gan gynnwys gwell iechyd meddwl a hunan-barch.
- Rhagolygon gwell: Mae cyfranogwyr yn datblygu sgiliau gyda ni sy'n arwain at ragolygon cyflogaeth gwell a mwy amrywiol. Mae 73% o gyfranogwyr (15/20 y prosiect) yn ennill cymwysterau achredededig ac mae 55% (11/20 y prosiect) yn symud ymlaen i gyflogaeth.
- Cefnogi'r gymuned ehangach: Mae gwaith Cii ym maes lles yn creu buddion ar gyfer y gymuned ehangach drwy leddfu pwysau ar wasanaethau lleol a chefnogi pobl leol i ymgymryd â chyflogaeth, gan wella'r economi felly

# Y Prosiect Pontio

**Sefydliad arweiniol: Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot**

**Sefydliad partner: The Wallich**



**Datganiad o gefnogaeth**

Atal digartrefedd ymysg Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT) yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT)

Mae The Wallich yn elusen flaenllaw yng Nghymru sy'n gweithio i atal pob math o ddigartrefedd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau anoddach eu cyrraedd i atal a mynd i'r afael â digartrefedd cudd. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae gennym wasanaeth penodol sy'n ymdrin ag anghenion pobl o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT) lleol, yr ydym yn amcangyfrif bod yna tua 250 o unigolion. O dan arweiniad Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot, ffurfiwyd y 'Prosiect Pontio' yn 2020.

Gyda'r gymuned fel arfer yn breifat ac yn cadw at ei hun, mae'r prosiect wedi dod o hyd i ddiwylliant o ddiffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau a gwasanaethau, gan wneud meithrin perthnasoedd yn rhan hollbwysig o'r gwasanaeth hwn. Gwelwyd bod ymatal rhag cyrchu gwasanaethau yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y gymuned ac yn eu gwneud yn fregus o ran materion ariannol a thai. Mae cyfranogiad The Wallich yn y prosiect wedi canfod bod angen y canlynol ar y cymunedau:

-Cymorth wrth ymdrin ag ôl-ddyledion rhent – mewn tai ac ar safleoedd.

-Atgyfeiriadau digartrefedd at Opsiynau Tai a chael mynediad i lety brys ar ôl ffoi rhag trais domestig ar safleoedd.

-Cymorth ymgeisio am grantiau ac arian i lenwi diffygion mewn costau byw.

-Mynediad i gymorth iechyd meddwl - Meddygon teulu, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Bae Abertawe, Cwnsela Rhwydwaith Wallich Reflections.

-Datrys gwrthdaro a thorri stigma – ymhlith teuluoedd ac ar safleoedd.

-Cymorth gyda byw'n annibynnol e.e. addasiadau hygyrchedd, cymhorthion symudedd, Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Cymunedol a Thîm Porth Gwasanaethau Cymdeithasol.

-Herio rhwystrau a gwahaniaethu o'r tu allan i'r cymunedau.

Christine Griffiths yw Uwch Weithiwr Cymorth GRT penodedig The Wallich, sydd wedi gweithio'n ddiflin i ddod o hyd i ddulliau arloesol o daclo materion yn y gymuned. Mae gweithio mewn partneriaeth a datblygu perthnasoedd rhwng sefydliadau a thrigolion wedi bod yn hollbwysig. Mae'r Wallich wedi hwyluso cyfathrebiadau gwell rhwng trigolion safleoedd ac Adran Ystadau CNPT, Cydlynwyr Ardal Leol, meddygon teulu a meddygfeydd, Gwasanaethau Cymdeithasol CNPT, Gwasanaeth Amddiffynwyr Cyhoeddus, Therapi Galwedigaethol a mwy. Erbyn hyn mae gan y gymuned GRT Swyddog Hawliau Lles dynodedig yn Uned Hawliau Lles CNPT y gall The Wallich ac eraill atyfeirio atynt.

Mae'r Wallich yn cydweithio'n agos ag Ian Rees, Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port

Talbot, a chadeirydd presennol y Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr. Meddai:

"Mae hwn wedi bod yn brosiect aml-asiantaeth, ac ochr yn ochr â The Wallich, mae gennym asiantaethau partner ym meysydd iechyd, Prifysgol Abertawe, Cydlyniant Cymunedol, a Traveller Ahead gwasanaeth eirioli Sipsiwn a Theithwyr Cymru gyfan.

"Mae Christine wedi bod yn cefnogi'r gymuned ers dros ddwy flynedd bellach, ac mae hi'n westai a groesawir yn gynnes ar y safleoedd. Maen nhw'n gwerthfawrogi nid yn unig ei chefnogaeth gyda budd-daliadau, ond hefyd ei gwên siriol a'i sgyrsiau cyfeillgar. Mae ei gwaith hefyd yn cwmpasu dod o hyd i gefnogaeth i addasu Carafanau ar gyfer ein poblogaeth oedrannus gynyddol a'r rhai sydd ag anableddau.

"Hyd yn oed yn ystod y pandemig, pan oedd gwasanaethau dan glo ar y cyfan, llwyddodd The Wallich i gynnig cefnogaeth sylweddol. Roedd Christine hefyd yn rhan o'r tîm a hyrwyddodd gyngor COVID da a manteisio ar y brechlyn COVID. Cafodd cyngor da a chywir ei rannu'n effeithiol â'r gymuned."

Dywedodd Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed CNPT:

"Mae gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau fel The Wallich wedi bod yn amhrisiadwy i sicrhau bod y gymuned Teithwyr yn derbyn cefnogaeth ar yr adegau mwyaf heriol.

Mae ganddi [Christine] record ddigyfaddawd o lwyddiant wrth gyrchu adnoddau a gwasanaethau i'r gymuned.

Mae'n hanfodol bod natur a lefel y gefnogaeth a ddarperir gan The Wallich yn parhau er mwyn cefnogi'r hyn sydd, yn ôl pob mesur, y gymuned fwyaf ar yr ymylon yng Nghastell-nedd a Phort Talbot."

### Canlyniadau a chyflawniadau

Rhwng Gorffennaf 2020 ac Awst 2022, cefnogwyd 50 o deuluoedd ar safleoedd carafanau a redir gan yr awdurdod lleol a 18 o deuluoedd mewn cartrefi brics a morter. At hynny, 55 o bobl eraill o gymunedau GRT yn ein gwasanaeth galw heibio.

Fe wnaethom gefnogi hawliadau budd-daliadau gwerth £101,004 (cyfanswm y flwyddyn) a thaliad cynorthwyol o £15,729 o fudd-daliadau wedi'u hôl-ddyddio.

Fe wnaethom gynorthwyo gyda gwneud cais am gronfeydd cymwys a sicrhau 272 o eitemau aelwyd fel peiriannau golchi, ffyrnau, gwelyau, soffas.

Bu i ni sicrhau £15,752 i helpu gyda chostau byw gan gynnwys tanwydd, cyflenwadau ysgolion a chymorth i ofalwyr.

Bydd y buddsoddiad hwn yn y gymuned yn helpu i leihau'r risg o ddigartrefedd ac yn helpu pobl i fyw bywydau mwy diogel, hapus ac annibynnol.

Astudiaeth achos: Profodd RM (52B) iselder, gorbryder a phyliau o banig, yn sgil digwyddiadau trawmatig yn ystod plentyndod. Roedd RM wedi'i hynysu ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol. Roedd hi mewn perthynas gyda'i gŵr wedi'i ymddieithrio lle bu'n ymosodol iddi ac yn ei rheoli.


Cefnogwyd RM i adael, gwneud atgyfeiriad digartrefedd a symud i lety brys nes i fflat addas ddod ar gael.

Yna cafodd gymorth gydag ailsefydlu gan gynnwys grant a rhoddion i ddodrefnu ei heiddo newydd a'i chefnogi i wneud cais am les cymwys i gynyddu incwm i'r eithaf a sicrhau tenantiaeth gynaliadwy.

# Tŷ Pantri

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Merthyr Tudful**

**Sefydliad partner: H Factor**



### Datganiad o gefnogaeth

Tŷ Pantri oedd ymateb CTMT i'r pandemig gan sicrhau nid yn unig bod tenantiaid, ond poblogaeth ehangach Merthyr Tudful yn cael mynediad fforddiadwy at fwyd. Gan gyfuno'r egwyddor Cydweithfa Bwyd draddodiadol gyda'r modelau Pantri sy'n dod i'r amlwg ar draws Cymru, roedd Tŷ Pantri'n ffordd i'r gymuned brynu nwyddau sych a thun, yn ogystal â ffrwythau a llysiau ffres fforddiadwy. Trwy ymgynghori â thenantiaid a'r gymuned ehangach, daethom i ddeall bod llawer yn ei chael hi'n anodd bwydo eu teuluoedd yn fforddiadwy, yn enwedig y rhai oedd yn gwarchod. Gyda'r archfarchnadoedd mawr enfawr yn mynnu isafswm archeb o £30 i gludo bwyd, dywedodd llawer yr oeddem yn ymwneud â nhw wrthym yn syml na allent fforddio hyn. Mae Tŷ Pantri'n wasanaeth o ddrws i ddrws sy'n dod â bwyd yn syth i'r cwsmer. Mae ein Blychau Hanfodol yn costio £5 yn unig - rydych chi'n cael llysiau tun, cigoedd, pwdinau, pasta, sawsiau, grawnfwyd, a llaeth bywyd hir a fyddai fel arfer yn costio £40 yn yr archfarchnad, ac mae ein blychau ffrwythau a llysiau ffres yn costio dim ond £4.

Gan weithio gyda phartner dibynadwy lleol, yr H Factor, rydym wedi cysylltu â'u gweithwyr Kick Start, i ddarparu'r gwasanaeth hwn o ddrws i ddrws. At hynny, mae wedi ein galluogi i gefnogi cymuned Merthyr Tudful drwy'r pandemig a'r hwnt. Nawr, wrth i ni wynebu cyfnod digynsail arall yr argyfwng costau byw, mae Tŷ Pantri'n darparu dull fforddiadwy o siopa a helpu i fwyafu incwm, fel nad yw pobl Merthyr Tudful yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng gwres neu fwyta.

"Mae'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu'n helpu ni yn sylweddol fel teulu. Er nad wyf yn un o'ch tenantiaid, rydych chi'n fy nhrin i fel yr ydw i ac yn fy helpu gymaint gyda hyn o beth. Fel tŷ, dydyn ni erioed wedi bod yn y sefyllfa yma o'r blaen, lle mae'r ddau ohonom bellach yn ddi-waith, a'r ergyd y mae hyn wedi'i chael ar ein cyllideb deuluol. Bendith i ni yw'r pantri hwn. Trwyddo chi a Gobaith, gallwn fforddio bwyta a chael deiet cytbwys gydag ef. Rydyn ni'n cael gwell gwerth am arian gyda chi gan fod gennym fwy o ddewis gyda'ch blychau hanfodol, ac wrth gwrs, mae eich ffrwythau a'ch llysiau yn ffres ar y diwrnod. Os byth y gallaf wirfoddoli i helpu i wneud i'r prosiect ddigwydd, rhowch wybod i mi." Cwsmer 1

"Fe ffoniodd y person uchod i archebu blwch cwpwrdd hanfodol arall ar gyfer yr wythnos hon ac roedd hi eisiau 'diolch' a dweud wrthych faint mae'r hamperi hyn yn ei helpu bob wythnos. Dywedodd eu bod nhw'n 'fendith' iddi hi a hyd yn oed yn caniatáu iddi gael ei hwyrion am ychydig ddyddiau nawr drwy'r gwyliau hefyd. Maen nhw'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywyd, ac mae hi mor ddiolchgar." Cwsmer 2

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Gan ddefnyddio dim ond ein hymgysylltiad â'n tenantiaid fel enghraifft ers mis Ebrill eleni rydym wedi gallu eu cefnogi i gynilo'n fwy rheolaidd. Trwy ddefnyddio'r pecyn offer HACT, mae hyn wedi dangos bod y cwsmeriaid hyn yn unig, wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol o £22,508. Ar ben hynny, rydym wedi bod yn y sefyllfa i ymgysylltu â nhw ymhellach a'u cefnogi mewn agweddau eraill ar eu bywydau a'u tenantiaeth.
- Rydym ar gyfartaledd yn gwneud 20 cludiad bwyd yr wythnos.
- Rydym yn cefnogi'r cynllun Kick Start drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r H Factor ac yn darparu ymgysylltu cymunedol a phrofiad gwaith gwerthfawr i'r bobl ifanc sy'n cefnogi'r prosiect.
- Rydym wedi llwyddo i ddenu dros £11,000 o gyllid ers Ebrill 2021 i gefnogi'r prosiect.
- Gan weithio mewn partneriaeth â chigydd lleol, rydym wedi sefydlu clwb cynilo'r Nadolig ar gyfer Nadolig 2022, lle gall cwsmeriaid Tŷ Pantri gynilo i brynu hamper llysiau a hamper gig, er mwyn lledaenu cost y Nadolig.

# Working Families

**Sefydliad arweiniol: United Welsh**

**Sefydliadau partner: Cartrefi Dinas Casnewydd, Tai Calon, Linc Cymru, Cymdeithas Tai Sir Fynwy, Pobl**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Working Families yn brosiect a ariennir gan y Loteri a sefydlwyd i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio yng Nghasnewydd, Blaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy i wella ansawdd eu bywydau.

Mae cyflawni cydbwysedd iach yn anodd i deuluoedd sy'n gweithio, y maent yn aml yn jyglo blaenoriaethau gwahanol i gadw pethau i fynd gartref. Gall dod o hyd i'r amser a'r arian i helpu eich teulu i ffynnu fod yn anodd. Mae hyn yn arbennig o wir nawr gyda chostau byw ar gynnydd. Mae'r prosiect yn gweithio gyda grwpiau o deuluoedd a phartneriaid cymunedol, i nodi materion sy'n effeithio arnyn nhw a'u cefnogi, drwy gyd-gynhyrchu, er mwyn datblygu atebion i wella pethau iddyn nhw ac i deuluoedd lleol eraill.

Dyma weithgareddau allweddol y prosiect:

- Mae grŵp cymunedol Biscuit Club, a gefnogir mewn partneriaeth ag Achub y Plant, yn fore coffi rheolaidd sy'n helpu i daclo unigedd ymysg rhieni yng Nghasnewydd, gan adeiladu rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid a gwella hyder aelodau, drwy hyfforddiant a gweithgareddau. Mae sesiynau fel cadw plant yn ddiogel ar-lein, cyllidebu, coginio cynaliadwy, hylendid bwyd lefel 2 a chylch diogelwch wedi cyfrannu at hyder cynyddol yr aelodau.
- Sustainable You, Sustainable Me, grŵp a gefnogir mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Sir Fynwy, i helpu i daclo tlodi mislif a normaleiddio'r defnydd o gynhyrchion mislif cynaliadwy.

- Menter coginio cynaliadwy Gelligaer, drwy weithio gyda rhieni Ysgol Gynradd Gelligaer i gyflwyno cwrs coginio cynaliadwy 5 wythnos.
- Working Wardrobe, gan weithio gyda Moxie People a Platfform, i gefnogi gwirfoddolwyr i ddarparu mynediad ar gyfer aelodau'r gymuned at ddillad cyfweliad a gwaith priodol am ddim.
- Ysgol Gynradd Llyswyry ac Ysgol Gynradd St Andrew's, sy'n gweithio gyda rhieni i greu grwpiau ymgysylltu cyd-gynhyrchiol â rhieni, er mwyn helpu'r ysgol i ddatblygu'n hybiau cymunedol sy'n ymateb i anghenion y teuluoedd y maent yn eu cefnogi. Yn Llyswyry, mae hyn yn cysylltu â phrosiect Pris Tlodi Disgyblion Plant yng Nghymru, a gefnogir gan Linc Cymru a Chartrefi Dinas Casnewydd, yn ogystal â Working Families.
- Mae Bridging Group yn gweithio gyda Working Families gan nodi problemau ynghylch fforddadwyedd gwisg ysgol yng Nghaerffili. Mewn ymateb, maent yn cynnal digwyddiadau cyfnewid gwisg ysgol ail-law mewn partneriaeth â Working Families, ysgolion lleol a Rhwydwaith Rhieni Caerffili.
- Llyfrgell benthyca TG, sy'n darparu mynediad at offer TG ar gyfer aelodau'r gymuned sydd wedi'u hallgau'n ddigidol, i'w helpu i gael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant.
- Hyfforddiant Grant Start, sy'n darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol i gyrchu cyllid yn well. Un grŵp o'r fath oedd Cwtch Angels, a fwydodd yn ôl fod yr hyfforddiant wedi "egluro eu dull o weithredu a gwella eu hyder wrth roi ceisiadau ariannu at ei gilydd."

Emma Young (Biscuit Club): "Mae fy iechyd meddwl wedi gwella, doedd gen i neb roeddwn i'n eu nabod ym Metws, gan nad ydw i'n dod o'r ardal. Mae wedi rhoi rhwydwaith cymorth i mi a helpu i gael fy hyder yn ôl. Mae gwneud cyrsiau i fy helpu i gael gwaith wedi bod yn help mawr hefyd."

Jade Jenkins (Biscuit Club): "Dwi'n teimlo bod y prosiect wedi helpu mewn llawer o ffyrdd. Mae'n anodd ei rhoi mewn geiriau. Mae'r cyswllt cymdeithasol gyda rhieni eraill a seibiant o'r tŷ wedi bod yn bwysig. Mae gwneud ffrindiau newydd wedi fy helpu i adeiladu rhwydwaith cymorth lleol. Mae fy hyder i yn bendant wedi gwella."

Julie Rees o Platfform (Working Wardrobe): "Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn gweithio gyda'r... Tîm Working Families dros y 18 mis diwethaf, gyda chefnogaeth eu tîm rydym wedi gallu sefydlu Hyb Working Wardrobe cyntaf De-ddwyrain Cymru mewn cyfnod heriol... rydym wedi llwyddo i gydweithio'n agos ag unigolion i gyflawni llwyddiant wrth ennill cyfleoedd sy'n seiliedig ar waith fel cyflogaeth a hyfforddiant.

Gyda'u cefnogaeth rydym wedi datblygu a chynnal gwirfoddolwyr i helpu i gefnogi'r fenter hon, mwy o gysylltiadau o fewn eu cymunedau lleol, lleihau achosion o unigedd, gwella cyfraddau cyfranogiad a chymryd rhan yn y gymuned.

Mae'r tîm Gweithio gyda Theuluoedd wedi rhoi cefnogaeth ardderchog…"

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Canlyniadau'r prosiect:

Cefnogodd Biscuit Club rieni i oresgyn unigedd ac, mewn adborth diweddar, dywedodd 100% o'r aelodau fod eu hunanhyder wedi gwella o ganlyniad. Yn sgil hynny, daeth 2 aelod o'r grŵp o hyd i swyddi a llwyddodd 5 i wneud hyfforddiant hylendid bwyd lefel 2.

Cefnogodd digwyddiad gwisg ysgol cyntaf Bridging Groups 56 o deuluoedd, gydag arbediad cyfartalog fesul teulu o £39, sef cyfanswm arbedion o £2,184. Nid dyma'r unig effaith, gyda sylwadau o'i gwmpas yn 'bod yn bwysau oddi ar y meddwl' a nawr mae 'gallu gwario'r arian yna ar bethau eraill ry'n ni angen' yn cael effaith aruthrol ar les.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2022, roedd Working Wardrobe yn darparu dillad gwaith i 19 o bobl.

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth: "I ddechrau, roeddwn i'n nerfus am ddod lawr... O'n i'n teimlo'n esmwyth yn syth o'r eiliad y cerddais i mewn. Doedd neb yn fy marnu i... Dwi'n gwybod y bydda i'n edrych yn dda yn fy nillad newydd. Diolch i chi i gyd, dydych chi ddim yn gwybod faint mae hyn yn ei olygu i mi."


Bu i Sustainable You Sustainable Me ymgysylltu â 40+ o deuluoedd yn ystod hanner tymor mis Chwefror, yr oedd 62% ohonynt eisiau cymryd rhan ymhellach. Bu i'r prosiect ei hun gofrestru 20 o bobl a rhoddwyd 80 o gynhyrchion am ddim i deuluoedd – gan leihau maint y cynhyrchion tafladwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Mae Working Families yn parhau i gefnogi cymunedau i ddatblygu atebion newydd i'r materion y maent yn eu hwynebu drwy ymagweddau cyd-gynhyrchu a seiliedig ar gryfder at ddatblygu cymunedol.

# Working Wardrobe

**Sefydliad arweiniol: Moxie People**

**Sefydliadau partner: Bluegg, CCHA, Tramshed Tech, Tai Calon, Tai Cadwyn, Cymdeithas Tai Newydd, United Welsh**



### Datganiad o gefnogaeth

Ynglŷn â Working Wardrobe

Moxie People yw'r asiantaeth recriwtio tai cymdeithasol arbenigol ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bobl, gan ddod ynghyd gyda Chymdeithasau Tai ac elusennau i ddod â'r doniau gorau i mewn i'r sector drwy broses recriwtio a chroesawu cadarn.

Pan ddaeth recriwtio i stop yn ystod y pandemig, parhaodd Moxie i gefnogi'r sector tai, wrth iddo chwilio am ffyrdd o gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn ystod cyfnod arbennig o anodd. I chwarae ein rhan wrth leddfu'r pwysau o ddod o hyd i waith, ym mis Mehefin 2021 lansiodd Moxie Working Wardrobe (WW). Mae ein menter cyd-gynhyrchu (gyda Bluegg, CCHA, Tramshed Tech, Tai Cymunedol Tai Calon, Tai Cadwyn, Tai Newydd, United Welsh, Teuluoedd sy'n Gweithio, Cymunedau am Waith a Platfform), yn ailddosbarthu dillad cyfweliad a roddwyd (newydd ac ychydig iawn o ddefnydd) i geiswyr gwaith ar draws Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Blaenau Gwent. Mae diddordeb eisoes wedi'i fynegi a sgyrsiau eisoes ar waith i lansio hybiau yng Nghasnewydd, Torfaen, a Sir Fynwy yn 2022/23.

Trwy gyfranogiad busnesau lleol, darparwyr addysg, gwirfoddolwyr a chanolfannau cymunedol, mae WW yn datblygu'r economi gymunedol – gan symud yn agosach at economi gylchol. Ar ben hynny, drwy ailddosbarthu dillad cyfweliad ail-law, bydd WW yn helpu i ostwng y 300,000 o dunelli o ddillad a anfonir yn ddiangen i safleoedd tirlenwi yn y DU bob blwyddyn.

Ein nodau allweddol

Trwy hyrwyddo cyd-gynhyrchu a chynaladwyedd, ein nod yw grymuso dros 200 o unigolion bob blwyddyn sy'n wynebu caledi ariannol i hybu eu morâl a chyrraedd eu llawn botensial, oherwydd pan fyddwch yn gwisgo am lwyddiant... cewch gymryd y byd ymlaen!

Cymru Lewyrchus

Mae WW yn ymdrechu i gael mwy o bobl i mewn i'r gwaith drwy sicrhau nad yw mynediad at ddillad priodol bellach yn rhwystr i fynd i gyfweliadau neu aros mewn cyflogaeth. Mae mwy o bobl yn y gwaith yn gyfystyr ag economi Cymru sy'n fwy cadarn.

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Mae WW yn cefnogi pobl sy'n byw ar gyrion cymdeithas. Mae'r prosiect yn helpu i ddileu rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl yn ein cymunedau o bob cefndir diwylliannol, ariannol a chymdeithasol. Mae ein prosiect wedi helpu pobl sy'n chwilio am waith, yn ogystal â'r rhai sydd angen dillad o ansawdd da i aros yn eu swyddi. Nid dim ond y rhai sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith cynaliadwy sy'n profi tlodi, mae hefyd yn fater cynyddol i aelwydydd incwm isel a cheiswyr lloches. Mae WW wedi helpu unigolion sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin, y maent wedi dod i'r DU gydag ychydig iawn o ddillad, gan roi dillad bron yn newydd iddyn nhw na fyddent yn gallu eu fforddio fel arall.

Cymru Iachach

Yn ôl Health.org.uk, erbyn diwedd 2021, byddai dros 800,000 o bobl sy'n wynebu diweithdra hefyd yn teimlo effaith iechyd meddwl gwael. Mae'r gydberthynas rhwng dod o hyd i waith, yn enwedig gwaith sy'n teimlo'n bwrpasol i'r gweithiwr ac iechyd meddwl yn glir i'w gweld. Gallwn gefnogi hyn drwy gynorthwyo gyda dillad sy'n briodol ar gyfer y gwaith, sy'n magu hyder ac yn lleddfu'r pwysau ariannol ar unigolion na allant fforddio dillad newydd cyn sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Ni fyddai WW yn bosib heb ein partneriaid cymunedol. Mae pob un ohonynt yn chwarae rhan hanfodol wrth ddod â'r rhaglen yn fyw ac mae'n ein hatgoffa, bob dydd, o rym cymuned gydlynol.

Lleihau Diweithdra

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol wedi rhagweld y bydd diweithdra yng Nghymru rhwng 2021-2023 yn cyrraedd 6% neu fwy, o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig o 5.2%. Ynghyd â chwyddiant y DU - sy'n parhau i godi - gan gyrraedd ei gyfradd uchaf mewn 40 mlynedd ym mis Ebrill 2022 (yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol), mae'n hollbwysig i ni wneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl i lywio trwy'r cyfnod heriol sydd ohoni.

Lleihau Gwastraff a dibyniaeth ar ffasiwn cyflym

drwy ailddosbarthu dillad cyfweliad ail-law, bydd WW yn helpu i leihau'r 300,000 o dunelli – a 50% o'r wardrob cyfartalog sy'n cael ei anfon yn ddiangen i safleoedd tirlenwi yn y DU bob blwyddyn.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Manteision WW

Cyflwynir hybiau'r prosiect WW yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, lle mae diweithdra yn un o'r prif achosion o dlodi. Mae 700,000 o bobl yn byw bywydau sy'n fregus yn ariannol yng Nghymru: dyna chwarter o'r boblogaeth. Gall yr helbul ariannol hwn arwain at heriau corfforol ac iechyd meddwl, cyfraddau marwolaeth uchel a chyrhaeddiad academaidd sydd islaw cyfartaledd Cymru. Mae'r ffactorau hyn oll wedyn yn rhwystrau y mae ein trigolion yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i gyflogaeth a gwella'u hamgylchiadau.

Mae'r prosiect yn cymryd gwirfoddolwyr ymlaen, yn eu hyfforddi ac yn cynyddu eu sgiliau o fewn y gymuned ei hun. Gan eu hamlygu i amgylchedd gwaith. Gall gwirfoddolwyr ddatblygu sgiliau go iawn mewn gwasanaeth cwsmeriaid, gweinyddu a rheoli stoc sylfaenol, ac ar yr un pryd adeiladu sgiliau meddal ar yr un pryd fel cyfathrebu'n effeithiol a datrys problemau.

Mae dod â phobl at ei gilydd fel hyn hefyd yn creu ymdeimlad o gydberthynas, mae rhyngweithio rhwng pobl efallai nad ydynt erioed wedi cwrdd â'i gilydd yn cynyddu lles meddyliol ac yn galluogi unigolion i uniaethu a chysylltu. Mae gweithio ar y cyd yn adeiladu pontydd ac yn gwella bywydau.



# CYFLWYNO CARTREFI O SAFON UCHEL

Mae'r wobr hon yn cydnabod sefydliadau sy'n ymwneud ag adeiladu cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy newydd ar draws Cymru. Mae'n dathlu cartrefi ar flaen y gad o ran arloesi sydd, trwy eu hadeiladu, nid yn unig wedi helpu i ddiwallu anghenion tai ond, yn y broses, wedi sicrhau manteision lluosog ar gyfer y cymunedau lleol y maent wedi'u lleoli ynddynt.

## Cwrt Canna

**Sefydliad arweiniol: Cymdeithas Tai Newydd**

**Sefydliad partner: Canna Developments gan ddefnyddio System Adeiladu Goddefol Beattie**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Cwrt Canna yn ddatblygiad o 13 o gartrefi cynaliadwy a fforddiadwy sy'n hynod o ynni effeithlon, a ddatblygwyd gan Gymdeithas Tai Newydd gan ddefnyddio cyllid Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru a'r Grant Tai Cymdeithasol.

Mae'r cartrefi a'u cyffiniau yn weledol ddeniadol o ganlyniad i gynllunio gofod yn ddeallus a dyluniad pensaernïol eithriadol. Mae Cwrt Canna yn rhoi tic ym mhob blwch ar gyfer cynllun tai cymdeithasol 'prydferth' ac yna'n mynd ymhellach i gyflawni safonau Passivhaus o ansawdd, cysur thermol ac effeithlonrwydd ynni - gan dorri biliau tanwydd a chwtogi ar allyriadau carbon. Wrth i nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd gynyddu a phryderon am yr hinsawdd ddwysáu, mae'r ystyriaethau hyn yn hollbwysig.

Dylid canmol Cymdeithas Tai Newydd am ei hymrwymiad diwyro i arloesedd, lles tenantiaid a chynaladwyedd. Adeiladwyd Cwrt Canna gan y contractwr lleol Canna Developments gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern arloesol - MMC). Wedi'u dylunio a'u modelu yn y Pecyn Cynllunio Passivhaus (PHPP) a'u hadeiladu o amgylch ffrâm bren cynaliadwy, gan ddefnyddio'r system adeiladu goddefol Beattie patent, mae'r cartrefi yn mwyafu aerglosrwydd ac yn isafu pontio thermol er mwyn lleihau'r galw am ynni'n sylweddol ac, yn ei dro, torri allyriadau carbon.

Mae'r cartrefi'n hynod o effeithlon o ran y defnydd o ynni. Ar ben hynny, mae ansawdd y llety heb ei ail. Mae Passivhaus yn codi safonau byw, yn gwahardd lleithder a llwydni, ac yn darparu awyru iach sy'n rhydd rhag llygryddion ac alergenau'r awyr. Bydd deiliaid yn mwynhau arwynebau cynnes a thymheredd cyfforddus drwy gydol y flwyddyn, heb unrhyw fannau oer, drafftiau na chyddwysiad yn y gaeaf, a dim gwres gormodol na goleithder gormesol yn yr haf.

Mae gan y cartrefi yng Nghwrt Canna ddeiliaid. Yn ddiweddar, symudodd Amber, yr oedd hi wedi bod yn cysgu ar soffa ei mam, a'i merch Aria, i'w cartref newydd. Dywedodd Amber: “Dwi'n teimlo mor ddiolchgar, dyw e ddim yn gymaint o straen bellach. Roeddwn i ar ben fy nigon ac wedi dechrau crio pan wnes i ddarganfod y byddwn i'n symud yma, mae cael mwy o sefydlogrwydd i ni'n dau'n rhyddhad. Dwi jyst mor hapus y gallwn ni nawr ddechrau adeiladu dyfodol”.

Ar draws y cwrt, mae tenant arall, o'r enw Alex, hefyd newydd symud i mewn gyda'i theulu ifanc. Dywedodd Alex, "Mae symud i'r cartref hwn wedi gwneud cymaint o wahaniaeth gyda phrisiau ynni fel y maen nhw. Mae cael eco-gartref sy'n olau, yn awyrog a gyda nenfydau uchel mor fuddiol... mae wedi bod yn rhyfeddol, y gwelliant yn ein hwyliau a'n lles.”

Roedd gwerth cymdeithasol yn rhan hynod bwysig o'r prosiect. Roedd y cynigion yn cynnwys cynllun adsefydlu carcharorion, a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r contractwyr Canna Developments - Partner i 'Beattie Passive Flying Factory'. Cyflogwyd cyfanswm o wyth carcharor o Garchar y Parc i greu modiwlau pren ac, yn ystod y gwaith adeiladu, cyflogwyd deuddeg o garcharorion o Garchar Prescoed hefyd. O'r unigolion hyn, cyflogwyd tri gyda Canna Developments ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Mae dau o'r

unigolion hyn yn parhau i weithio gyda'r contractwr yn llawn amser ac mae'r llall wedi ei benodi yn fforman safle - cyflawniad campus!

Ar ben hynny, erbyn mis Mawrth 2022, roedd 298 o wythnosau prentisiaeth wedi'u cwblhau gan 6 phrentis. O'r rhain, mae un yn parhau i weithio fel prentis ac mae tri wedi cael gwaith amser llawn. Sicrhawyd y prentisiaid trwy ddefnyddio Y Prentis, cynllun prentisiaethau adeiladu a rennir sy'n gweithredu ar draws de-ddwyrain Cymru. Bu Opportunity Knocks, rhaglen gyflogadwyedd sy'n gweithredu ym Mro Morgannwg, hefyd yn cefnogi un unigolyn i ennill ei brentisiaeth trwy gynnig cyrsiau hyfforddiant.

Roedd Cwrt Canna yn brosiect hynod uchelgeisiol, ond mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol oherwydd ymdrechion eithriadol pawb a gymerodd ran. Roedd yn bartneriaeth effeithiol a gyflwynodd dai ynni-effeithlon, cynaliadwy, ynghyd â llu o fanteision cymunedol a chymdeithasol cadarnhaol.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Uchelgais Cymdeithas Tai Newydd oedd cyflwyno cynllun tai cymdeithasol fforddiadwy a fyddai nid yn unig yn cyflawni rhagoriaeth bensaernïol o ran apêl esthetig, ond hefyd yn darparu lefelau rhagorol o effeithlonrwydd ynni gydag ôl troed carbon isel iawn.

Roedd gwerth cymdeithasol yn rhan annatod o'r prosiect ac mae'r cynllun wedi llwyddo i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd trwy ei raglenni prentisiaethau ac adsefydlu carcharorion.

Y weledigaeth oedd ailfeddwl sut y dylid mynd ati gyda chynllun tai cymdeithasol, sut y dylid ei adeiladu, sut y dylai edrych, sut y gellid lleihau'r effaith amgylcheddol, a sut y dylai fod o fudd i denantiaid o ran iechyd, lles a chyfanswm cost y ddaliadaeth. Mae wedi bod yn gynllun hynod o lwyddiannus.

Wedi'i ddylunio a'i fodelu yn y Pecyn Cynllunio Passivhaus (PHPP) a'i adeiladu gan Canna Developments, gan ddefnyddio system arloesol adeiladu fframiau pren Goddefol Beattie, mae'r cartrefi yng Nghwrt Canna yn mwyafu aerglosrwydd ac yn lleihau pontio thermol er mwyn gostwng y galw am ynni yn sylweddol hyd at 90%.

Mae'r cynllun yn ticio'r holl flychau ar gyfer cynllun tai cyfoes ac yna'n mynd ymhellach fyth i gyrraedd safonau Passivhaus o ansawdd adeiladu, cysur ac effeithlonrwydd ynni - gan dorri biliau tanwydd a chwtogi ar allyriadau carbon.

# Awel y Dyffryn

**Sefydliad arweiniol: Grŵp Cynefin**

**Sefydliad partner: Cyngor Sir Ddinbych**



**Datganiad o gefnogaeth**

Cefndir

Penodwyd Grŵp Cynefin yn 2016 yn bartner dewisol i Gyngor Sir Ddinbych i ddarparu datblygiad tai gofal ychwanegol a byw â chymorth newydd ar safle hen ysgol Lôn Ganol yng nghanol tref Dinbych. Roedd y Cyngor am ddatblygu cyfleuster newydd i ddiwallu anghenion newidiol pobl hŷn ac oedolion agored i niwed yn y sir.

Datblygwyd y cynllun £12m hwn (a ariannwyd trwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynefin) trwy waith partneriaeth newydd a chadarnhaol rhwng Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru i ddatblygu brîff ar y cyd ar gyfer cynllun cynaliadwy sy'n ymdrin ag anghenion hirdymor ychwanegol trigolion.

Y Cynllun

Mae Awel y Dyffryn yn cynnwys 66 o fflatiau gofal ychwanegol un a dwy ystafell wely hunangynhaliol sy'n cynnig opsiwn tai i bobl hŷn fyw'n annibynnol, ac i 'heneiddio'n dda'. Wedi'i ddylunio'n benodol fel parth sy'n ystyriol o Dementia, gall pobl â dementia fagu hyder a chyfarwyddyd wrth symud i mewn, neu wrth i ddementia ddatblygu dros amser.

Gan fod y lleoliad o fewn Ardal Gadwraeth Dinbych, ymgynghorwyd â CADW a Swyddog Cadwraeth Sir Ddinbych o'r cychwyn cyntaf a datblygwyd ymateb ar ffurf adeilad priodol sy'n gweddu i'w hamgylchynau ac yn darparu adeilad modern a hynod hygyrch. Roedd rhan o'r broses hon yn cynnwys ailgylchu llawer o'r cerrig gwreiddiol a defnyddio llawer o nodweddion addurniadol hen adeilad yr ysgol - a fynychwyd gan lawer o'r trigolion. Roedd hyn yn cynnwys ailosod ceiliog gwynt plwm addurnedig ac elfennau cerrig hoff annwyl o fynedfa'r ysgol a gafodd eu hadfer yn ofalus a'u hymgorffori yn yr adeilad newydd.

Mae ardaloedd cymunedol yn cynnwys gwaith celf

lleol a hanesyddol i annog cyfleoedd i hel atgofion hiraethlon.

Mae'r bwyty'n cynnig cinio cymdeithasgar bob dydd, a gweithgareddau eraill i hyrwyddo byw'n iach ac atal unigrwydd ac unigedd.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys 5 uned byw â chymorth a anelir yn benodol at bobl leol sydd angen llety ag anghenion mwy cymhleth, gyda'r gwasanaethau cymorth a gofal wedi'u teilwra wedi'u darparu gan Cartref Ni.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley: "Rydym yn hynod falch o fod wedi gweithio mewn partneriaeth ar y prosiect pwysig hwn i'n trigolion gyda Grŵp Cynefin. Bydd Awel y Dyffryn yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau a chefnogaeth a fydd yn helpu trigolion hŷn Sir Ddinbych i gynnal a gwella eu hannibyniaeth, ac ar yr un pryd cefnogi ein cymunedau i fod yn fwy cydnerth hefyd."

Dyluniad a chynllun ynni effeithlon

Er yn adeilad blaengar sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gyda chyfleusterau ynni isel ac uwch dechnoleg, mae hefyd yn cynnig cysur a naws gartrefol i'w drigolion hŷn. Mae'r adeilad yn lapio o gwmpas y prif erddi wedi'i dirlunio gyda chyfres o gyrtiau llai, rhai wedi'u cysgodi a rhai'n agored sy'n cynnig mannau awyr agored heddychlon er eu bod yn dafliad carreg i ffwrdd o amwynderau'r dref.

Dyluniwyd y cynllun i fod mor gynaliadwy ac ynni-effeithlon â phosib er mwyn lleihau biliau tanwydd a chostau rhedeg trigolion. Ystyriwyd cyfeiriadaeth y safle, micro-hinsawdd, gwasanaethau adeilad deallus o'r cychwyn cyntaf gyda'r cynllun yn elwa o olau'r haul goddefol, golau naturiol ac amddiffyniad rhag y gwynt, gan helpu i leihau'r galw am ynni. Un o'r prif amcanion ar gyfer y cysyniad 'Pentref Byw â Chymorth' oedd darparu datblygiad carbon isel sy'n cynhyrchu trydan ar y safle, gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy ar y cyd ag adeilad cadarn ac wedi'i insiwleiddio'n hynod o dda, gan roi llai o faich ar seilwaith gwasanaethau'r ardal gyfagos.

Defnyddiwyd dull 'ffabrig yn gyntaf', sef lefelau uchel o insiwleiddio thermol gydag egwyddorion rhagorol BREEAM wedi'u cymhwyso o'r camau dylunio trwodd i adeiladu.

- System wresogi cymunedol effeithlon
- Awyru Mecanyddol ac Adfer Gwres i leihau gwresogi'r gofod
- Systemau echdynnu ynni isel mewn ceginau ac ystafelloedd gwlyb
- Goleuadau LED effeithlon yn ymgorffori rheolaethau golau dydd mewn ardaloedd cymunedol
- Awyru naturiol sy'n darparu dyluniad llesol i covid
- Technoleg carbon isel a sero - Mae paneli solar yn caniatáu storio mewn batris pan fyddant yn fwy hyfyw

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Bu cydweithio cadarnhaol gyda Chyngor Sir Ddinbych yn thema allweddol drwy gydol y prosiect hwn, gan ffurfio cysylltiadau cadarnhaol sydd wedi sicrhau y datblygwyd cynllun rhagorol o safon uchel.

Mae neilltuo tenantiaid wedi'u gwerthuso'n ofalus mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, y darparwr gofal a Grŵp Cynefin, i sicrhau yr ystyrir yr holl anghenion. Mae hyn yn rhoi tawelwch meddwl i drigolion y gallant fwynhau annibyniaeth barhaus, ond gyda'r sicrwydd, os bydd eu hanghenion yn cynyddu, y gellir bodloni'r rhain heb orfod symud i gartref gofal preswyl.

Manteision i'r economi leol

Rhoddodd y cynllun y manteision a'r cyfleoedd canlynol i'r gadwyn gyflenwi leol, is-gontractwyr a phrentisiaethau:

- 573 o wythnosau prentis ar y safle
- 148 o wythnosau o brofiad gwaith ar y safle
- 136 o wythnosau o hyfforddi gweithwyr
- 35 o wythnos o hyfforddi is-gontractwyr
- Rhoddwyd 88% o werth y gwaith i is-gontractwyr a leolir yng Nghymru
- Roedd 50% o is-gontractwyr wedi'u lleoli 30 milltir o'r safle
- Roedd 65% o is-gontractwyr wedi'u lleoli yng Nghymru

Roedd y contract adeiladu hefyd yn darparu ar gyfer swm budd cymunedol a ail-fuddsoddwyd gyda chyllid cyfatebol i brynu adeilad segur yn Ninbych a fydd yn cael ei ddatblygu'n ased cymunedol bywiog.

# Adeiladu Cartrefi Gwell

**Sefydliad arweiniol: Cyngor Abertawe**

**Sefydliad partner: Ysgol Pensaernïaeth Cymru (WSA)**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Cyngor Abertawe wedi cwblhau ei gynllun adeiladu newydd diweddaraf yn Y Clâs; fel rhan o brosiect adfywio sy'n cynnwys 25 o Dai 3 Ystafell Wely; Ysgol Gymraeg newydd ac ardal chwarae well gerllaw'r ystâd newydd.

Mae galw mawr am dai cymdeithasol ar draws Abertawe a phrinder penodol o gartrefi teuluol mawr. Dewiswyd y cymysgedd o dai'n ofalus drwy ddadansoddi'r gofrestr anghenion ac asesiad o'r farchnad tai leol.

Datblygodd y Cyngor ei Safon Abertawe ei hun ar gyfer adeiladu newydd, y gellir ei gyfuno gyda'r technolegau hyn i greu Cartrefi fel Pwerdai.

Mae Safon Abertawe yn ddull Ffabrig yn Gyntaf, sy'n defnyddio egwyddorion allweddol y dyluniad passivhaus. Mae 25% yn well na rheoliadau adeiladu cyfredol, yn mwyafu defnyddio golau'r haul drwy gyfeiriadaeth, yn ymgorffori ffenestri gwydr triphlyg perfformiad uchel, lefelau uchel o inswleiddio màs, dim pontio thermol, a lefelau uchel iawn o aerglosrwydd gyda tharged o newid aer 4 gwaith y funud. Mae Safon Abertawe wedi'i gyfuno â thechnolegau arloesol ac adnewyddadwy i gynhyrchu Cartrefi fel Pwerdai, a all gynhyrchu a storio eu pŵer eu hunain ac sy'n cynnwys Pympiau Gwres o'r Ddaear, toeon PV solar, storio mewn batris a Systemau Adfer Gwres ac Awyru Mecanyddol.

Mae perfformiad pob cartref yn cael ei fonitro mewn partneriaeth ag Ysgol Pensaernïaeth Cymru (WSA). Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar berfformiad yr adeiladau, ac adborth tenantiaid ynglŷn â sut brofiad yw byw yn yr eiddo fel cartref. Y nod yw darparu tai o ansawdd uchel, carbon isel, tra effeithlon o ran ynni ar raddfa ac ar garlam. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr i asesu pa mor gyfforddus yw'r cartrefi i fyw ynddynt, yn ogystal â monitro a gwerthuso perfformiad yr adeiladau yn hanfodol er mwyn arfarnu sut mae'r dechnoleg hon yn gweithio yn y sector tai cymdeithasol.

Mae WSA wedi gosod offer monitro o bell i gywain data am dymheredd a'r defnydd o ynni heb beri anghyfleustra i'r aelwydydd. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i sicrhau bod tenantiaid yn cael y budd mwyaf ac yn lleihau tlodi tanwydd. Mae gan y tenantiaid fynediad i'r Ap Tesla sy'n darparu data amser real ar flaenau eu bysedd; yn dangos faint o ynni solar sy'n cael ei gynhyrchu; faint sy'n cael ei storio yn y batri a faint o ynni maen nhw'n ei dynnu o'r grid. Mae'r Ap yn helpu i hyrwyddo ymgysylltu ac yn galluogi'r tenant i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut a phryd y maen nhw'n defnyddio ynni.

Mae gan Gyngor Abertawe ymrwymiad cryf i gartrefi carbon isel neu ddi-garbon ac mae dileu tlodi tanwydd yn symbylydd allweddol ar ddatblygiadau tai newydd. Mae'r prosiect yn darparu cyfle fel safle prawf i Safon Abertawe a'r genhedlaeth nesaf o Dai Cyngor fel Pwerdai.

Mae'r cartrefi hyn wedi'u dylunio'n fewnol ac wedi cael eu hadeiladu gan gontractwr mewnol y Cyngor, Gwasanaethau Adeiladu. Mae'r ymagwedd gaffael arloesol hon, wedi'i dylunio a'i chyflwyno gan y tîm wedi canolbwyntio ar hyfforddiant, cynyddu sgiliau, cadwyni cyflenwi a chyflogaeth leol

Mae'r prosiect hwn yn gynllun braenaru allweddol prosiect Cartrefi fel Pwerdai y Fargen Ddinesig. Mae'r arloesiad technegol hwn yn archwilio sut gall y rhanbarth dyfu'r gadwyn gyflenwi a'r farchnad ar gyfer cartrefi carbon isel arloesol, i wneud Cymru'n arweinydd mewn adeiladwaith tai carbon isel neu ddi-garbon. Bydd y prosiect yn darparu dysgu a gwerthuso, i gefnogi'r dechnoleg hon ac yn parhau i brofi safonau wrth i dechnoleg solar a storio weithredol wella.

Mae'r cynlluniau hyn a adeiladwyd gan Gyngor Abertawe wedi darparu cartrefi cynaliadwy hynod effeithlon o ran ynni ac wedi cyflawni gofod da, yn ogystal â chreu swyddi a buddsoddiad lleol. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cymunedau a ddylunnir yn dda, sy'n chwarae rôl bwysig wrth gefnogi iechyd a lles, ac egwyddorion creu lleoedd allweddol o ddarparu seilwaith gwyrdd, llwybrau beicio a chyfleusterau/gwasanaethau lleol. Ni fu hyn erioed yn fwy perthnasol o ran dyfodol ôl-Covid.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Abertawe wedi ymrwymo i leihau tlodi tanwydd i denantiaid ar yr un pryd â darparu tai carbon isel.

Gyda sgôr EPC A, defnydd ynni bob dydd yr adeiladau yw 18.1kWh; y mae 10.6kWh ohono'n cael ei fewngludo o'r grid. Darperir gweddill yr ynni gan y paneli PV yn uniongyrchol ac o'r batri. Mae'r ynni a ddefnyddir gan y cartrefi Safon Abertawe 62% yn is ac mae ynni (y telir amdano) a fewngludir 78% yn is o'i gymharu â thŷ cyfartalog y DU o faint tebyg. Ar gyfartaledd bydd deiliaid y tai hyn yn talu tua 20% o'r ynni y byddai deiliad mewn tŷ cyffredin yn ei dalu. Yn ychwanegol at y perfformiad ynni, mae gan y cartrefi berfformiad cysur uwch; gyda thystiolaeth anecdotaidd gynnar yn awgrymu bod tenantiaid yn cysgu'n well ac yn sylwi ar lefelau egni gwell o'i gymharu â'u cartrefi blaenorol.

Yn ogystal â chyfyngu'r angen am wresogi, a helpu Abertawe i gyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon, mae'r datblygiad hwn hefyd yn hybu sgiliau a chyflogaeth yn Abertawe. Rheolodd tîm Gwasanaethau Adeiladu y Cyngor ei hun y prosiect, gyda'i staff ei hun yn gwneud y gwaith adeiladu gan ddefnyddio'r gadwyn gyflenwi leol lle bynnag y bo modd. Ar gyfer y prosiect gallwn ddangos bod tua 90-95% o'r nwyddau/gwasanaethau wedi'u caffael o fewn radiws 50 milltir.



# CONTRACTWR Â FFOCWS AR Y GYMUNED

Noddir gan:

Mae'r wobr hon yn cydnabod y cyfraniad y gall contractwyr ei wneud tuag at y gymuned ac economi leol.

## 50 Diwrnod i Wneud Gwahaniaeth

**Lovell**




**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Lovell yn ddatblygwr tai partneriaeth sydd nid yn unig yn darparu cartrefi o safon uchel ond yn rhagori ar yr hyn sy'n ofynnol i ddarparu gwerth ychwanegol a mynd yr ail filltir o ran cyfrannu at y gymuned a'r economi leol. Mae gennym dros 50 mlynedd o brofiad o adeiladu cymunedau cynaliadwy, daliadaeth gymysg mawr sy'n creu ymdeimlad o le ac yn galluogi pobl i fod eisiau byw, ffynnu a pherthyn i'r gymuned honno.

Yn 2021, dathlodd Lovell ei phen-blwydd yn 50 oed ac i ddathlu roeddem am roi rhywbeth yn ôl i gymunedau lleol drwy lansio 'Big Lovell 50 Challenge'. Bwriad y fenter hon oedd cefnogi'r busnes i roi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau y mae wedi helpu i'w creu. Canolbwyntiodd y fenter ar ddwy raglen, 'The 50 Day Difference' - menter wirfoddoli oedd yn gofyn i bob rhanbarth ddarparu 50 diwrnod o wirfoddoli i gymunedau lleol. Rhagorodd Lovell South Wales ar ei darged o 50 diwrnod trwy gyfrannu 75 diwrnod anhygoel o wirfoddoli rhwng Awst a Rhagfyr 2021 ar draws 6 menter ledled Cymru, a fu'n cynnwys:

Medi - daeth staff o Lovell ynghyd â Grŵp Pobl i weddnewid neuadd gymunedol boblogaidd iawn yn Maendy, Casnewydd. Cyfunodd y ddau dîm eu sgiliau i adnewyddu neuadd y Tŷ Cymunedol drwy baratoi, plastro, paentio'r waliau, newid y sgyrtinau ar un wal a gosod llawr newydd. Rhoddodd Lovell staff, amser, a deunyddiau yn garedig i helpu i wireddu'r prosiect mewn 5 diwrnod.

Meddai Ingrid Wilson, Cadeirydd Ymddiriedolwyr y Tŷ Cymunedol: "Rydym wrth ein boddau â'r ymroddiad a ddangoswyd i ni gan wirfoddolwyr a staff fel ei gilydd i gynorthwyo cymuned leol Maendy, gyda'i holl amddifadedd, i deimlo mor bwysig. Ar ran yr holl Ymddiriedolwyr, nid yw dweud 'diolch' yn hanner ddigon am ba mor ddiolchgar rydyn ni i gyd yn teimlo. Ni fyddwn ni'n anghofio'r haelioni hwn am amser hir iawn"

Hydref - ymunodd Lovell â Chymdeithas Tai Merthyr Tudful i glirio clawdd wedi'i ordyfu, ac yna plannu blodau gwyllt wrth ymyl bloc o fflatiau oedran penodol ym Merthyr er mwyn creu man awyr agored mwy taclus a phleserus i drigolion ei fwynhau. Bu i wirfoddolwyr o Lovell, ochr yn ochr â gwirfoddolwyr o CTMT, frwydro yn erbyn y glaw i helpu tocio coed a llwyni wedi'u gordyfu, glanhau'r ardal, a phlannu amrywiaeth o blanhigion dros ddau ddiwrnod.

Tachwedd - bu Lovell yn cydweithio â Chartrefi Dinas Casnewydd a Chadwch Gymru'n Daclus i lefelu ardal yng Ngerddi Alway, a gosod sylfaen concrit fawr i dŷ gwydr 6x6tr a sied 5x4tr sefyll arni. Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer adeiladu'r ardd yn yr ardal benodol honno gan Gartrefi Dinas Casnewydd, a gynghorodd fod y safle yn hanesyddol yn lleoliad a fu'n dioddef o dipio anghyfreithlon lefel isel ac bod yr eiddo cyfagos weithiau'n cwyno am ordyfiant o'r safle. Rhoddwyd yr holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd gan

Lovell.

Rhagfyr - bu i 12 o wirfoddolwyr Lovell, 2 wirfoddolwr o Cadwyn a chriw o wirfoddolwyr lleol godi sbwriel o amgylch datblygiad tai Y Felin yng Nghaerdydd, gan gasglu 24 bag o sbwriel mewn ychydig oriau yn unig.

Rhagfyr - ymunodd 6 gwirfoddolwr o Lovell â gwirfoddolwyr eraill o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'r ymddiriedolaeth bywyd gwyllt lleol i helpu i glirio ac adeiladu rhwystr gwehyddu naturiol yng Nghoetir Bryn Sirhywi, sef lle i'r gymuned leol fwynhau a dysgu am grefft coedwig yn Nhredegar.

Rhagfyr - ymunodd Lovell â Melin Homes gyda 6 gwirfoddolwr i glirio ardal coetir ac adeiladu ystafell ddosbarth awyr agored yn Ysgol Gynradd Castle Park yn Caldicot.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

"Mae ein Big 50 Challenge wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac rydym yn falch iawn o'n staff sydd wedi gweithio mor galed ar y prosiectau dan sylw, gan ein galluogi i barhau i helpu'r cymunedau sy'n amgylchynu ein cartrefi. Mae rhoi yn ôl i'r cymunedau rydyn ni wedi helpu i'w hadeiladu yn rhan fawr o'n gwerthoedd yn Lovell, ac yn ddathliad o ben-blwydd ein partneriaeth gyntaf." Gemma Clissett, Cyfarwyddwr Partneriaethau – Lovell.

Roedd yr ail fenter yn canolbwyntio ar '50 miles to change a life' - a welodd aelodau o dîm Lovell naill ai'n cerdded, rhedeg, beicio neu'n nofio o leiaf 50 milltir yr un i godi arian ar gyfer elusen ddigartrefedd ieuenctid genedlaethol, Centrepoint. Fe wnaeth Big Lovell 50 Challenge hynny'n union drwy godi £5,000 i'r elusen.

Yn ogystal, mae tîm Lovell De Cymru wedi llofnodi contractau ar y cynlluniau tai fforddiadwy a ganlyn sy'n darparu lleoliadau prentisiaeth gyda'i bartneriaid, gan gynnwys:

- Pentref Gardd y Siartwyr, Pontllanfraith gyda Pobl – 6 prentis
- Crick Road, Porth Sgiwed gyda Chartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy – 16 prentis
- Royal Victoria Court, Casnewydd gyda Tirion – 20 prentis
- Gerddi Locke, Casnewydd gyda Pobl – 10 prentis
- Adfywio Ringland, Casnewydd gyda Chartrefi Dinas Casnewydd– 16 prentis
- Ysbyty Lansdowne, Caerdydd gyda Hafod – 10 prentis



# CREU LLEOEDD CADARNHAOL

Mae'r wobr hon yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol amrywiaeth o gyrff, sefydliadau a grwpiau lleol wrth adnewyddu ac adfywio cymunedau a chymdogaethau lleol. Mae'n cydnabod hefyd bod gwelliannau diriaethol yn mynd llaw yn llaw â datblygiadau cymdeithasol ac economaidd i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl.

Mae'n cydnabod gweithgarwch sy'n ceisio creu lleoedd sy'n mwy iach, llewyrchus, teg, cryf clyfar a gwyrdd.

## Prosiect Tyfu Cymunedol Ynys Môn

**Sefydliad arweiniol: Cyngor Sir Ynys Môn**

**Sefydliad partner: The Wallich**



**Datganiad o gefnogaeth**

Prosiect aml-asiantaeth yw hwn sy'n bodoli i wella a chefnogi amrywiaeth eang o unigolion ar draws Ynys Môn.

Mae'r tir wedi'i ddarparu gan CareLink. Prif sefydliad partner y prosiect yw The Wallich ochr yn ochr â Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn.

Rydym wedi gwneud defnydd o dir diffaith yn Llangefni i dyfu ffrwythau a llysiau ffres. Darparwyd arian gan gronfa tlodi ac ansicrwydd bwyd Llywodraeth Cymru. Datblygwyd y safle gan Wild Elements ac mae bellach yn weithredol. Bydd y safle'n cael ei gynnal a'i gefnogi gan unigolion sy'n derbyn cymorth gysylltiedig â thai drwy The Wallich. Byddai hynny'n cynnwys unigolion sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Unwaith y bydd y safle yn dechrau cynaeafu, bydd y bwyd a dyfir yn cael ei roi i'n banciau bwyd ac i Bwyd Da Môn, sef prosiect lleihau gwastraff bwyd.

O'r cychwyn cyntaf, mae'r gwaith wedi cael ei arwain gan gleientiaid. Sbardunir syniadau, ymgynghori ac awgrymiadau gan gleientiaid.

Cydnabyddir y mater trwy'r galw cynyddol sylweddol ar ein banciau bwyd. Yr argyfwng costau byw. Effaith Covid a thlodi ar les. Mae'n ffaith bod gennym yr un faint o arian i barhau'r un faint o amser, er hynny gallwn brynu llai oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau.

Mae'r ymagwedd hon nid yn unig yn cefnogi cleientiaid The Wallich, trwy integreiddio cymunedol, lles a theimlo'n rhan o rywbeth positif, mae hefyd yn sicrhau mwy o fynediad at ffrwythau a llysiau maethlon ac iach a dyfir gartref a gaiff eu dosbarthu a'u bwyta gan lawer o drigolion Ynys Môn.

Gwasanaethau Tai Ynys Môn sy'n arwain y prosiect.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Safle wedi'i gyflawni

Mae Wild Elements wedi gosod a datblygu'r safle

Mae'r safle'n cael ei ehangu gan brosiectau llai a redir gan The Wallich, gan gynnwys datblygu mainc i gleientiaid eistedd arno a mwynhau'r heddwch a'r llonyddwch.

Mae'r diwrnod agored wedi digwydd, gan wahodd y banciau bwyd a Bwyd Da Môn,

Disgwylir y cynhaeaf cyntaf ym mis Awst a bydd y bwyd ohono'n cael ei ddefnyddio gan gleientiaid The Wallich, dau fanc bwyd a Bwyd Da Môn.

# Canolfan Dysgu Cymdogol

**Sefydliad arweiniol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

**Sefydliad partner: Cartrefi Cymoedd Merthyr**



**Datganiad o gefnogaeth**

Datblygwyd y prosiect, sy'n arloesol ac yn gydweithredol, mewn partneriaeth â Thimau Tai Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Plant, Cyflogadwyedd, a phartner RSL - Merthyr Valleys Homes i ddatblygu llety â chymorth poblogaidd ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal neu sy'n gadael gofal a / neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Gan ddefnyddio bloc hyfforddi sydd eisoes yn bodoli (1 o 3) roedd modd i ni sicrhau cyllid gan yr Awdurdod a chronfa Gyfalaf Cronfa Gofal Integredig (ICF) Llywodraeth Cymru i ddatblygu adeilad a danddefnyddir ar hyn o bryd i ddarparu 5 uned o lety un a dwy ystafell wely hunangynhaliol. Bydd y llety hwn ar gyfer y cyfnodau ar ôl gadael gofal maeth neu lety gofal preswyl rhianta corfforaethol.

Mae'r adeilad, a leolir ar ystâd Gurnos ym Merthyr Tudful, yn gweithredu ac yn cael ei adwaen fel Canolfan Dysgu Cymdogol (NLC) ar hyn o bryd ac yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi mynediad i hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ac oedolion di-waith gyda'r nod o gynyddu eu mynediad at gyfleoedd gwaith. Ar hyn o bryd mae'r safle yn cynnwys 4 adeilad (3 bloc ac uned fanwerthu), sy'n cynnig ystod o hyfforddiant galwedigaethol, lle gall dysgu drwy brofiad ddigwydd. Mae gweithdai gwaith saer, plymio /metel ac ardaloedd gweithdai adeiladu eraill; uned trin gwallt gydag offer salon gwallt proffesiynol, odyn crochenydd a gweithdy cerameg i enwi ond rhai, ynghyd â swyddfeydd i staff a fflatiau sy'n wag ar hyn o bryd.

Mae'r cynllun cyfalaf sy'n mynd rhagddo'n adnewyddu un adeilad (Bloc 2) fel 5 fflat hunangynhwysol a fydd yn cael eu staffio 24/7 gan ddarparwr cymorth, ac yn adleoli gweithdai presennol i'r adeiladau sy'n weddill, gan olygu mân addasiadau a galluogi rhan o'r ganolfan ddysgu i barhau ar agor i'r bobl ifanc. Y bwriad yw creu canolfan llety unigryw lle mae gan bobl ifanc fynediad uniongyrchol i lety addas sy'n fodern ac yn ddiogel, a hefyd rhoi mynediad iddynt at hyfforddiant ar y safle, a allai arwain at addysg uwch drwy fynychu eu coleg lleol a/neu gyflogaeth yn y dyfodol.

Mae hyn yn galluogi i berson ifanc deimlo ei fod yn cael ei gefnogi i fyw yn annibynnol, cael cymorth gysylltiedig â thai wrth reoli aelwyd, rheoli ei gyllid, bwyd/maeth/coginio, hunan-ofal, a hylendid ei gartref ei hun ar yr un pryd â chael ei gefnogi gan staff ar y safle. Bydd hyn yn cael ei weld fel dull camu i fyny i'r drefn o fyw'n fwy annibynnol yn ei lety ei hun, gan gyfyngu ar yr angen am gymorth pellach ac atal unrhyw anghenion rhag dwysáu. Gyda'r cymorth a'r hyfforddiant i staff yma ar y safle, y gobaith yw y bydd llawer o bobl ifanc yn mynd ymlaen i fynychu'r coleg lleol, a neu gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth, fel y bo angen.

Bydd y cyfleuster cyfan yn cael ei ailwampio i ddenu'r bobl ifanc nid yn unig i'r llety o ansawdd gwych ond i'r cynnig hyfforddiant a sgiliau gwych sy'n helpu nhw i dyfu a chreu dyfodol mwy disglair. Bydd y prosiect cyfan yn cael effaith wych ar greu lleoedd, gan adfywio nid yn unig yr adeilad a danddefnyddir a diraen fel llety, ond pob adeilad a'r cyffiniau, gan wneud hwn yn lle bywiog a deniadol i fyw, ymweld ag ef ac ennill sgiliau a hyfforddiant fydd yn arwain at gyflogadwyedd.

Bydd y prosiect yn creu swyddi lleol yn yr elfen adeiladwaith, yn ogystal â'r gefnogaeth a'r darpariaethau parhaus ar y safle.

Bydd yr ardal yn cael ei thirlunio a'i gorffen at safon uchel ac yn denu mwy o bobl o'r gymuned leol i ddefnyddio'r gwasanaethau fydd ar gael yn y ddau adeilad ar y safle ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac addysgol a fydd yn gwella lles.

Bydd y prosiect nid yn unig yn atal digartrefedd ond yn gwella:

- Iechyd gan gynnwys iechyd meddwl
- Lles
- Sgiliau Bywyd
- Ymgysylltu mewn addysg
- Cyflogaeth
- Cynhwysiad Cymdeithasol

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mae'r prosiect hwn yn rhoi pwyslais mawr ar atal ac ymyrryd gynnar i bobl ifanc (16 – 24 oed) sydd wedi bod yn y system ofal ac yn cael eu hystyried fel Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA), plant sy'n gadael gofal maeth.

Bydd darparu llety i bobl ifanc, ynghyd â chymorth a hyfforddiant mynediad yn cynnig canlyniadau cadarnhaol.

Mae'r prosiect nid yn unig yn gwella priodoleddau gweladwy'r adeiladau ond yr ardal gyfagos a'r gymuned drwy dirlunio, llwybrau cerdded gwell, mynediad, etc.

Yn ogystal â chreu mwy o lety i ddiwallu angen anferth, rydym wedi creu swyddi drwy gefnogaeth barhaus gysylltiedig â thai sydd i'w darparu yn y ganolfan.

Bydd y gymuned hefyd yn elwa o ofod cymunedol lle gellir gwella lles, cynhwysiad cymdeithasol, cyflogadwyedd a sgiliau er mwyn creu dyfodol cynaliadwy gwell ac adfywio'r ardal i fod yn fwy deniadol a gwahoddgar.

# Y Felin, Treganna

**Sefydliad arweiniol: Lovell**

**Sefydliadau partner: Cartrefi Tirion, Cymdeithas Tai Cadwyn, Cymdeithas Adeiladu'r Principality a Llywodraeth Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Ar safle hen felin bapur Arjo Wiggins wrth Bont Elái yng Nghaerdydd - mae Y Felin yn trawsnewid y safle tir llwyd 53 erw diffaith i un o gymunedau preswyl mwyaf atyniadol a chynaliadwy Caerdydd.

Mae'r partneriaid Lovell, Grŵp Tirion, Cymdeithas Tai Cadwgan, cymorth gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth ariannol gan Gymdeithas Adeiladu Principality wrthi'n datblygu rhaglen adfywio trefol fwyaf erioed Cymru yn Y Felin, gydag 800 o gartrefi newydd daliadaeth gymysg.

Gan ymdrin â'r angen am dai fforddiadwy, mae dros hanner y cartrefi (442) yn cael eu cyflwyno am rent gostyngol/cymdeithasol gyda Chartrefi Tirion, wedi'u rheoli gan Gymdeithas Tai Cadwyn. Cyflwynwyd gweddill y cartrefi (358) ar y farchnad agored gan Lovell.

Hyd yma mae'r prosiect wedi llwyddo i gyflwyno'r 358 o gartrefi ar werth ar y farchnad agored, gan werthu allan flwyddyn cyn y rhaglen, a 180 o gartrefi fforddiadwy ar draws 2 gam. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gam olaf (Cam D) y rhaglen, a fydd yn gweld 262 o dai fforddiadwy pellach, yn ogystal â phum uned manwerthu, yn cael eu cyflwyno i'w rhentu drwy Cartrefi Tirion a Chymdeithas Tai Cadwyn.

Mae Y Felin yn sicr yn gynllun cymhleth sy'n mynd ymhell y tu hwnt i adeiladu cartrefi newydd yn unig. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys adeilad cymunedol, parciau a rhodfeydd hardd â choed ar eu hyd.

Datblygwyd y cynllun meistr drwy 6 egwyddor arweiniol:

- Adfer tirwedd Afon Elái
- Lleoliad y gymuned gynaliadwy newydd
- Creu 'lle' sydd wedi'i ymwreiddio yn y dirwedd
- Creu cymuned seiliedig ar rwydwaith o strydoedd sy'n ffafrio cerddwyr, beicio a chludiant cyhoeddus.
- Darparu cymysgedd o ddefnyddiau tai, masnachol a chymunedol
- Ansawdd a naws unigryw y dyluniad.

Mae'r camau cyntaf wedi'u diffinio gan groywder y cynllun meistr, sydd wedi'i gyfeirio gan gyfyngiadau a chyfleoedd y safle. Y nodweddion pwysicaf:

- Mynediad ar hyd Meingefn y Gymdogaeth sy'n rhedeg o'r Dwyrain i'r Gorllewin
- Cysylltiad â Pharc Glan yr Afon trwy'r Strydoedd Gwyrdd sy'n rhedeg o'r Gogledd i'r De
- Gofodau a rennir fel ffocws y lleiniau datblygu i greu cymdogaethau penodol.

O'r cychwyn cyntaf y weledigaeth ar gyfer Y Felin oedd darparu cartrefi ansawdd uchel, hyblyg a

chynaliadwy o fewn fframwaith y cynllun meistr yr oedd ganddo 'creu lle' fel prif ysgogydd. Cartrefi'n seiliedig ar rwydwaith o ofodau croyw ac ansawdd uchel a rennir gydag isadeiledd tirlun cryf i feithrin datblygiad cymuned newydd. Rydym yn falch o fod yn creu lle y gall pobl fyw a ffynnu ynddo a chreu cysylltiadau rhwng hanes cyfoethog a bywiog yr ardal, ei phresennol a'i dyfodol.

Yn awr mae ailddatblygu Y Felin yn darparu'r cysylltiad colledig hanfodol ar lwybr Elái darluniaidd, gan alluogi pobl i werthfawrogi'r fioamrywiaeth gyfoethog a chynefinoedd amrywiol ar hyd yr afon o Sain Ffagan i Fae Caerdydd. Roedd Afon Elái yn rhan hanfodol o hanes yr ardal a llwyddiant y Felin. Bydd bioamrywiaeth gyfoethog yr ardal yn cael ei diogelu a'i gwella fel y bydd modd i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

Mae tîm y bartneriaeth wedi ennyn diddordeb y gymuned leol yn uniongyrchol ac wedi cyflawni nifer mawr o fentrau cymunedol. Yn benodol ein prosiect 'Ein Hatgofion o'r Felin' sy'n ceisio dod â phobl a fu'n gweithio ym Melin Arjo Wiggins ynghyd i rannu eu hatgofion a chreu etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd y prosiect yn parhau trwy gydol y datblygiad wrth i ni ddathlu treftadaeth Y Felin ar draws y safle - yn benodol ym Mharc Glan yr Afon a chanol y pentref.

Yn ogystal â darparu cyfle adfywio anhygoel o ran datblygu safle tir llwyd, bydd Y Felin hefyd yn rhoi hwb gwerthfawr i'r diwydiant adeiladu lleol trwy ei ymrwymiad i ddefnyddio gweithwyr medrus o'r gymuned leol yn y datblygiad.

## Canlyniadau a chyflawniadau

- Adnewyddu'r ystafelloedd newid yng nghlwb rygbi Parc Jiwbilî yn Nhreganna. Mae'r gwelliannau wedi trawsnewid yr adeilad yn llwyr gan gynnwys gosod cegin newydd, ystafell gawodydd a boeleri yn ogystal â goleuadau newydd a tho newydd. At hynny, crëwyd ystafell cit newydd, newidiwyd y nenfydau, adnewyddwyd y cyfleusterau toiled ac ailaddurnwyd y clwb.
- Darparu ffensys ar gyfer rhandir sy'n cael ei redeg gan sefydliad cyn-filwyr yng Nghaerdydd. Mae rhwydwaith Partneriaeth Cyn-filwyr Cymru yn cynnwys partneriaid o'r sector preifat, awdurdodau lleol, cyfleusterau addysg a chymdeithasau tai, sydd i gyd yn cyfrannu at les cannoedd o gyn-filwyr a'r rhai sy'n gadael y lluoedd arfog, yn ogystal â theuluoedd aelodau o'r lluoedd arfog.
- Crëwyd sied feiciau i storio beiciau Ysgol Gymraeg Treganna ar Sanatorium Road yn ddiogel, tarmaciwyd llwybr newydd er diogelwch rhieni a gwarcheidwaid wrth iddynt gasglu eu plant a heriwyd y disgyblion trwy brosiect i enwi un o'r strydoedd ar y datblygiad.
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2022
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2020
- Gwobrau Eiddo Insider – Gwobr Datblygiad y Flwyddyn 2019
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2018
- NHBC – Gwobr Seal of Excellence 2018
- Gwobrau Darllenwyr First Time Buyer – Cartref Teuluol Gorau First Time Buyer 2018

# CEFNOGI BYWYDAU ACTIF

Mae'r wobr hon yn dathlu landlordiaid sydd wedi chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i amrywiaeth eang o bobl. Mae'r prosiectau gydweithio'n uniongyrchol ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i rymuso pobl i gael ansawdd bywyd dymunol, gan gefnogi eu nodau, uchelgeisiau a dyheadau trwy ddarparu cartrefi ac amgylchedd cefnogaeth o ansawdd da.

## Gweithgareddau Pobl Hŷn

**Grŵp Cynefin**



**Datganiad o gefnogaeth**

Grŵp Cynefin yw'r unig gymdeithas tai gyda chartrefi ym mhob un o chwe sir Gogledd Cymru a gogledd Powys. Fel rhan o'u stoc mae gan Grŵp Cynefin 7 cynllun llety Gofal Ychwanegol a Lloches ar draws Gogledd Cymru.

Ar ôl y pandemig, penderfynwyd creu 'Cymdeithas Cynefin' gyda'r nod o ailgychwyn gweithgareddau wyneb yn wyneb i'w mwynhau gyda'i gilydd ar draws y cynlluniau pobl hŷn mewn ffordd ddiogel er mwyn lleihau unigedd ac unigrwydd cymdeithasol. Cynhaliwyd dros 60 sesiwn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys sgyrsiau hanesyddol, sesiynau garddio, trefnu blodau, cyngherddau, Wimbledon a Mefus, a llawer mwy.

Sicrhawyd cyllid i ddarparu sgriniau awyr agored mawr, taflunyddion a seinyddion ar gyfer y cynlluniau fel y gallent fwynhau gweithgareddau'n rhithwir ac yn ddigidol. Sefydlwyd offer hefyd er mwyn i denantiaid gysylltu â ffrindiau a theulu dros zoom yn y 'Zoom Rooms' a grëwyd at y diben. Aeth Grŵp Cynefin ati i ffurfio partneriaeth gyda Chymunedau Digidol Cymru sy'n cynnig dyfeisiau ar fenthyg i denantiaid i wella'u sgiliau digidol.

Ymhlith y gweithgareddau eraill, roedd:

Clybiau llyfrau - roedd y rhain yn hynod boblogaidd gyda 26 o denantiaid yn cymryd rhan, trefnodd Grŵp Cynefin bartneriaeth â llyfrgelloedd lleol gan alluogi tenantiaid i ddewis llyfr newydd rhyngddynt bob mis, cyn iddynt gyfarfod wedyn i drafod y llyfr.

Rhoddodd Addysg Oedolion Cymru 4 sesiwn Celf a Chrefft ac Ysgrifennu Creadigol mewn 2 gynllun a fynychwyd gan 16 o'r tenantiaid. O'r rheiny, nododd 15 eu bod yn awyddus i fynychu cwrs arall. Mae hyn yn awr yn cael ei ehangu i'r holl denantiaid, a bydd mwy ar gael.

Mae sesiynau cerddorol - Ensemble Cymru, Canolfan William Mathias, Cerddoriaeth Gymunedol Cymru a Chymunedau Rhyngweithiol Sir Ddinbych wedi darparu sesiynau cerddorol i denantiaid, gyda pherfformiadau, sesiynau cyd-ganu a hel atgofion trwy gerddoriaeth. Mae 15 o denantiaid yn mynychu ar gyfer pob un o'r 3 sesiwn, mae Grŵp Cynefin yn ceisio dod o hyd i gyllid i barhau â'r sesiynau hyn.

Te Prynhawn Dydd Gŵyl Dewi - daeth 140 o denantiaid i'r digwyddiadau hyn ar draws y cynlluniau a chodwyd £273.28 ar gyfer Marie Curie.  Bu i denantiaid hefyd gynnal boreau coffi i gefnogi 'Y Te Mawr' a chodwyd £406.80 i'r GIG.

Darparodd Armchair Exercises - Dementia Go and Re-engage Ddosbarthiadau Ymarfer Corff Cadair Freichiau a sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar ar-lein ar gyfer tenantiaid, cynhaliwyd y rhain yn rhithwir ac fe'u cyrchwyd trwy'r sgriniau mawr. Nododd y tenantiaid eu bod yn frwd dros gynnal eu hannibyniaeth a sicrhau bod ymarfer corff yn rhan rheolaidd o'u hwythnos.

Yn ystod 2021 fe agorodd cynllun gofal ychwanegol newydd, Awel y Dyffryn, yn Ninbych gyda 66 o fflatiau. Gweithiodd y tîm Mentrau Cymunedol gyda'r tenantiaid i ddatblygu amserlen o weithgareddau. Crëwyd calendr llawn o sesiynau ar gyfer yr holl denantiaid i sicrhau bod pob tenant yn teimlo iddynt gael eu croesawu yn eu cartrefi newydd ac i greu eu cymuned eu hunain o fewn y cynllun. Cynhaliwyd

sesiynau gyda Chymunedau Gweithredol Sir Ddinbych gyda sesiynau fel Celf a Chrefft, Canu a Sgwrsio a Boreau Coffi i gyd yn hynod lwyddiannus.

Ers y pandemig mae'r angen am weithio mewn partneriaeth wedi mynd yn bwysicach fyth, a thrwy gydweithio roedd Grŵp Cynefin yn gallu cyflwyno mwy nag erioed o'r blaen i denantiaid hŷn mewn cyfnod pan fu wir angen am hynny. Gwnaethpwyd 9 cysylltiad cryf gan alluogi i ystod eang o weithgareddau ddigwydd, galluogodd hyn i denantiaid hŷn Grŵp Cynefin fyw'n annibynnol, dysgu sgìl newydd a byw bywydau hapus ac iach.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mae tenantiaid wedi nodi iddynt fwynhau'r sesiynau a gynhaliwyd yn fawr, eu bod wedi dysgu sgiliau newydd a bod y cyfan wedi rhoi rheswm iddynt fynd allan o'u fflatiau ar adeg pan oedden nhw'n teimlo'n eithaf ofnus am y pandemig a sut beth fyddai eu dyfodol.

"Mae gweithgareddau Cymdeithas Cynefin yn bwysig iawn. Mae dysgu gwahanol bethau yn ddifyr ac yn cadw'r ymennydd i weithio. Weithiau rwy'n ofni ein bod yn mynd ychydig yn sefydliadol. Yr unig gŵyn sydd gen i yw mai dim ond unwaith y mis y mae'n digwydd. Yn fwy aml, plîs?" Tenant Hafod y Gest

"Defnyddiol, diddorol ac ysbrydoledig. Edrych ymlaen at sesiynau pellach" Tenant Maes y Môr, Celf a Chrefft

"Hoffwn i gael mwy os yw fel yr un yma. Dwi'n ddiwerth fel arlunydd ond fe wnaeth Jane i mi deimlo fel Rembrandt erbyn i mi orffen!!" Tenant Awel y Coleg, Celf a Chrefft.

# Maes Y Môr Extra Care's Happy Health Living Project

**Wales & West Housing**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae cynllun gofal ychwanegol Maes y Môr yn Aberystwyth wedi darparu cefnogaeth cysylltiedig â thai sydd wedi trawsnewid bywydau ei drigolion. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion i ddarparu opsiwn newydd ar gyfer byw'n annibynnol yn Aberystwyth.

Mae'r cyfleuster 56 o fflatiau yn gartref i unigolion o wahanol oedrannau sydd ag ystod o anghenion cymorth ac yn cynnig llawer mwy na tho dros eu pennau yn unig. Darperir gofal a chefnogaeth gan Castell Ventures, a chwmni Grŵp Tai Wales & West, sy'n sicrhau amgylchedd tai a chymorth integredig o ansawdd uchel.

Mae teimlad 'sîn stryd' i ddyluniad yr adeilad, gyda ffenestri ym mhob fflat yn edrych dros goridor canolog i helpu i atal teimladau o unigedd. Mae pob fflat yn hygyrch ac mae ganddynt eu hystafell wely, ystafell ymolchi, cegin ac ystafell fyw eu hunain – felly mae'r trigolion yn cynnal annibyniaeth cael eu cartref eu hunain, ond gyda thawelwch meddwl mynediad at gymorth ychwanegol ar y safle. Mae'r coridorau'n eang i ddarparu rhwyddineb symud i drigolion, y mae llawer ohonynt yn defnyddio sgwteri symudedd a chymhorthion cerdded.

Dyluniwyd y cynllun i fanteisio i'r eithaf ar ei leoliad ysblennydd; Mae gan y bwyty a llawer o'r fflatiau olygfeydd môr eithriadol.

O'r cychwyn cyntaf defnyddiwyd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ymweliadau cartref yn rhan allweddol o'r broses ymgeisio. Mae staff Tai Wales & West a Chyngor Sir Ceredigion yn ymweld â'r ymgeiswyr yn eu cartrefi i ddeall eu hanghenion, beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut y gallai gofal ychwanegol eu helpu i fyw bywyd mwy egnïol.

Mae gan y cynllun Swyddog Llesiant sydd wedi'i leoli yn yr adeilad. Diben y rôl yw cefnogi trigolion i fyw bywydau llawn, gweithgar, hapus, ac iach drwy greu'r amgylchedd gorau posib iddynt fyw'n annibynnol a chynyddu eu potensial. Trefnir gweithgareddau ar y safle, gan gynnwys cwisiau, gemau, a digwyddiadau cerddoriaeth. Maen nhw hefyd yn rheoli diwrnodau allan rheolaidd ar gyfer y trigolion i atyniadau lleol, gan gynnwys cyrchfannau glan môr a'r theatr.

Mae Rempods wedi'u gosod i wella ansawdd bywydau pobl â dementia. Maent yn creu teimlad dilys o gerbyd trên ac yn darparu teithiau trên ymdrochol drwy gefn gwlad o gysur lolfa gymunedol y cynllun.

Mae'r trigolion hefyd wedi cael eu grymuso a'u cefnogi i ddylunio a chreu gerddi newydd mewn partneriaeth â Ian Williams Cyf, un o gontractwyr Tai Wales & West.

Er mwyn cefnogi trigolion i gymryd rhan yn y gweithgareddau y maent eisiau ymwneud â nhw y maent efallai'n cael trafferth eu cyrchu, mae'r tîm wedi trefnu ymweliadau rheolaidd gan grŵp eglwys, siop bentref, siop trin gwallt, tylinwr corff/adweithegydd, a chiropodydd.

Un o'r sesiynau egnïol mwyaf poblogaidd yn y cynllun yw Ioga Cadair. Cefnogodd y tîm y trigolion i sicrhau cyllid ar gyfer sesiynau rheolaidd. Gan ddarparu ffynhonnell ymarfer corff ardderchog i drigolion a ffynhonnell ymlacio sydd i'w chroesawu.

Nid oedd cartref blaenorol Peter a Doris Winkle yn addas ar gyfer eu hanghenion mwyach. "Mae symud i Maes y Môr wedi nodi tro newydd bendigedig yn ein bywydau. Rydym wedi cwrdd â phobl newydd ac mae gennym fwy o ffrindiau nawr nag erioed."

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mae trigolion rhwng 22 a 95 oed yn cael pecyn gofal penodedig sy'n gweddu i'w hanghenion.

Sgôr boddhad cyffredinol o 8.6/10 yn yr arolwg diweddar (29 o drigolion). Rhoddodd 11 o drigolion sgôr 10/10 i Faes y Môr.

Mae'r ymagwedd bartneriaeth rhwng Tai Wales & West, Cyngor Sir Ceredigion a Castell Ventures wedi sicrhau bod Maes y Môr yn cyflwyno'r deilliannau gorau i bobl fel y dengys tystebau gan drigolion

Mae'r cynllun wedi chwarae rôl bwysig wrth leihau unigrwydd ac unigedd. Meddai Jean Aldridge, un o'r trigolion: "Cyn symud yma doeddwn i ddim yn gallu cael bath na chawod gan nad oedd gennym ni'r cyfleusterau. Dwi'n fyddar iawn ac roedd rhaid i ni roi'r gorau i'n car ni, roedd hynny wedi'n hynysu ni. Cyn gynted ag y cyrhaeddais Faes y Môr, roeddwn i'n teimlo'n ddiogel, mae bywyd yn haws o lawer nawr nag o'r blaen."

Ac yntau'n gadael gofal, mae Brodie Gadsby wedi cael dechrau newydd, gan sicrhau swydd newydd yn ogystal â chartref newydd wrth iddo symud i Faes y Môr. "Symudais o gwmpas llawer ar ôl i mi adael gofal maeth - roeddwn yn aml yn unig iawn ac yn cael bywyd yn anodd. Rwy'n hapus iawn gyda'r ffrindiau newydd dwi wedi eu gwneud yma - maen nhw fel teulu i mi."



# CYNALADWYEDD YM MAES TAI

Noddir gan: BLAKE MORGAN

Mae'r sector tai, fel llawer o rai eraill, yn wynebu'r her o dorri allyriadau carbon er mwyn cyrraedd targedau sero-net Llywodraeth Cymru erbyn 2050.

Mae'r wobr hon yn dathlu sefydliadau a all ddangos eu bod wedi goresgyn rhai o'r heriau sylweddol wrth dorri allyriadau carbon.

## Ôl-osod ynni Tŷ Cyfan 6 Byngalo Teras yn Abertawe Gan Anelu at Dargedau Carbon Sero

**Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE), Ysgol Pensaernïaeth Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae chwe byngalo yn ardal Abertawe fwyaf wedi cael eu ôl-osod â system ynni tŷ cyfan arloesol fel rhan o gydweithrediad rhwng tîm Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd a Chyngor Abertawe, gyda chefnogaeth gan Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru. Mae'r byngalos oddi ar grid y prif gyflenwad nwy ac mae gan bob un arwynebedd llawr o 68 m2.

Mae'r cartrefi'n gynrychioliadol o gartrefi nodweddiadol o Gymru, ac roeddent yn ddrud iawn i'w gwresogi, gyda phroblemau tamprwydd a llwydni, a graddau SAP isel iawn (mor isel â 12). Yr amcanion oedd anelu at garbon sero drwy leihau'r galw am ynni, a hynny i'w fodloni cymaint â phosib drwy gyflenwad adnewyddadwy a storio tra'n sicrhau cartrefi cyfforddus a fforddiadwy i'r trigolion.

Nodwedd arloesol y prosiect hwn oedd i'r tîm yng Nghyngor Abertawe (y perchnogion a rheolwr adeiladu) weithio gydag Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn ogystal â'r trigolion a'r gadwyn gyflenwi i gynllunio, dylunio a gosod gwaith ôl-osod cynhwysfawr ar dŷ cyfan a oedd yn effeithlon ac yn ddatrysiad all gael ei efelychu ar gyfer y math hwn o gartref er mwyn symud yn gyflym tuag at y targed carbon sero.

Roedd y mesurau i leihau'r galw am ynni yn cynnwys insiwleiddio waliau allanol a llofftydd, ffenestri gwydr dwbl, newid fframiau ffenestri PVC wedi'u hinswleiddio'n wael yn ogystal ag Awyru Mecanyddol gydag Adfer Gwres (MVHR) a goleuadau LED. Mae technolegau i ateb y galw gydag ynni adnewyddadwy yn cynnwys paneli solar ffotofoltäig (PV), storio mewn batris lithiwm ïon a Phwmp Gwres Ffynhonnell Ddaear (GSHP). Cwblhawyd gwaith trydanol ategol i integreiddio'r technolegau hyn fel system ynni tŷ cyfan.

Cefnogwyd y broses o ddylunio'r prosiect, gan fonitro cyn y gwaith ôl-osod yn ogystal â modelu thermol ac ynni er mwyn dadansoddi perfformiad yr adeiladau a sicrhau bod y penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth dda. Ar ôl cwblhau'r cam adeiladu, parhaodd ymgyrch fonitro gynhwysfawr i feintioli canlyniadau'r prosiect. Mae'r wybodaeth amhrisiadwy hon wedi darparu tystiolaeth werthfawr o sut y

bodlonwyd yr amcanion. Mae'r ffynonellau gwresogi tanwydd ffosil gwreiddiol wedi'u disodli gan Bympiau Gwres Ffynhonnell Ddaear ac mae rheiddiaduron wedi'u disodli gan rheiddiaduron newydd mwy effeithlon gan ddarparu system gwres canolog fwy effeithlon, sy'n ddigonol i wresogi'r tŷ ar ôl gwelliannau i'r ffabrig. Mae'r newidiadau hyn ynghyd â'r PV a'r batri yn galluogi'r gwelliant sylweddol hwn.

Mae lefel y cydgysylltu a'r rheoli sydd eu hangen i gyflawni gwaith ôl-osod cynhwysfawr ar dŷ cyfan yn uchel. Mae'r gadwyn gyflenwi yn dal i fod angen arweiniad sylweddol i fedru cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn cyflwyno prosiect ôl-osod llwyddiannus. Arhosodd y trigolion yn y cartrefi wrth i'r gwaith gael ei wneud, ychwanegodd hyn gymhlethdod ond byddai wedi ychwanegu mwy o gost a thrafferthion i'r trigolion pe byddent wedi gorfod symud allan. Yn seiliedig ar y cyfyngiad hwnnw, cynlluniwyd y prosiect mewn dau gam, gwelliannau i'r ffabrig yn gyntaf ac yna gosod technolegau cyflenwi a storio. Llwyddwyd i reoli'r gwaith yn ofalus i leihau aflonyddwch a hysbyswyd trigolion am yr amserlen waith. Gweithiodd y tîm yn galed i ddangos y gellir ôl-osod tŷ cyfan yn llwyddiannus mewn cartrefi a feddiannir gan drigolion hŷn a bregus gyda sianeli cyfathrebu clir.

Mae gosod paneli solar PV wedi'i integreiddio i'r adeilad yn arloesol, fodd bynnag, nodwyd y dylai cwmni toeon cymwys weithio'n uniongyrchol gyda'r gosodwr PV i sicrhau gosodiad o ansawdd uchel o'r ddau. Mae gweithredu'r prosiect ôl-osod tŷ cyfan hwn yn darparu tystiolaeth a gwybodaeth drosglwyddadwy i'r sector ôl-osod yng Nghymru gan y gellir efelychu'r prosiect ac mae'r deilliannau a grëwyd yn amlygu'r manteision ar gyfer y sector lleol wrth symud tuag at ddatgarboneiddio'r stoc adeiladu bresennol.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Gwellodd y Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) o EPC G i A, gyda graddau SAP yn codi o 12 i 95. Y defnydd ynni blynyddol cyfartalog o bob cartref yw 5MWh o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 15MWh y cartref - gostyngiad o 66%. O'r cyfanswm o 5MWh a ddefnyddiwyd, darparwyd 2.8MWh gan baneli solar PV a batri ïon lithiwm gyda dim ond 2.2MWh o'r grid cenedlaethol. Yn ystod misoedd yr haf cynhyrchir swm dros ben o 2MWh all gael ei werthu'n ôl i'r grid, gan ddarparu incwm ariannol i'r trigolion.

Cyn y gwaith ôl-osod roedd allyriadau carbon gweithredol yn uchel iawn, 3,312 Kg o CO2e y flwyddyn, gan fod y trigolion yn defnyddio olew ac LPG ar gyfer gwresogi a dŵr poeth. Gostyngodd hyn i 197 Kg o CO2e - gostyngiad o 95%.

Cododd carbon corfforedig y tŷ oherwydd y deunyddiau adeiladu newydd, ac offer a osodwyd yn ystod y gwaith ôl-osod. Cyfrifwyd y cynnydd mewn carbon corfforedig o ganlyniad i'r gwaith ôl-osod fel 23 tunnell o CO2e fesul tŷ. Fodd bynnag, mae arbedion carbon blynyddol wedi'u monitro ar 3.1 tunnell o CO2e y flwyddyn fesul tŷ, felly amcangyfrifir bod cyfnod talu'r carbon yn ôl yn 7.4 blynedd. Yn dilyn y dybiaeth mai 20 mlynedd yw disgwyliad oes cyfartalog y technolegau, mae'r arbedion carbon cylch bywyd cyfan (gan gynnwys allyriadau carbon corfforedig a gweithredol) yn cyrraedd 39 tunnell o CO2e fesul tŷ, neu 234 tunnell o CO2e ar gyfer y prosiect cyfan.

# Canolfan Ynni Cynaliadwy - Prosiect Cydweithio a Sgiliau

**Robert Price Builders Merchants Ltd**




**Datganiad o gefnogaeth**

Cyflwyniad y wobr "Cynaladwyedd ym maes Tai" gan y tîm Ynni yng Nghanolfan Ynni Cynaliadwy Robert Price.

Y Ganolfan Ynni Cynaliadwy

Mae deddfwriaeth y llywodraeth a'r galw cynyddol am newid amgylcheddol wedi rhoi cynhyrchion cynaladwyedd yn gadarn ar flaen agenda tai Cymru. Wrth ymateb i dargedau sero-net y sector cyhoeddus, creodd Robert Price y Ganolfan Ynni Cynaliadwy.

Er bod technolegau ac atebion arloesol ar gael, roedd y farchnad yn dangos diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y gallent eu defnyddio a mynd ar y daith i sero-net erbyn 2030. Dyluniwyd y Ganolfan i wneud yr atebion arloesol hyn yn hygyrch i'r farchnad tai o adnewyddiadau ôl-osod i brosiectau adeiladu newydd.

Roedd y diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn amlygu ail rwystr: y prinder sgiliau carbon sero-net. Bydd angen hyfforddi neu ailhyfforddi hanner y gweithlu adeiladu presennol ar ryw ffurf neu'i gilydd, yn ôl Adroddiad Sgiliau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladwaith ar gyfer Sero Net a gyda'r ymdrech i gael sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030, mae hyn wedi mynd yn fater cynyddol bwysig. Crëwyd y Ganolfan i gynnig atebion a hyfforddiant, gan fynd i'r afael â'r materion hyn trwy gynnig hyfforddiant gosod achrededig mewnol ar gyfer y cynhyrchion a gyflenwir.

Beth mae'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy yn ei wneud?

Mae'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy yn ymagwedd arloesol ac unigryw at ddarparu atebion tai cynaliadwy. Mae'r Ganolfan wedi gwneud gwir wahaniaeth ym mywydau tenantiaid a chwsmeriaid, gan helpu'r diwydiant tai ar eu taith i sero-net drwy ei addysgu ar ddatgarboneiddio.

Mae'r Ganolfan yn cynnwys ystafell arddangos benodedig ac academi hyfforddi achrededig, a grëwyd i hysbysu cwsmeriaid ar ystod eang o gynhyrchion cynaladwyedd a thechnolegau adnewyddadwy yn y sector adeiladu. Fe'i dyluniwyd ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, contractwyr, a thenantiaid fel ei gilydd wrth i'r tîm ddeall sut mae addysg trwy gydol y gadwyn gyflenwi yn bwysig i gyrraedd sero-net. Mae'r tîm Ynni wedi meithrin amgylchedd lle gall cleientiaid weithio ar y cyd a rhannu llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd, gan alluogi'r diwydiant i gamu ymlaen yn hyderus tuag at adeiladu dyfodol carbon niwtral.

Cartrefi gwell, bywydau gwell

I'r tîm Ynni, nid yw cynaladwyedd ym maes tai'n bwysig dim ond ar gyfer cyrraedd targedau'r llywodraeth; mae'n bwysig i wella bywydau'r bobl sy'n byw yn y cartrefi hyn. Gan weithio'n agos gyda Chymdeithasau Tai a Chynghorau lleol i ddarparu atebion ynni carbon isel ar gyfer eu stoc tai, nid yn unig y gwnaeth y tîm hyrwyddo effeithiau datgarboneiddio technolegau ond hefyd sut y gallant fynd ati i gael effaith gadarnhaol ar fywydau trigolion a thenantiaid.

Gall defnyddio datrysiadau ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy yn y cartref arwain at fanteision di-rif i drigolion ar wahân i leihau carbon. Gan fod eu cartrefi wedi'u hinsiwleiddio'n well a'u gwresogi'n fwy effeithlon, mae biliau'n rhatach. Mae hyn nawr, yn fwy nag erioed o'r blaen, yn flaenoriaeth uchel i denantiaid a thrigolion oherwydd y cynnydd mewn prisiau ynni. At hynny, mae cartref sydd wedi'i inswleiddio a'i awyru'n dda'n darparu amgylchedd byw diogel ac iach. Mae'r technolegau a arddangosir yn y Ganolfan yn hynod arloesol ac wedi'u dylunio i ostwng a dileu problemau fel cyddwysiad a lleithder yn y cartref a all achosi problemau iechyd. Mae addysgu pobl ar fuddion lluosog cynhyrchion cynaliadwy wedi helpu i annog y rhai sy'n ddrwgdybus o dechnolegau newydd yn ogystal â chefnogi dyletswydd gofal y diwydiant tai i'w trigolion.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

- Ymgysylltu â darparwr hyfforddiant trydydd parti, gan ddarparu dros 6000 awr o hyfforddiant sgiliau gwyrdd yn yr academi hyfforddi bwrpasol hyd yma.
- Cydweithio â TPAS Cymru i gynnal Clwb Ymgysylltu Sero Net, a fydd yn cynnwys "taith o amgylch canolfan dechnoleg Sero Net, ac yna trafodaeth bord gron gyda staff tai cymdeithasol o'r un feddylfryd sydd â diddordeb mewn sero-net. Mae hyn yn berffaith ar gyfer y rhai sydd am weld a dysgu mwy am dechnoleg sero-net a'i rôl yn amcanion newydd WHQS2."
- Mae'r Ganolfan wedi denu ymweliadau gan bobl fel y Ganolfan Adeiladu Gweithredol, Trustmark, a rhaglen sgiliau Ôl-osod wedi'i Optimeiddio, gyda'r nod o gydweithio i helpu'r diwydiant i gyflawni sero-net ym maes tai erbyn 2030.
- Mae'r tîm Ynni'n estyn allan yn weithredol i dai cymdeithasol, gan gynnig popeth o sioeau teithiol i 'wythnosau arloesi' mewnol.
- Mae'r tîm Ynni wedi estyn allan ac ymgysylltu â thros 30 o landlordiaid cymdeithasol a, hyd yma, darparu dros 1500 awr o hyfforddiant ymwybyddiaeth addysg am gynhyrchion.

# Prosiect Ôl-osod yng Nglan-nant, Sir Benfro

**Sefydliad arweiniol: Tai Wales & West**

**Sefydliad partner: Tîm Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE) Ysgol Pensaernïaeth Cymru**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Tai Wales & West bob amser yn ymdrechu i 'wneud y peth iawn.' Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac rydym yn wynebu argyfwng costau byw sy'n golygu bod yn rhaid i rai pobl wneud penderfyniadau ynghylch rhoi bwyd ar y bwrdd neu wresogi eu cartref. Mae TWW yn benderfynol o wneud gwahaniaeth a gwneud newidiadau a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion.

Mae TWW yn berchen ar bron i 13,000 o gartrefi ar draws Cymru, o dai teras hŷn a adeiladwyd â cherrig i dai pâr a adeiladwyd yn y 1980au a'r 1990au, hyd at gartrefi Passivhaus newydd. Mae rhai mewn ardaloedd gwledig anghysbell ac yn dibynnu ar danwydd solet neu danciau olew i'w gwresogi. Mae TWW am ymgorffori technolegau carbon isel sy'n arbed ynni mewn eiddo er mwyn helpu i ostwng biliau trigolion, gostwng allyriadau carbon, a chyflwyno uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru. Gan weithio gyda thîm yr Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel (LCBE) yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru, mae TWW wedi bod wrthi'n cynllunio, dylunio, caffael, gosod, a chomisiynu systemau ynni tŷ cyfan ar gyfer amrywiaeth o eiddo a chynnal gwaith monitro i werthuso perfformiad, ymarferoldeb, a gwerth am arian.

Heriau

Adeiladwyd llawer o stoc TWW yn y 1990au, felly yr her oedd sut i ôl-osod y cartrefi hyn ar raddfa fawr.

Dewisodd y tîm stryd o 6 chartref yng Nglan-nant, Sir Benfro i dreialu'r dulliau mwyaf effeithlon o leihau colled gwres a gostwng allyriadau carbon, drwy waith ôl-osod.

Dewiswyd y cartrefi oherwydd y colled gwres uchel drwy ffabrig yr adeilad, gan eu gwneud yn agored i ddrafftiau ac yn ddrud i'w gwresogi.

Er bod y 6 eiddo'n edrych yr un fath, roedd pob un yn wahanol, felly mabwysiadodd tîm y prosiect ymagwedd unigol at ddylunio pecyn o fesurau wrth ymateb i anghenion pob cartref a'r trigolion oedd yn byw ynddynt. Teuluoedd ifanc a chyplau wedi ymddeol oedd yn byw yn yr aelwydydd yn bennaf. Er bod 4 eiddo eisoes wedi'u huwchraddio i bympiau gwres ffynhonnell aer ar gyfer eu gwresogi a dŵr poeth, roedd un cartref ar olew ac un ar danwydd solet o hyd ar gyfer eu gwresogi a'u dŵr poeth.

Cyn y gwaith ôl-osod bu i'r tîm LCBE fonitro'r cartrefi drwy fesur aerglosrwydd gan ddefnyddio profion chwythu ar ddrysau a cholled thermol a gwres gan ddefnyddio platiau fflwcs gwres a chamera thermol i ddeall yn well sut y defnyddiwyd y cartrefi ac i ddiagnosio problemau perfformiad presennol.

Ymagwedd tŷ cyfan

Defnyddiodd y tîm ymagwedd ynni tŷ cyfan fu'n cyfuno technolegau gwahanol er mwyn gweddu orau i'r cartrefi a'r trigolion. Bu iddynt weithio gyda'r trigolion o'r cam dylunio, trwy'r cam gosod, i gwblhau a monitro. Fe wnaeth holiadur cyn y gwaith ôl-osod helpu i nodi sut roedd y trigolion yn defnyddio eu cartrefi a'u lefelau cysur.

Manteisiodd y cartrefi o:

Uwchraddio i ffabrig yr adeilad gan gynnwys ffenestri a drysau newydd, insiwleiddio waliau allanol (EWI) i gadw gwres yn y cartref a mwy o insiwleiddio yn y llofft

Systemau Awyru Mewnlif Positif, sy'n gweithio drwy annog symudiad aer o'r tu mewn i'r tu allan o uned a osodir yn y llofft i ostwng neu ddileu cyddwysiad trwy ddisodli aer llaith gydag aer newydd wedi'i hidlo.

Paneli solar PV ar y toeon gyda systemau storio batri wedi'u lleoli'n allanol. Pan fydd y paneli solar yn cynhyrchu yn ystod y dydd, maent yn lleihau'r defnydd o drydan gan offer gweithredol a bydd y batri yn storio unrhyw ynni dros ben nas defnyddir a all gael ei ddefnyddio gyda'r nos pan nad yw'r paneli'n cynhyrchu.

Mewn cam pellach i yrru'r agenda ôl-osod mae TWW wedi gosod allan eiddo tŷ pâr gwag ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel "cartref arddangos ynni tŷ cyfan." Bydd yr eiddo'n parhau'n wag am 6 mis er mwyn arddangos y technolegau a rhannu gwybodaeth gydag eraill wrth i ni wneud ymdrech i symud tuag at sero-net erbyn 2050.

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Trwy fabwysiadu ymagwedd at insiwleiddio ffabrig y cartrefi a storio ynni a gynhyrchir, mae TWW wedi llwyddo i leihau allyriadau carbon a gwneud cartrefi'n gyfforddus ac yn rhatach i'w gwresogi.

Wrth fonitro'r data, dangoswyd bod pob system PV yn cynhyrchu 3,690 kWh y flwyddyn ar gyfartaledd. Defnyddir 1,560 kWh gan y deiliaid yn uniongyrchol o'r paneli solar ffotofoltäig, gellir storio a defnyddio 1,466 kWh ar y safle.

Y gostyngiad mewn allyriadau carbon ar gyfer y cynllun yw 789 kgCO2.

Cododd y sgôr EPC o D i B.

Mae'r trigolion yn fodlon iawn ar y gwaith a bod tymheredd yr aer dan do yn gyfforddus ac yn cyrraedd y gosodiadau gwres gofynnol.

Mae EWI wedi gwella'r ymddangosiad allanol.

Mae'r tîm wedi datblygu'r Arolwg Cam Cynnar Ôl-osod Ymarferol i gywain gwybodaeth am bob tŷ yn gyflym yn y cam cynllunio, a pharatoir canllaw defnyddiwr i ddeiliaid tai, gyda'r trigolion, er mwyn sicrhau bod y system ynni tŷ cyfan yn cael ei defnyddio'n effeithiol.

“Ers gosod y paneli PV a'r batri, rydym wedi gweld arbedion sylweddol yn ein biliau trydan. Mae'r EWI, ffenestri a drysau newydd wedi bod yn anhygoel hefyd. Mae wedi gwneud gwahaniaeth wrth gadw'r tŷ yn gynnes.” Mr a Mrs Maskell, trigolion.

Y gobaith yw y gellir efelychu dysgu o'r prosiect hwn ar draws stoc debyg.

# TÎM TAI Y FLWYDDYN

Noddir gan: CREU MENTER CREATING ENTERPRISE

Mae'r wobr hon ar gyfer tîm sydd wedi gwneud cyfraniad heb ei ail i'w sefydliad ac i'r sector tai. Mae wedi'i dylunio i gydnabod cyflawni rhywbeth arbennig, fel rhan o ddatblygu gwasanaethau newydd, ymdrin â sefyllfaoedd anodd neu gyflwyno'r gwasanaethau gorau.

## Living Well team

**United Welsh**



**Datganiad o gefnogaeth**

Mae tîm Living Well United Welsh yn darparu llety a gwasanaethau arbenigol i bobl dros 55 oed sy'n byw mewn fflatiau, byngalos, llety lloches a chyfleusterau gofal ychwanegol ar draws de Cymru.

Mae'r tîm yn cynnwys Cydlynwyr Tai, Hwyluswyr Cyswllt a'r tîm arweinyddiaeth. Maen nhw'n defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi byw'n annibynnol, gwella lles a lleihau unigrwydd. Eu dyhead yw i bawb fyw bywydau bodlon mewn cartrefi Living Well.

Cydlynwyr Tai yw'r prif bwynt cyswllt i drigolion, gan ddarparu cymorthfeydd tai rheolaidd a bod wrth law pan fydd angen. Maent yn meithrin perthnasoedd â thrigolion i ddeall eu hanghenion, eu dymuniadau a'u dyheadau, gan weithio'n hyblyg i gynorthwyo cynifer o drigolion â phosib a darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.

Adroddodd adborth cwsmeriaid Living Well 2021/22 a gasglwyd yn annibynnol gan y darparwr ymchwil Acuity fod:

- 96% yn fodlon ar eu cartref
- 88% yn fodlon ar waith atgyweirio
- 90% yn fodlon ar eu cymdogaeth

Dyma rai tystebau:

- Anne o Lys George Parry: https://bit.ly/3Rm9eFt
- Joan o Blas Hyfryd: https://bit.ly/3Qnti93

Y Fforwm Byw'n Dda yw ein panel ymgysylltu a chraffu trigolion ar gyfer gwasanaethau Living Well. Er mwyn parhau â'r fforwm yn ystod y pandemig, bu i bob aelod dderbyn llechen iPad a hyfforddiant pellter cymdeithasol / dros y ffôn i helpu mwy o bobl i gymryd rhan.

Mae'r hyfforddiant cychwynnol hwn wedi'i gyflwyno'n ehangach ers y pandemig, gydag aelodau'r fforwm bellach yn hyfforddi trigolion eraill i wella'u sgiliau. Mae rhaglen Wi-Fi gymunedol hefyd wedi lansio i ddarparu mynediad rhyngrwyd i fwy o drigolion. Hyd yma, mae gan 13 cynllun Wi-Fi cymunedol a bydd hyn yn cynyddu.

Mae'r tîm Living Well yn cyflwyno'r prosiect Connect, gan recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr cymunedol a phreswyl i ddarparu gweithgareddau i drigolion roi cynnig ar bethau newydd, cwrdd â phobl newydd a meithrin perthnasoedd.

Mae'r gweithgareddau'n cael eu datblygu mewn ymgynghoriad gyda phobl sy'n byw yn y llety lle y cânt eu cynnal.

Dyma rai enghreifftiau:

- Côr pontio'r cenedlaethau ar raglen Comic Relief y BBC: https://bit.ly/3AYgjVo
- Prosiectau garddio cymunedol (dywedodd un o'r trigolion, Paul, fod hyn wedi newid ei fywyd: https://bit.ly/3Bm1a1U)
- Sesiynau pobi a choginio grŵp (darllenwch am Cary: https://bit.ly/3D3kS3z)
- Grwpiau gwau sy'n codi arian ar gyfer ysgolion ac elusennau lleol
- Grwpiau celf a chrefft
- Sesiynau cymorth digidol pontio'r cenedlaethau

Mae'r tîm Living Well yn gweithio'n galed i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr Connect, y mae 59 ohonynt ar hyn o bryd. Mae 155 o drigolion hŷn yn ymwneud â Connect, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau bob wythnos.

Mae'r tîm Living Well hefyd yn gweithio'n rheolaidd gyda sefydliadau eraill er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i drigolion. Er enghraifft, maen nhw'n gweithio gyda'r elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus i gyflwyno sesiynau garddio ar draws ein cynlluniau, a gwirfoddolwyr cymunedol Glowyr Caerffili i gyflwyno gweithgareddau sy'n cynnwys dosbarthiadau celf, sesiynau ymarfer corff a dysgu digidol.

Mae Living Well hefyd yn rhagweithiol wrth nodi partneriaethau newydd. Yn ddiweddar, fe wnaethant sicrhau cyllid ar gyfer technoleg gynorthwyol gan Gynghrair Wirfoddol Torfaen er mwyn annog trigolion i gerdded a bod yn fwy gweithgar. Mae'r preswylwyr wedi cael Fitbits fel rhoddion a chael eu gwahodd i gymryd rhan mewn her Fitbit ar draws ein cynlluniau tai gwarchod a llety Gofal Ychwanegol i gynyddu eu camau, ymarfer corff a ffitrwydd cyffredinol. Y cam nesaf fydd gosod heriau ar draws y cynlluniau i ddarparu cysylltiadau â thrigolion eraill a chreu cyfeillgarwch newydd.

Yn ogystal â chyfoethogi bywydau trigolion, mae'r tîm Living Well yn gwella perfformiad United Welsh yn gyffredinol.

Bu croniad o dai gwag yn ystod y pandemig. Lansiodd Living Well raglen ail-osod, a oedd yn cynnwys cydweithiwr penodedig i ddod o hyd i drigolion newydd a gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ail-osod; sicrhau bod ymgeiswyr yn hyddysg a chefnogi pobl i oresgyn rhwystrau i symud. Arweiniodd yr ymagwedd hon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at ail-osod nifer sylweddol o gartrefi gwag tymor hir, gyda 14 o osodiadau mewn cyfnod o 60 diwrnod ers mis Ebrill (70% ohonynt yn eiddo segur tymor hir).

Yn 2022/23, mae'r tîm Living Well yn canolbwyntio ar wella cynwysoldeb ein gwasanaethau, gan ehangu'r cynnig Connect a chodi ymwybyddiaeth o berthnasoedd iach i fynd i'r afael â cham-drin yr henoed.

Yn y pen draw, maen nhw eisiau i bob trigolyn deimlo ei fod yn cael ei groesawu ac yn hapus i fyw gyda ni i'r un graddau ag Anne yn Llys George Parry: "Mae bywyd yn dda eto a dwi'n mwynhau fy mywyd ar hyn o bryd."

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae tîm Living Well United Welsh yn darparu llety a gwasanaethau arbenigol i bobl dros 55 oed sy'n byw mewn fflatiau, byngalos, llety lloches a chyfleusterau gofal ychwanegol ar draws de Cymru.

Eu dyhead yw i bawb fyw bywydau cyflawn mewn cartrefi Living Well, gan ddefnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi byw'n annibynnol, lles a lleihau unigrwydd ac unigedd.

Dengys adborth gan drigolion faint y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y tîm Living Well wedi'u gwerthfawrogi, ac mewn rhai achosion, yn drawsnewidiol i fywydau.

Mae'r prosiect Connect a gyflwynir gan Living Well hefyd yn parhau i ffynnu. Mae 155 o drigolion yn rhan o weithgareddau Connect ar hyn o bryd, ac mae 59 o wirfoddolwyr preswyl a chymunedol yn cael eu cefnogi gan y tîm i gynnal gweithgareddau.

Adroddodd adborth cwsmeriaid Living Well 2021/22 a gasglwyd yn annibynnol gan y darparwr ymchwil Acuity fod:

- 96% yn fodlon ar eu cartref
- 88% yn fodlon ar waith atgyweirio
- 90% yn fodlon ar eu cymdogaeth

Mae'r tîm Living Well yn rhagweithiol o ran eu hymagwedd at gyfoethogi bywydau trigolion a gwella perfformiad United Welsh yn gyffredinol. Llwyddodd eu rhaglen ail-osod i leihau eiddo gwag yn llwyddiannus yn ystod cyfnod anodd ac mae eu gwaith lles wedi annog datblygu sgiliau newydd, dysgu rhwng cymheiriaid, cyfeillgarwch rhwng cenedlaethau a phartneriaethau newydd.

Dywedodd un o'r trigolion, Paul Picker, fod symud i Lys Nant Y Mynydd (cynllun gofal ychwanegol United Welsh) a gwirfoddoli gyda'r tîm wedi "newid ei fywyd."

# Tîm Cefnogi Tenantiaethau Caerffili

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**




**Datganiad o gefnogaeth**

Mae Tîm Cymorth Tenantiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwneud eu gorau glas i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau'r canlyniadau mwyaf posib i rai o'n trigolion mwyaf agored i niwed.

Mae'r gwasanaeth wedi ei seilio ar ethos 'Gofalu am Gaerffili' y Cyngor; sy'n ceisio newid y berthynas rhwng y sefydliad a'i thrigolion a chymunedau. Mae'r tîm yn cymryd yr amser i wneud yn siŵr bod pob cyswllt yn cyfrif, trwy feithrin perthnasoedd a chael y sgwrs 'beth sy'n bwysig' gyda thrigolion i nodi pa gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, i hyrwyddo eu hannibyniaeth a chynyddu rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi mynd yn bwysicach fyth ers dechrau pandemig Covid-19 ac yng nghanol yr argyfwng costau byw presennol. Mae'r model gwasanaeth yn canolbwyntio ar uchafu incwm trigolion, ar yr un pryd â darparu cymorth i gynnal tenantiaethau ar draws pob daliadaeth ac atal digartrefedd.

Mae'r tîm yn mynd yr ail filltir yn rheolaidd i helpu trigolion y byddent efallai wedi cael eu hanwybyddu fel arall fel rhai sydd angen cefnogaeth. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn ddwy enghraifft ddiweddar o'r cymorth a roddwyd gan y tîm.

Trigolyn 1

Ffoniodd tenant i holi am y balans ar eu cyfrif rhent. Treuliodd yr aelod o staff a siaradodd â'r tenant amser yn cael sgwrs fwy manwl ac, oherwydd eu hagwedd empathig, adeiladwyd ymddiriedaeth yn gyflym, gan arwain at ddealltwriaeth bod yr aelwyd yn profi caledi ariannol; gyda thaliadau rhent yn cael eu gwneud ar draul digon o fwyd a gwresogi. Trefnwyd parsel banc bwyd yn syth, a gwnaed cais am daliad cymorth brys. At hynny, fe wnaeth swyddog budd-daliadau arbenigol o fewn y tîm gynorthwyo gyda chais lwfans gweini a chais am gredyd pensiwn.

O ganlyniad i'r ymagwedd gyfannol a ddarparwyd gan y tîm, gwelodd y tenant gynnydd o £155 yr wythnos yn ei fudd-daliadau.

Os ymdriniwyd â'r alwad hon fel trafodiad syml ni fyddai'r angen am gymorth wedi'i adnabod, gan fod y cyfrif rhent yn gyfredol, ac o bosib gallai sefyllfa'r tenant hwn fod wedi mynd yn argyfyngus.

Trigolyn 2

Ffoniodd tenant y tîm gyda phryderon am y cap ar fudd-daliadau, nid oedd yn rheoli eu taliadau rhent, ac roedd ôl-ddyledion yn cronni. Cafodd cais tai dewisol ei gwblhau i gynorthwyo gyda'r diffyg wrth i incwm gael ei fwyafu.

Ehangodd y sgwrs i broblemau iechyd meddwl plentyn y tenant a'r trafferthion bob dydd; cwblhawyd ffurflen DLA plentyn a ddyfarnwyd wedyn, gan arwain at ddileu'r cap ar fudd-daliadau. Llenwyd ffurflen gais lwfans gofalwr ar-lein. Bu i'r tîm hefyd weithredu ar ran y tenant i'w galluogi'n llwyddiannus i dderbyn yr elfen plentyn anabl o gredydau treth.

Aeth y tenant ymlaen i egluro ei brwydrau iechyd meddwl, a arweiniodd at gwblhau cais PIP llwyddiannus a dyfarnwyd cyfandaliad o £1200 wedi'i ôl-ddyddio.

At ei gilydd llwyddodd y tîm i gefnogi'r tenant i dderbyn incwm ychwanegol o £15,000 y flwyddyn.

Dywedodd y tenant "Rydych chi wedi fy helpu gyda phopeth... ffurflenni, galwadau, pan wyf wedi cynhyrfu, ac angen tawelu fy meddwl... unrhyw beth sy'n ymwneud â fy rhent a fy ngofidion dwi wedi'i gael. Ni allwn fod wedi gwneud dim ohono heb eich cefnogaeth barhaus. Mae derbyn PIP yn llythrennol yn newid bywyd i fi a fy mhlant ac ni allaf fynegi pa mor ddiolchgar yr wyf. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch chi'n parhau i helpu pobl, rydych chi'n ei wneud yn eithriadol o dda. Allwn i ddim fod wedi gwneud unrhyw un o'r ffurflenni na delio gyda'r galwadau rwyf wedi'u cael heb eich cymorth chi; diolch."

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Canlyniadau yn ystod blwyddyn ariannol 21/22:

- Cynhyrchwyd £3.2m o incwm ychwanegol ar gyfer trigolion yn ystod blwyddyn ariannol 21/22
- 800 o geisiadau llwyddiannus am daliadau tai dewisol
- Cyngor am ynni i 249 o denantiaid (staff sydd wedi'u hyfforddi at City and Guilds lefel 3 cyngor ar ynni)
- 350 o atgyfeiriadau at CAB am ddyled a chyngor ariannol
- Cefnogwyd 1000 o drigolion i wneud cais am y grant Tanwydd Gaeaf gwerth £200 gan Lywodraeth Cymru. Roedd llawer o'r trigolion hyn wedi'u hallgau'n ddigidol ac ni fyddent wedi gwneud cais am y grant heb ein cymorth
- 300 o barseli bwyd wedi'u trefnu

Nodwyd 46% o'r trigolion drwy ein modelu ariannol rhagweithiol - h.y. defnyddio data i nodi trigolion nad ydynt yn hawlio eu hawliad llawn a bid ein tîm yn cysylltu â nhw i drafod hyn.

Roedd 54% o'r trigolion a gefnogir yn weithred ymatebol, h.y. trigolion yn cysylltu â'n tîm neu drwy wasanaeth cymorth brysbennu Gofalu am Gaerffili gan eu bod yn wynebu caledi ariannol/bygythiad o ddigartrefedd ac mewn argyfwng.

# Tîm Rhenti Tai

**Cyngor Abertawe**



**Datganiad o gefnogaeth**

Fel un o'r darparwyr tai cymdeithasol mwyaf yng Nghymru, mae Gwasanaeth Tai Cyngor Abertawe yn rheoli mwy na 13,600 o gartrefi Cyngor wedi'u lleoli dros ardal ddaearyddol eang gan gwmpasu ystod amrywiol o gymunedau. Mae'n rhaid holl denantiaid y Cyngor dalu rhent am y cartrefi y maen nhw'n byw fel rhan o amodau'r denantiaeth. Mae'r Tîm Rhenti arbenigol yn cyflwyno gwasanaeth casglu incwm, adennill ôl-ddyledion rhent a chymorth/cyngor i holl denantiaid y Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi'i ymrwymo ers tro i gynnal tenantiaethau ac atal troi allan. Bu'r gwaith o leihau effaith achosion sylfaenol troi allan ar denantiaid y Cyngor yn effeithiol, fodd bynnag roedd yn wir o hyd mai oherwydd ôl-ddyledion rhent yn bennaf y byddai tenantiaeth yn dod i ben trwy droi allan. Roedd angen ymagwedd arloesol i newid hyn.

Roedd moderneiddio'r gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy i'r dyfodol ac yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn allweddol. Roedd y Tîm Rhenti eisiau datblygu menter arloesol gyda'r nod o sicrhau bod cynnal tenantiaethau wrth wraidd y gwaith ac mai cam olaf un oedd troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent. Roedd yr amgylchedd y datblygwyd y fenter ynddo'n heriol. Ymhlith yr heriau allweddol oedd tlodi, ymgysylltu a chefnogaeth.

Nod y fenter oedd datblygu ymagwedd sylfaenol y tîm at sicrhau ffocws ar atal, ymyrryd yn gynnar a chefnogaeth. I gyflawni hyn, byddai Swyddogion Rhent yn darparu gwasanaethau hygyrch wedi'u teilwra i'r unigolyn (gan ddefnyddio amgylcheddau a gyfeirir gan seicoleg yn eu hymagwedd); mynd ati'n rhagweithiol i atal ôl-ddyledion rhent rhag digwydd a sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogi a gorfodi o ran adennill ôl-ddyledion rhent. Anogwyd tenantiaid i gysylltu â'r Tîm Rhenti'n gynnar os oeddent yn poeni am ôl-ddyledion, a chysylltodd y Tîm â thenantiaid sydd mewn ôl-ddyledion dros y ffôn, drwy neges destun ac e-bost yn y lle cyntaf. Datblygwyd gwasanaethau talu hyblyg i denantiaid dalu eu rhent a'u hôl-ddyledion ynghyd â darparu mwy o fynediad i gyfrifiaduron cyhoeddus a'r we mewn nifer o Swyddfeydd Tai Ardal.

Byddai'r Tîm Rhenti'n fwy gweladwy i denantiaid. Rhoddwyd ar waith troi i fyny i lofnodi tenantiaethau, gan sefydlu 'Cymorthfeydd Rhent' mewn Swyddfeydd Tai Ardal a gweithio symudol i gefnogi tenantiaid yn eu cartrefi.

Targedwyd Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth Diwygio Lles at denantiaid y Cyngor, a mwyhawyd sgiliau swyddogion wrth ddarparu budd-daliadau lles, mwyafu incwm a chymorth a chyngor cynhwysiad ariannol. Sefydlwyd gwaith partneriaeth effeithiol gyda Gwasanaethau Tai eraill megis Swyddfeydd Tai Ardal, sefydlwyd Uned Cymorth Tenantiaethau ac Opsiynau Tai gan gynnwys defnyddio'r Gronfa Atal Digartrefedd i gynorthwyo'r rhai sydd mewn perygl o gael eu troi allan a digartrefedd oherwydd ôl-ddyledion rhent. Datblygwyd perthnasoedd gwaith

newydd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) - yn enwedig ar lefel leol, gan gynnwys cysgodi rhwng Staff y Ganolfan Waith a'r Tîm Rhenti, cyflwyniadau i staff y Ganolfan Waith am rent ac ôl-ddyledion rhent, crëwyd perthnasoedd agos a chyswllt rheolaidd â chynrychiolwyr DWP perthnasol.

Ymgymerodd y Tîm Rhenti â'r her yma a thrwy weithio ar y cyd mae manteision y fenter i denantiaid a'r Cyngor wedi bod yn sylweddol. Cefnogwyd tenantiaid y cyngor i gynnal eu tenantiaethau ac mae troi allan wedi'i atal. Mae'r fenter wedi lleihau costau sy'n gysylltiedig â throi allan, gan gynnwys yr effaith ar wasanaethau digartrefedd, y costau economaidd-gymdeithasol ehangach a cholli eiddo segur.
Mae'r fenter wedi cefnogi cyflwyno blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor mewn perthynas â diogelu a thaclo tlodi ac wedi cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Canlyniadau a chyflawniadau**


Gwelwyd y deilliannau a ddymunir bron ar unwaith, a hynny'n amlwg yn y gostyngiad o 32% mewn troi allan ar gyfer ôl-ddyledion rhent rhwng 2018/19 a 2019/20. Ar ben hynny, yn sgil y pandemig Covid 19, er gwaethaf dychwelyd i'r ddeddfwriaeth flaenorol a diwedd y gwaharddiad ar droi allan, hyd yma dim ond un achos o droi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent sydd wedi digwydd ers mis Mawrth 2020.

Mae manteision y fenter yn sylweddol. Cefnogir tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau, gan atal troi allan. Mae wedi lleihau costau sy'n gysylltiedig â throi allan, gan gynnwys costau eiddo segur, effaith ar wasanaethau digartrefedd a chostau economaidd-gymdeithasol ehangach. Mae wedi cefnogi cyflwyno blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor o ddiogelu a thaclo tlodi ac wedi cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r Tîm Rhenti wedi'i ymrwymo i sicrhau bod tenantiaethau'n cael eu cynnal, a bod troi allan yn parhau i fod yn gam olaf un. I gefnogi hyn mae'r Strategaeth Rheoli Rhenti Tai 2022-2026 wedi'i chyhoeddi, gan nodi'r egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu a chyflwyno'r Gwasanaeth Rheoli Rhenti Tai. Datblygwyd y Strategaeth hon a'r Cynllun Gweithredu yn sgil ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn cofnodi anghenion tenantiaid y Cyngor, y Gwasanaeth Tai a phawb sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Rheoli Rhenti Tai.

# Tîm Tai

**Grŵp Cynefin**



**Datganiad o gefnogaeth**

O ganlyniad i flwyddyn anodd iawn, ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020 roedd ôl-ddyledion Grŵp Cynefin wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed, gyda dyled gwerth dros £900,000 yn ddyladwy.

Yn ystod dyddiau cynnar Covid cysylltodd y tîm Tai â phob un tenant yn unigol, sef dros 3500 o alwadau, i gadarnhau eu lles a chynnig cefnogaeth wedi'i theilwra. Fe wnaethant nodi bod nifer o denantiaid yn cael eu diswyddo neu ar ffyrlo o'r gwaith a bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Ymaddasodd staff yn dda i amgylcheddau gwaith anghyfarwydd newydd, gan wynebu heriau fel plant a dibynyddion gartref a sawl cyfnod clo.

Erbyn mis Ionawr 2021, roedd gan Grŵp Cynefin dros 2000 o denantiaid ag ôl-ddyledion rhent mawr a oedd yn peri risg i'r cartrefi unigol hynny yn ogystal ag i'r busnes. Nod craidd Grŵp Cynefin yw cefnogi eu tenantiaid. Maent wedi'u hymrwymo i helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau ac roeddent yn gweld yr angen am gyflwyno newidiadau. Mewn trafodaeth gyda'u tîm rheoli tai cytunwyd bod angen canolbwyntio ar gasglu rhent ac fe sefydlwyd cynllun peilot yn gyflym.

Cafodd Swyddogion Tai Generig ddewis pa ran o'u rolau rheoli tai yr oeddent am ganolbwyntio arni a gwirfoddolodd 5 i gasglu rhent. O ganlyniad, parhaodd gweddill y tîm i arwain ar ail-osod eiddo a rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyfrifoldebau rheoli tai eraill.

Trwy gydweithio fel hyn o fewn y tîm, canolbwyntiodd y Swyddogion Casglu Incwm ar gefnogi'r tenantiaid hynny mewn angen er mwyn sicrhau y gallent dalu eu rhent a lleihau ôl-ddyledion. Defnyddiwyd pob llwybr cymorth mewnol ac allanol ar gyfer eu tenantiaid, o fwyafu incwm trwy eu Swyddogion Lles eu hunain, gwneud cais am fudd-daliadau tai dewisol a gwneud cais am grantiau arbenigol gan elusennau. Bu iddynt weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a Grŵp Cynefin oedd y landlord cyntaf yng Ngogledd Cymru i gynnig cwrs cyllidebu ar gyfer tenantiaid a gomisiynwyd gan y DWP.

Rhannodd staff weledigaeth y rheolwyr, gan

chwilio am arfer da mewn sefydliadau eraill. Ym mis Tachwedd 2021 arweiniodd hyn at weithredu teleffoni awtomataidd gan Voicescape i wella effeithlonrwydd ac ymgysylltu â mwy o denantiaid. Fe wnaeth y canlyniadau helpu'r tîm i osgoi'r cynnydd enfawr hanesyddol mewn rhent dros gyfnod y Nadolig.

Gwerthuswyd canlyniadau'r cynllun peilot yn gynnar yn 2022 a chan ddilyn ymgynghori â staff a thenantiaid, cymeradwywyd yr achos busnes i gadw'r rolau arbenigol yn y tîm a byddai'r rolau hyn yn mynd yn barhaol. Erbyn diwedd mis Mawrth 2022, roedd ôl-ddyledion rhent wedi gostwng i lai na £500,000, ond yn hanfodol bwysig roedd nifer y tenantiaid ag ôl-ddyledion wedi gostwng 900 i 1110.

Cyflawnwyd hyn oll drwy weithio ar y cyd o fewn y tîm gyda rhai Swyddogion Tai'n canolbwyntio ar osod ac ail-osod eiddo, a chefnogi tenantiaid a chymdogion gydag achosion heriol o ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth i'r Swyddogion Casglu Incwm ganolbwyntio ar gasglu rhent. At hynny, gan ddefnyddio eu cyfoeth blaenorol o wybodaeth am reoli incwm, parhaodd y swyddogion tai generig i gynorthwyo tenantiaid ar ddechrau tenantiaethau, megis gyda hawliadau credyd cynhwysol, a sicrhau bod cyfrifon rhent tenantiaid yn cael eu sefydlu'n effeithiol er mwyn osgoi unrhyw ôl-ddyledion rhent diangen ac i gyflawni'r dechrau gorau sy'n bosib.

Mae'r adborth gan denantiaid Grŵp Cynefin ynglŷn â'r trefniant newydd wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r holl swyddogion - tai, incwm a lles - yn parhau i gefnogi eu tenantiaid fel y bo angen. Fel y dywedodd un tenant o Sir y Fflint "Mae'n gallu bod yn beth anodd a brawychus i gyfaddef bod angen help arnoch, ond maen nhw'n gwrando arnoch chi ac yn deall. Dwi wir ddim yn gwybod beth fyddwn wedi'i wneud hebddynt."

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Mae cyflawniad mawr y tîm yn deillio o weithio ar y cyd ac mae hynny'n amlwg yn y data. Gostyngiad enfawr mewn ôl-ddyledion, dros £400,000 o fewn cyfnod byr a thros 900 yn llai o denantiaid mewn ôl-ddyledion, heb orfod troi neb allan i gyflawni'r canlyniadau.

Mae ymgysylltu â chwsmeriaid yn hanfodol bwysig i'r sefydliad a Grŵp Cynefin yw'r sefydliad cyntaf a'r unig sefydliad yng Nghymru i gyflwyno Voicescape yn ddwyieithog. Arweiniodd hyn at dros 12,000 o weithgareddau dwyieithog drwy'r system hon yn unig ers ei chyflwyno fis Tachwedd diwethaf. Dywedodd un tenant yn ddiweddar "Diolch, mae'n ddefnyddiol ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyswllt".

Mae staff tai Grŵp Cynefin yn nodi tenantiaid sydd angen cymorth ychwanegol gan olygu bod Swyddogion Lles y tîm wedi cefnogi dros 1,000 o denantiaid gan ildio budd ariannol o dros £1,000,000 yn 2021-22, a £600,000 pellach rhwng misoedd Ebrill ac Awst 2022. Yr adborth gan un tenant yng Ngwynedd oedd "Rwy'n rhyfeddu at y gefnogaeth a gefais, pan oeddwn mewn cyfnod anodd. Dwi'n teimlo eu bod nhw wedi mynd yr ail filltir ac wedi helpu'n wirioneddol".

Yn ôl tenant arall Grŵp Cynefin o'r Waun, "Dwi mor hapus, dwi byth wedi bod mewn credyd a bydda i'n bendant yn cadw ar ben fy rhent, mae hyn wedi rhoi tawelwch meddwl mawr i mi"

# Afghan Resettlement Support Team

**Cymdeithas Tai Taf**



**Datganiad o gefnogaeth**

Daeth y tîm hwn at ei gilydd i gefnogi ailsefydlu ffoaduriaid o Affganistan, a gafodd eu codi o Kabul ar ôl i'r Taliban feddiannu'r wlad ym mis Awst 2021.

Bellach yn dîm o ddeuddeg, y mae gan lawer ohonynt eu profiad eu hunain o geisio lloches, maent wedi cefnogi dros 100 o deuluoedd yn uniongyrchol sydd wedi cyrraedd llety pontio yng Nghaerdydd.

Cyrhaeddodd teuluoedd ac unigolion mewn ofn a thrawma. Roedd llawer wedi cael eu gwahanu oddi wrth aelodau eraill agos o'r teulu yn yr anhrefn yn Kabul.

O'r cychwyn mae'r tîm cymorth wedi bod ar gael i ddarparu, nid yn unig cymorth ymarferol, ond hefyd cefnogaeth emosiynol a gofal y mae mawr eu hangen.

Mae'r tîm wir wedi dod â'r addewid clir a wnaed yng Nghymru i fod yn genedl noddfa yn fyw. Dro ar ôl tro mae'r tîm wedi mynd yr ail filltir i sicrhau bod yr unigolion a fu'n gwasanaethu ein gwlad, a'u teuluoedd, yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ailadeiladu eu bywydau, dod o hyd i waith, dilyn addysg ac integreiddio i gymunedau lleol. Mae wedi bod yn arddangosiad syfrdanol o dosturi a charedigrwydd, ochr yn ochr â gwaith partneriaeth medrus.

Mae'r tîm wedi dangos dyfalbarhad a phenderfyniad

heb gyfyngu ar eu dyfeisgarwch, eu creadigrwydd, a'u dycnwch wrth iddynt gefnogi pobl yn eu cyfnod o'r angen mwyaf.

Mae rhai o'r mentrau a ddyfeisiwyd ac a weithredwyd gan gydweithwyr yn Taf yn cynnwys:

Cyfeiriadaeth Ddiwylliannol: fe wnaeth Taf ddyfeisio a chyflwyno sesiwn wythnosol i gyflwyno teuluoedd i bob agwedd o fywyd yng Nghymru.

Cymorth Emosiynol: mae staff yn rhoi o'u hamser i wrando, ymgysylltu a gweithio tuag at atebion gyda phob person ar y cynllun, ac mae cryn dipyn o ymddiriedaeth a chydberthynas wedi deillio o hyn.

Cydraddoldeb Rhyw a magu plant: Yn dawel fach ac yn sensitif, mae teuluoedd wedi'u cyflwyno i'r sail ddeddfwriaethol, yn ogystal â'r normau diwylliannol sy'n dderbyniol yng Nghymru. Trefnodd y tîm i'r menywod a'r plant fynd ar wibdaith i Ynys y Barri. I lawer o'r menywod dyma'r tro cyntaf iddynt deithio'n annibynnol heb bresenoldeb gwrywaidd. Dyma'r tro cyntaf erioed i lawer weld y môr! Nid yn unig yr oedd pawb wedi cael amser gwych, roedd yn gyfle i ddatblygu hyder ac annibyniaeth. Am fod y daith mor llwyddiannus mae nifer wedi dychwelyd i fwynhau wibdeithiau pellach!

Gweithio ar y cyd â'r Heddlu: Gwahoddodd Taf Heddlu De Cymru i gyflwyno rôl yr Heddlu; Troseddau Casineb - beth ydynt ac adrodd amdanynt; cyfleoedd i weithio o fewn yr Heddlu (roedd llawer o'r Affganiaid yn yr Heddlu yn eu hen swyddi).

Rheoli disgwyliadau o ran Tai: Ar draws Lloegr mae nifer o deuluoedd wedi gwrthod cynigion o lety, gan achosi cryn drafferth. Nid yw hyn wedi digwydd yng Nghymru. Mae Taf wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth reoli disgwyliadau symud ymlaen yn ogystal â 'chynefino' teuluoedd cyn eu symud (gan edrych ar google maps ar gyfer y lleoliad, defnyddio Street View i 'weld' yr ardal a deall y bydd pob amwynder hanfodol gerllaw iddynt - sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth helpu gyda'r hyn a allai fod fel arall yn gam trawmatig i ffwrdd o Gaerdydd. Mae aelodau'r tîm yn teithio gyda theuluoedd i'w cartrefi newydd er mwyn sicrhau bod y symud ymlaen yn cael y dechrau gorau posib.

Cyfrifon Banc: Mae rôl Taf wedi bod yn ganolog i ymchwilio gyda Banc Lloyds i agor cyfrifon yn llwyddiannus i bawb heb y ddogfennaeth a'r dystiolaeth y mae eu hangen fel arfer.

Ar yr un pryd â chefnogi'r teuluoedd bu rhai achlysuron i'w dathlu:

Mae dau o Affganistan a anwyd yn Gymru wedi cael eu croesawu i'r cynllun.

Teithiodd un ddynes a'i 4 o blant oedd wedi cael eu gwahanu oddi wrth ei gŵr bum niwrnod trwy'r mynyddoedd (rhwystrwyd y prif ffyrdd gan y Taliban) i gyrraedd Llysgenhadaeth Prydain ym Mhacistan. Ar hyd y ffordd yn y mynyddoedd, bu'n rhaid iddi ddod allan o'r car i esgor ar ei baban wrth ymyl y ffordd, yna mynd yn ôl i mewn a chwblhau'r daith. Fe wnaeth y tîm gefnogi'r aduniad rhwng gŵr a theulu ar ôl iddynt lwyddo o'r diwedd i gyrraedd yma yng Nghymru. Fe wnaethon nhw enwi'r baban yn Safaa - sy'n golygu 'Taith'.

Mynychodd grŵp mawr o fenywod a dynion gêm rygbi rhyngwladol Cymru, diolch i docynnau a roddwyd gan y MOD. Cymerodd y pasys LFT Covid bron i ddiwrnod i'w cymryd a'u cofrestru - ond roedd hi'n werth chweil!

Lapiodd staff Taf a gwirfoddolwyr o CCC ac Oasis 150 o anrhegion ar gyfer parti Nadolig i'r plant yn y Novotel. Roedd y plant wrth eu boddau gyda nhw!

Trefnodd staff Taf bwffe Nadolig ar y cyd â Novotel a a oedd yn llwyddiant mawr. Chwaraewyd cerddoriaeth a fideos Affganaidd ar y sgrîn fawr, ac wedi hynny gadawodd y dynion yr ystafell yn wirfoddol er mwyn i'r menywod ddawnsio. Gweithiodd y tîm ochr yn ochr â staff y gwesty i ddylunio a dod o hyd i gynhwysion er mwyn gweini gwledd Affganaidd go iawn. Roedd yn ddathliad gwych gan atgoffa'r cyfan gymaint ag y mae'r teuluoedd am edrych i'r dyfodol na ddylent anghofio'r traddodiadau y bu'n rhaid iddyn nhw eu gadael ar ôl.

Mae'n anodd cyfleu faint y mae'r tîm wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud i roi'r dechrau gorau posib i'r ffoaduriaid yma yng Nghymru. Yn aml gall eu hegni, eu brwdfrydedd a'u gwydnwch yn wyneb yr hyn a all deimlo'n aml fel rhwystr anorchfygol a yn ysbrydoledig. Nid yn unig y maent yn cefnogi'r ffoaduriaid, maent yn cefnogi ei gilydd, gan wireddu gwerthoedd Taf o Ymddiriedaeth, Uchelgais, Dysgu a Charedigrwydd bob dydd!

**Canlyniadau a chyflawniadau**

Hyd yma, mae dros 70 o deuluoedd Affganaidd (468 o unigolion) wedi'u derbyn i Lety Pontio yng Nghaerdydd. O'r rhain, mae dros 30 o deuluoedd eisoes wedi cael eu symud ymlaen yn llwyddiannus i lety rhent preifat mewn ardaloedd awdurdod lleol sy'n cymryd rhan ar draws Cymru.

Bydd 8 o deuluoedd yn aros yng Nghaerdydd. Mae 6 eisoes yn eu cartrefi ac mae llawer o'r rhain wedi dod o hyd i waith yn barod.

Llwyddodd 3 unigolyn arall i ddod o hyd i waith gyda Taf yn gweithio ar y cynllun, a bellach gallant ddarparu'r un gefnogaeth ag y cawson nhw.

Mae'r bartneriaeth rhwng asiantaethau wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth sicrhau'r canlyniad gorau i'r teuluoedd yn yr hyn a gafodd ei alw'n 'Croeso Cymru' - prosiect a lwyddodd i ddod â'r holl deuluoedd a oedd â chysylltiadau â Chatrodau Cymru allan o Afghanistan, ac i ymestyn y cyflwyniad cynhesaf i fywyd Cymru iddynt.

# Project Impact

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**



### Datganiad o gefnogaeth

Fe wnaethom nodi bod ardal benodol o'r fwrdeistref (a nodwyd mewn adroddiad gan WIMD fel y 9fed ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru) angen cefnogaeth ddwysach i gynnal tenantiaethau. Roedd 177 o'r 319 o denantiaethau yn yr ardal hon yn derbyn budd-daliadau ac roedd y galw am yr ardal hon yn is nag ardaloedd eraill o'r fwrdeistref oherwydd cyflwr yr ardal. Nod y prosiect yw darparu cefnogaeth ddwys a gweithio gyda thenantiaid i helpu i leihau ôl-ddyledion rhent, lleihau trosiant yr eiddo a gwella cyflwr yr ardal ar gyfer y tenantiaid.

Mae'r prosiect wedi cael effaith enfawr ar iechyd a lles ariannol, corfforol a meddyliol tenantiaid. Trwy weithio gyda thenantiaid i ddatrys anghydfod gyda chymdogion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae swyddogion wedi helpu i gynnal tenantiaethau a gwneud y gymuned yn fwy cydlynus drwy hyrwyddo dealltwriaeth a goddefgarwch at ei gilydd. Gweithiodd y tîm yn galed i wella cyflwr yr ardaloedd, gan weithio gyda thenantiaid i lanhau mannau cymunedol blociau'r fflatiau, annog mwy o ailgylchu a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb ac ennyn balchder yn eu hardal. Effaith hyn yw eu bod wedi llwyddo i gofrestru 14 tenant ychwanegol.

Gan iddynt gael eu lleoli yng nghanol y gymuned hon a gweithio ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn, mae'r tîm wrth law i gefnogi tenantiaid, gan gynnwys y rhai sydd ag ymrwymiadau diwrnod wythnos ac wedi meithrin ymddiriedaeth gyda thenantiaid, lle maent yn teimlo y gallant fod yn agored gyda swyddogion a chael eu cefnogi heb gael eu barnu. Un enghraifft yw pan nodwyd cam-drin ariannol gan fod y tenant yn teimlo'n gyfforddus i ymddiried mewn swyddogion am iddi gwrdd â nhw dro ar ôl tro yn ei chymuned ac wedi adeiladu cydberthynas.

Trwy drefnu boreau coffi mewn caffi cymunedol lleol mae tenantiaid wedi cwrdd â'u cymdogion ac wedi cael eu cyflwyno i ddigwyddiadau a gweithgareddau na fyddent wedi cymryd rhan ynddynt fel arall, gan leihau unigedd cymdeithasol. Gweithiodd y tîm gydag asiantaethau partner a mentrau cymdeithasol lleol i greu hyder a chydlyniant gyda'r tenantiaid ac roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau i Gymunedau am Waith i'w cefnogi i ddod o hyd i waith.

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal wedi gostwng, wrth i swyddogion feithrin ymddiriedaeth gyda thrigolion a gweithio gyda nhw i ddatrys problemau.

Mae'n bwysig nodi nad ydym am greu dibyniaeth ar y tîm ond galluogi tenantiaid i fynnu rheolaeth ar eu tenantiaethau eu hunain a mynnu rheolaeth ar eu cymuned. Mae darparu'r cymorth hwn o'r cam cyn-denantiaeth nes i'r denantiaeth gael ei sefydlu wedi gweithio'n dda. Y teimlad yw y gallai'r math hwn o gymorth dwys gael ei gyflwyno i ardaloedd eraill y nodwyd eu bod yn rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Derbyniodd y prosiect gyllid grant a chafodd ei staffio gan bersonél presennol y swyddfa ystadau.

### Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r prosiect wedi cael effaith enfawr ar iechyd a lles ariannol, corfforol a meddyliol tenantiaid. Maent wedi cynorthwyo tenantiaid i gael grant i helpu i ddodrefnu eu cartrefi, a thrwy weithio gyda thenantiaid i ddatrys problemau gyda chymdogion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mae swyddogion wedi helpu i gynnal tenantiaethau a gwneud y gymuned yn fwy cydlynus drwy hyrwyddo dealltwriaeth a goddefgarwch at ei gilydd. Gweithiodd y tîm yn galed i wella cyflwr yr ardaloedd, gan weithio gyda thenantiaid i lanhau mannau cymunedol blociau'r fflatiau, annog mwy o ailgylchu a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb ac ennyn balchder yn eu hardal. Effaith hyn yw eu bod wedi llwyddo i gofrestru 14 tenant ychwanegol.

Mae'r tîm wedi meithrin ymddiriedaeth gyda thenantiaid, gan olygu eu bod bellach yn teimlo y gallant agor i fyny i swyddogion a chael eu cefnogi heb gael eu barnu. Un enghraifft yw pan nodwyd cam-drin ariannol gan fod y tenant yn teimlo'n gyfforddus i ymddiried mewn swyddogion am iddi gwrdd â nhw dro ar ôl tro yn ei chymuned ac wedi adeiladu cydberthynas.

Gweithiodd y tîm yn galed i gynorthwyo tenantiaid wrth wella'u lles meddyliol, corfforol ac ariannol ac i gynnal tenantiaethau a helpu i greu cymuned fwy cydlynus.

# STORI TAI ORAU

Mae'r wobr yn dathlu storïau llwyddiant yn ein sector dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Tîm More Homes

**Cyngor Abertawe**



**Datganiad o gefnogaeth**

Yn haf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd i awdurdodau lleol gan bennu gofyniad i lunio "Cynlluniau Pontio Cam 2". Y nod sylfaenol oedd sicrhau bod pawb a ddaeth i lety dros dro brys yn ystod y pandemig yn cael ei gefnogi i mewn i lety hunangynhwysol hirdymor. Arweiniodd hyn yn y pen draw at ddatblygu model arloesol ar gyfer ailgartrefu cyflym.

Roedd y ffocws ar ddarparu llety un ystafell wely y gellid ei ddarparu cyn gynted â phosib, ac roedd ffocws cryf ar ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern (MMC). Asesodd tîm Tai Cyngor Abertawe ystod o opsiynau'n gyflym, gan chwilio am adeiladau i'w caffael a'u trosi, a safleoedd a allai gynnwys podiau wedi'u gwneud mewn ffatri, gan y barnwyd mai dyma'r ymagwedd gyflymaf at ddarparu'r llety yr oedd mawr ei angen. Roedd Tŷ Bryn yn gyn-ganolfan addysg segur. Bu i'r Tîm gaffael y safle'n gyflym gyda'r bwriad o droi'r prif dŷ yn bedair fflat a chreu llety dros dro ychwanegol gan ddefnyddio'r podiau passivhaus ecoymwybodol a wnaed mewn ffatri ar safle adeilad cludadwy yn y tiroedd.

Wrth ymateb i'r pandemig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bwerau brys i Hawliau Datblygu a Ganiateir gael eu defnyddio at y diben hwn ar dir sy'n eiddo neu ar brydles i'r Cyngor. Gan ddefnyddio'r pwerau hyn, roedd y gwaith trawsnewid yn gallu dechrau'n syth, gan ddefnyddio gweithlu mewnol Cyngor Abertawe ar gyfer dylunio ac adeiladu. Dechreuodd ar y gwaith o drawsnewid y tŷ a dymchwelwyd yr hen adeilad cludadwy i greu lle ar gyfer y podiau passivhaus ynni effeithlon newydd.

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig. Prynwyd y podiau gan Beattie Passive ac fe'u hadeiladwyd yn eu ffatri yn Norwich. Cludwyd nhw i'r safle wedi'u hadeiladu'n llawn, gan gynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi wedi'u gosod ymlaen llaw, ac fe'u gosodwyd ar y safle gan ddefnyddio craen.

Galluogwyd y cynllun gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru. Mae'n enghraifft o ymagwedd arloesol sy'n dod ag adeilad gwag yn ôl i ddefnydd fel tai, ochr yn ochr â defnydd dulliau adeiladu modern.

Roedd cyflwyno'r cynllun hwn fel ymateb brys i'r pandemig yn her enfawr o ran goresgyn rhwystrau ac yn enghraifft ryfeddol o'r hyn y gellir ei gyflawni trwy weithio'n wahanol, gweithio mewn partneriaethau, tynnu ynghyd a gweithredu y tu hwnt i'r cyfyngiadau cynllunio ac amserlenni arferol. Roedd yn brosiect a fu'n cynnwys risg i swyddogion wrth eu gwaith mewn rhai achosion, gyda llawer yn rhagori ar ofynion eu rôl. Gwnaethant ddangos ymroddiad ac agwedd gadarnhaol yn yr ymrwymiad i gefnogi eraill i gwblhau'r prosiect. Oherwydd natur arloesol y prosiect hwn, anogwyd swyddogion i weithio fel hyn, heb ofni cael eu beio petai pethau'n mynd o chwith. Roedd natur frys y prosiect hwn yn golygu iddo gael ei weithredu ar garlam, gan symud a blaenoriaethu adnoddau staff i sicrhau cyflwyno. Gweithiodd y tîm yn agos gyda'r swyddog Cynllunio i sicrhau nad oedd y cynllun yn groes i unrhyw bolisi cynllunio neu greu lleoedd, ac roedden nhw'n gwybod y byddai angen caniatâd cynllunio llawn 12 mis ar ôl meddiannaeth.

Mae pobl sy'n profi digartrefedd wedi dweud bod

cyfnodau estynedig mewn llety dros dro, yn enwedig llety Gwely a Brecwast yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles, ac yn arwain at ddwysáu anghenion a chanlyniadau negyddol. Daw'r datblygiad hwn â manteision amlwg i'r gymuned. Nododd un trigolyn a gyfeiriwyd drwy'r llwybr Ailgartrefu Cyflym y cynigiwyd tenantiaeth iddo yn Nhŷ Bryn y bu'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud iddo drwy gael cartref diogel a chadarn mewn eiddo y gall fod yn falch ohono'n ddwys. Mae wedi rhoi'r sefydlogrwydd yr oedd ei angen arno i symud ymlaen a dechrau chwilio am waith eto.

## Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r cynllun bellach wedi'i gwblhau a'i feddiannu'n llawn. Cwblhawyd y gwaith o drawsnewid y prif dŷ, sy'n cynnwys dwy fflat hygyrch ar y llawr gwaelod, a dwy fflat ar y llawr cyntaf a ddefnyddiwyd i gartrefu pobl o lety dros dro, ym mis Rhagfyr 2021.

Defnyddir y podiau i symud pobl allan o lety Gwely a Brecwast, i lety dros dro mwy addas, lle mae modd asesu eu hanghenion cyn iddynt symud i lety parhaol. Prynwyd pod ychwanegol a ddefnyddir fel swyddfa a lle i drigolion gwrdd â gweithwyr cymorth neu asiantaethau eraill lle gallant gael cymorth amserol. Gellir defnyddio hon hefyd fel uned llety ychwanegol os oes angen.

Mae'r prif dŷ yn ddatblygiad modern, golau ac eang ac mae'r tiroedd wedi'u tirlunio i ddarparu lle awyr agored y mae mawr ei angen. Mae gan y patio a'r fflatiau olygfeydd dros Fae Abertawe a gellir mynd i ardal yr ardd ar ramp. Mae gan y tŷ ddwy 'fricsen gwenoliaid' i annog adar i nythu.

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant mawr o ran darparu angen tai diffiniedig gan ddefnyddio dulliau arloesol i greu budd i'r gymuned leol.

CIH Cymru

# TAI 2023

26–27 EBRILL
GWESTY'R VALE, GER CAERDYDD

#TAI23

## Digwyddiad tai mwyaf a gorau Cymru

Yn ystod ein cynhadledd dros ddau ddiwrnod, byddwn yn cynnal sesiynau arloesol sy'n ysgogi'r meddwl er mwyn ennyn eich ysbrydoliaeth, bywiogrwydd a chymhelliant.

**www.cih.org/events**